

Rhagymadrodd.

Mae iaith y corff yn bwnc cyfoes a chyffrous iawn sydd yn cael ei ailddarganfod ar hyn o bryd. Mae'r pwnc yn un oesol iawn ond yn un sydd â'i wreiddiau'n ddwfn yn yr Oesoedd Canol ac ymhell yn ôl cyn hynny. Fodd bynnag, gwelwn sut y mae'r pwnc yn newid gyda threigl amser: er enghraifft gwelwn fod pen-glinio yn ystum pwysig yn y cyfnod ond bellach erbyn ein hamser ni nid yw'n cael ei ystyried felly bob amser. Gall rhai pethau fod yn oesol eu naws am eu bod yn deillio o ymateb diarwybod y corff: er enghraifft pan fydd eich wyneb yn coch i os oes rhywun wedi codi cywilydd arnoch. Yr un oedd yr adwaith corfforol yn yr Oesoedd Canol. Mae'n bwnc sydd yn eithaf eang gan ei fod yn ymestyn dros sawl maes ac y mae'n cael ei astudio mewn cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol, llenyddol a hefyd ym myd celf. Gan ei fod yn bwnc rhyngddisgyblaethol mae ei apêl yn un eang iawn. Dywed Judi James amdano:

Body language is the most fluent, lyrical, revealing and significant form of communication. As an off-shoot of the psychology of human behaviour it is intriguing, exciting, fascinating and fun - yet ultimately frustrating.¹

Fe fyddaf yn esbonio'r pwnc o ran beth yn union ydyw yn ogystal â'r ffiniau a bennwyd yn yr astudiaeth hon, a byddaf yn cyfeirio at rai ysgolheigion dylanwadol yn y maes yn y bennod agoriadol.

Mae gennyf ddiddordeb mawr yn y maes canoloesol yn enwedig rhyddiaith ganoloesol, ac y mae gennyf ddiddordeb yn sut y mae pobl yn cael eu cynrychioli a'u darlunio, o ran cyfleu eu golwg a'u hymddygiad a hefyd y ffordd y mae pobl yn eistedd ac yn symud. Gall hyn ddweud llawer am berson neu am gymeriad llenyddol heb iddynt ddweud yr un

¹ Judi James, *The Body Language Bible: The Hidden Meaning Behind People's Gestures and Expressions* (London, 2008), 1.

gair. Yr hyn sydd yn ddiddorol am iaith y corff yw bod modd ceisio cuddio eich emosiynau a'ch teimladau â geiriau ond gall iaith eich corff ddatgelu'r cyfan. Un ysgolhaig y mae ei waith wedi dylanwadu arnaf yn fawr yw J.A. Burrow a'i lyfr *Gestures and Looks in Medieval Narrative*, a gobeithiaf anelu at y math yma o waith ar lenyddiaeth Gymraeg. Edrych Burrow yn benodol ar y gerdd *Sir Gawain and the Green Knight* a hefyd waith Chaucer *Troilus and Criseyde*. Ystyria'r ffordd y mae pobl yn moesyngrymu, yn pen-glinio² ac yn gwneud ystumiau yng nghyd-destun côd ymddygiad i ddechrau cyn mynd ymlaen i drafod ystumiau sydd yn dangos teimladau gwahanol gymeriadau. Yna mae'n ystyried y defnydd o bwyntio, symud y pen ac ati. I orffen edrych ar wahanol ystumiau yn ymwneud â'r wyneb yn benodol, er enghraifft gwenu a chwerthin, edrychiadau gwahanol megis syllu a gwgu a hefyd wincio.³

O ran y ffynonellau craidd, canolbwyntir ar ryddiaith Gymraeg ganoloesol y cyfnod, sef yn bennaf *Y Pedair Cainc*, *Culhwch ac Olwen*, *Y Tair Rhamant*, *Breuddwyd Maxen*, *Breuddwyd Rhonabwy*, *Cyfranc Lludd a Llefelys* a chwilio am enghreifftiau o iaith y corff yn y testunau yma. Dyma'r testunau sydd yn brif ffynonellau i mi. Edrychaf yn fyr ar ffynonellau eraill o'r Oesoedd Canol, sef barddoniaeth y Cynfeirdd, y Gogynfeirdd a Beirdd yr Uchelwyr a hefyd ffynonellau cyfiaith poblogaidd cyfandirol o ran cymhariaeth, e.e. *Ystoryaeu Seint Greal* ac *Ystorya de Carolo Magno*, testunau crefyddol megis *Buchedd Dewi*, a hefyd groniclau hanesyddol a ffug-hanesyddol y cyfnod fel *Brut y Brenhinedd* yng ngoleuni'r testunau craidd. Edrychir yn fras hefyd ar destunau meddygol cynnar, ac ar rywfaint o dystiolaeth o gelf ac archeoleg yr Oesoedd Canol

² John A. Burrow, *Gestures and Looks in Medieval Narrative* (Cambridge, 2002), 11

³ Burrow, *Gestures and Looks*, 69.

megis seliau Cymru, a chorffddelwau: gan fod mwy o bwyslais ar ystum yng nghelf yr Oesoedd Canol diweddar, gallai hyn ddatgelu llawer. Byddaf yn edrych ar destunau *Cyfraith Hywel Dda* sydd yn deddfu ynglŷn â phrotocol ac ymddygiad yn y llysoedd brenhinol gan obeithio y gall hyn ddatgelu arwyddocâd iaith y corff yng nghyd-destun ymddygiad er enghraifft. Yn ogystal, rwy'n ceisio tynnu ynghyd gymariaethau am iaith y corff mewn ieithoedd a thraddodiadau eraill i gyd yng ngoleuni'r *Mabinogion*.

Wrth ddarllen y *Mabinogion* fe geisiwyd darllen y chwedlau o bersbectif cynulleidfa ganoloesol gan mai dyma oedd eu pwrpas sylfaenol nhw. Hefyd credaf fy mod yn darllen testunau o'r Oesoedd Canol o bersbectif dadansoddiad rhywedd gan fy mod yn ymwybodol iawn, wedi imi astudio'r maes, o statws israddol y ferch yn yr Oesoedd Canol, ac y mae gennyf ddiddordeb neilltuol yn y ffordd y câi merched yn benodol eu darlunio yn y testunau canoloesol.

Serch hyn, mae rhai problemau sydd yn gwneud y gwaith yma'n anodd. O ran y ffynonellau craidd, er enghraifft, ceir dadlau mawr ynghylch dyddiad ac awduraeth y chwedlau. Mae nifer o gwestiynau a chymhlethodau yn codi o ran y ddadl am awduraeth — ai cynnyrch un awdur yw'r chwedlau neu gynnyrch sawl awdur? Hefyd y ddadl ynghylch dyddiad cyfansoddi'r chwedlau sydd eto'n dibynnu ar yr awduraeth: a gawsant eu cyfansoddi dros gyfnod o amser penodol sydd yn dilyn y ddadl mai cynnyrch sawl awdur yw'r chwedlau, neu a ydynt yn deillio o un cyfnod penodol sydd yn cefnogi'r dyb mai gwaith un awdur sydd gennym?⁴ Y farn gyffredin yw bod y chwedlau wedi'u

⁴ Am drafodaeth ar awduraeth y chwedlau, gweler W.J. Gruffydd, *Rhiannon: An Inquiry into the Origins of the First Branch of the Mabinogi* (Cardiff, 1953), ac Ifor Williams, (gol.), *Pedeir Keinc y Mabinogi*

cyfansoddi rhwng yr unfed ganrif ar ddeg a'r bedwaredd ganrif ar ddeg, sydd yn gyfnod eang iawn i ddyddio testunau. Felly mae'r cyfan braidd yn benagored oherwydd diffyg cytundeb o ran y dystiolaeth.⁵

Problem arall a geir yw diffyg manylder. Fel y dywed Schmitt:

Some texts simply mention isolated gestures but do not describe them. We might know that King Arthur and his knights met to eat, but we do not know how they ate, how they held their knives or moved their heads or feet. Sometimes, we get better descriptions. We know for instance how Charlemagne expressed grief by pulling his beard and crying with an abundance of tears. Occasionally we find a moral or aesthetic judgement or an abstract thought about the meanings and social values of such gestures.⁶

Felly bydd mwy o dystiolaeth a manylder am rai pethau/sefyllfaoedd yn fwy nag eraill ac y mae hyn yn broblematig iawn yn nhestunau'r *Mabinogion*.

Yn y bennod agoriadol, Y Gwaith Theoretig ar Iaith y Corff, byddaf yn diffinio'r maes astudiaeth yn fanwl gan edrych ar iaith y corff yn gyffredinol. Byddaf hefyd yn trafod rhai ysgolheigion dylanwadol yn y maes. Wedyn byddaf yn ymdrin yn benodol ag iaith y corff yn y cyfnod canoloesol, ei rôl a'i bwysigrwydd gan edrych yn benodol ar syniadau am y corff ac ymddygiad yn y cyfnod a dylanwad crefydd a'r cyfreithiau ar hyn. Yn yr ail bennod, Pryd a Gwedd, byddaf yn ymdrin yn benodol â disgrifiadau o olwg cymeriadau gan edrych ar fanylion am wallt, rhannau o'r corff y cyfeirir atynt yn y *Mabinogion*, a hefyd y disgrifiadau yn y naratif o wahanol gymeriadau. Côd ymddygiad

(Cardiff, 1930), sydd yn dilyn yr un syniadau. Am drafodaeth ar y posibilrwydd fod mwy nag un awdur, gweler Sioned Davies, 'Pedair Keinc y Mabinogi – A Case for Multiple Authorship', *Proceedings of the First North American Congress of Celtic Studies* (Ottawa, 1986), 443-459.

⁵ Am drafodaeth ar ddyddiad y chwedlau, gweler Simon Rodway, 'The Where, Who, When and Why of Medieval Welsh Prose Texts: Some Methodological Considerations,' *Studia Celtica* 41 (2007), 47-89. Trafoda Rodway farn y gwahanol ysgolheigion eraill am y pwnc.

⁶ Jean-Claude Schmitt, 'The Rationale of Gestures in the West: Third to Thirteenth Centuries', yn J. Bremmer a H. Roodenburg (goln), *A Cultural History of Gesture: From Antiquity to the Present Day* (Cambridge, 1991), 63.

sydd dan sylw ym mhennod 3. Wrth edrych ar iaith y corff, mae'n amlwg fod côd ymddygiad y cyfnod yn berthnasol iawn ac felly rwyf yn mynd i'r afael ag ystumiau sydd yn rhan amlwg o'r côd ymddygiad yma, er enghraifft pen-glinio o flaen cymeriad arall a hefyd ystumiau'n ymwneud â chyfarchion gwahanol megis codi i gyfarch cymeriad. Byddaf yn trafod hefyd y gwahanol enghreifftiau o gyfathrebu aneiriol gan ganolbwyntio ar yr episodau hynny lle ceir cymeriad arall i ddilyn cymeriad heb yngan yr un gair wrthynt. Mae pennod pedwar yn ystyried safleoedd cymeriadau. Rhywbeth sydd yn allweddol iawn i'r ymchwil hon yw osgo a safleoedd cymeriadau, er enghraifft pwy sydd yn sefyll ac yn eistedd. Pwy sydd y tu ôl neu ar y tu blaen, pwy sydd ar ei ben ei hun neu wedi'i amgylchynu gan osgordd? Dengys hyn y berthynas rhwng cymeriadau a hefyd pwy yn union sydd â phŵer a grym dros eraill mewn sefyllfaoedd gwahanol. Ym mhennod pump, Cyfathrebu, byddaf yn archwilio arwyddocâd edrychiadau gwahanol yn ogystal â'r broses o ymserchu neu gochi. Yn y bennod olaf, byddaf yn trafod y gwahanol fathau o ystumiau geiriol sydd i'w cael yn y chwedlau, er enghraifft seibiau, ochneidiau, chwerthin ac ati. Dyma ddatblygiad cymharol ddiweddar o ran hanesyddiaeth iaith y corff gan mai dim ond yn y blynyddoedd diwethaf y mae ysgolheigion wedi rhoi sylw i bwysigrwydd y rhain yn y llenyddiaeth.

Pennod 1: Y Gwaith Theoretig ar Iaith y Corff.

Yn gyntaf rhaid diffinio'n iawn beth yw ystumiau ac iaith y corff. Mae Keith Thomas wedi mynd at y mater fel hyn:

What is gesture? The Concise Oxford Dictionary defines it as 'a significant movement of limb or body' or 'use of such movements as expression of feeling or rhetorical device. In this sense gesture includes any kind of bodily movement or posture (including facial expression) which transmits a message to the observer. The message can be deliberately intended and expressed in some accepted code, as when the sender winks, smiles, nods or points; it can also be inadvertent and expressed symptomatically, as when he or she blushes, grimaces with pain, or twitches with embarrassment. Some of these gestures are intended to accompany speech. Others, like the sign language of deaf and dumb or 'emblematic' gesture like thumbing one's nose, are substitutes for it. The body can also transmit messages without any movement at all. To refrain from gesture, for example by stifling symptoms of grief, could be as demonstrative an act as bursting into tears. The body is not neutral until its owner makes an involuntary movement or decides to send out a signal - for faces, hands and limbs can be a significant in response as in motion. There is no attribute of the human body, whether size, shape, height or colour, which does not convey some social meaning to the observer.⁷

Atgyfnertha hyn syniad Burrow mai enghreifftiau o 'social behaviour'⁸ a hefyd 'acts of communication'⁹ yw'r rhain sydd eto'n rhan o iaith y corff. Byddaf yn edrych ar symudiadau'r corff, patrymau eistedd, symud a hefyd sut y mae pobl yn dal eu cyrff. Credaf fod synau megis pesychu a chwerthin yn ogystal â seibiau'r un mor bwysig ac yn rhan o'r hyn yr wyf i'n ceisio ei ddarganfod yn y chwedlau. Mae mynegiant wynebol megis iaith y llygaid ac edrychiadau yn rhan o iaith y corff yn ogystal. Mae'r maes felly yn un eang iawn fel y dengys Feyereisen: 'To some extent, any movement or change in position of a body segment may be considered a gesture.'¹⁰ Mae pethau fel ymddygiad yn rhan bwysig ohono, er enghraifft byddaf yn edrych ar bethau fel dyn yn codi ei het at fenyw: pam mae'n gwneud hyn? A beth yw ei arwyddocâd? Mae hyn yn rhan o gwrteisi

⁷ Keith Thomas, 'Introduction', yn Bremmer a Roodenburg (goln), *Cultural History of Gesture*, 1.

⁸ Burrow, *Gestures and Looks*, 4.

⁹ Burrow, *Gestures and Looks*, 4.

¹⁰ Pierre J. M. Feyereisen a Jacques-Dominique de Lannoy, *Gestures and Speech: Psychological Investigations* (Cambridge, 1991), 3.

a chôd ymddygiad yr oes, ond nid yn unig yn ystod yr Oesoedd Canol, ond yn ein hoes ni heddiw lle mae'n rhan o natur diwylliant. Dywed Roodenburg:

for centuries bowing, lifting the hat, and other gestures have been part of a whole “science of conversing agreeably” - the actual subject of these manuals - by which the upper strata could distinguish themselves from the rest of the population.¹¹

Gwelir bod y dosbarthiadau cymdeithasol is yn cael eu dylanwadu gan bethau yr oedd y dosbarth uwch yn eu gwneud e.e. tynnu'r het, ac yr oedd ffasiynau'r oes yn treiddio drwy bob haen o'r gymdeithas. Byddai hyn yn ddiddorol i weld a ellid gwahaniaethu rhwng dosbarthiadau cymdeithas. Ni fyddaf yn edrych ar ba fath o het ydyw gan nad yw hyn yn ganolog i'r maes astudiaeth: mae hyn yn bwysig iawn wrth nodi ffiniau'r maes. Wrth ddadansoddi ystumiau ac iaith y corff rhaid cofio bod cyd-destun yn bwysig iawn, fel y dywed Braddick:

Manner, deportment, and gesture mark out particular spaces and time - not just whole cultural systems, but specific spaces and times within them, distinguishing for example a museum from a department store or a music recital from a gig.¹²

Mae'n rhaid cofio hyn wrth ddadansoddi'r ystumiau a hefyd y cyd-destun diwylliannol. Wrth astudio iaith y corff rhaid cydnabod pethau eraill sydd yn galluogi rhywun i ddadansoddi'r sefyllfa. Fel y noda Braddick, 'it is clear that gestures have to be placed against a wider background of self-presentation - in dress, manner, style, and deportment, for example, as well as in the context of power relations.'¹³ Mae hyn eto'n bwysig: mae yna gymaint o ffactorau i'w hystyried wrth ddadansoddi iaith y corff, ac mae'n bwysig cofio cydnabod y rhain i gyd hyd yn oed os nad oes modd eu dihysbyddu i gyd o fewn yr astudiaeth hon.

¹¹ H. Roodenburg, 'The "Hand of Friendship": Shaking Hands and other Gestures in the Dutch Republic', yn Bremmer a Roodenburg (goln), *Cultural History of Gesture*, 154.

¹² Michael J. Braddick, 'Introduction', yn Michael J. Braddick, (gol.) *The Politics of Gestures* (Oxford, 2009), 10.

¹³ Braddick, *The Politics of Gestures*, 28.

Mae iaith y corff yn rhan o gyfathrebu aneiriol wrth gwrs, ac er bod hyn yn rhywbeth sydd yn cael ei reoli (er enghraifft y dyn yn tynnu ei het), mae rhai pethau'n cael eu gwneud yn isymwybodol, er enghraifft y dwylo yn symud wrth siarad â rhywun. Nid yw hyn yn rhywbeth mor rheoledig ond yn hytrach fe ddigwydd ar hap, a gall hyn ddatgelu llawer am gyfathrebu pobl a sut y maent yn cyfathrebu ag eraill. Hefyd gyda rhywun yn symud eu dwylo wrth siarad â pherson arall, efallai nad yw'n ymwybodol o iaith ei gorff ei hunan a'i fod hyd yn oed yn gwneud hyn. Dywed Boegehold am y 'Greeks used their heads, hands, and bodies when they spoke. Plato, Aristotle, and other authors say that body movement and gesture are integral components of communication.'¹⁴ Gellir gweld enghreifftiau helaeth o hyn yn digwydd o ddydd i ddydd wrth edrych ar bobl yn siarad ar y stryd. Mae iaith y corff mewn ffordd yn rhywbeth na ellir ei reoli i gryn raddau gan ei fod yn rhywbeth mor naturiol. Gellwch guddio eich teimladau ag iaith, er enghraifft dweud nad ydych wedi diflasu mewn darlith, ond gall eich corff ddatgelu'n wahanol: os ydyw eich pen yn gorffwys ar eich dwylo, mae hyn yn amlwg iawn i bawb eich bod wedi diflasu. Fel y dywed John Napier: 'If language was given to men to conceal their thoughts, then gesture's purpose was to disclose them.'¹⁵ Mae rhywbeth gonest iawn am iaith y corff felly, sydd yn gallu datgelu gwir deimladau pobl, weithiau'n ddarwybod iddynt.

Mae astudio iaith y corff yn bwnc oesol iawn fel y dengys Axtell: 'gestures are powerful communicators used by a wide and a growing number of internationally cosmopolitan

¹⁴ Alan L. Boegehold, *When a Gesture was Expected: a Selection of Examples from Archaic and Classical Greek Literature* (Princeton, 1999), 28.

¹⁵ David McNeill, *Hand and Mind* (Chicago, 1992), 11.

individuals.’¹⁶ Gallwn feddwl am hyn yng nghyd-destun gwyliau i wlad dramor heb fedru deall yr iaith, e.e. mynd i Ffrainc, mynd ar goll, ceisio cyfathrebu â Ffrancwr drwy ddefnyddio’r corff a’r dwylo i gyfleu'r hyn y ceisir ei ddweud, fel gofyn am gyfarwyddiadau i’r Eglwys ac ati. Gall ystum neu iaith y corff felly gyfleu rhywbeth heb eiriau yn y modd hwn.

Rwyf am olrhain pethau fel arwyddocâd eistedd ar yr orsedd - yn ôl Bremmer, yr oedd sefyll yn dechrau mynd yn llai pwysig erbyn tua 600 C.C ac felly dechreuodd eistedd fod yn symbol o bŵer.¹⁷ Hefyd gwelir nifer o enghreifftiau o bobl yn eistedd i siarad yn enwedig mewn sefyllfaoedd yn y ffynonellau craidd, ac fe nodwyd pethau fel hyn yn y testunau Cymraeg a’u trafod. Mae eistedd yn bwysig hefyd oherwydd ‘its position relative to the place occupied by the lord and lady is symbolic of status or special honour,’¹⁸ fel y dengys Burnley, a gellir gweld nifer o enghreifftiau o hyn yn y chwedlau Cymraeg. Mae rhai ystumiau yn gyfarwydd iawn i ni heddiw, fel y dengys Keith Thomas:

for the one hand it seems that the meaning of many gestures and postures has remained constant. To walk with head erect still signifies authority, dignity, and detachment. To cower and cringe indicates abasement. Gravity and impassivity are evidence of self control, usually associated with rule and superiority...¹⁹

ac y mae gwreiddiau hyn yn yr Oesoedd Canol. Gwelwn hyn yn niwylliant y pendefigion, yn enwedig yn y darluniau a geir o’r corff perffaith aristocrataidd. Ystum poblogaidd iawn hefyd oedd cymryd dwylo pobl yn niwylliant sifalri sydd eto’n ystum ond hefyd yn arwydd o barch ac yn rhan o’r côd ymddygiad. Yn ogystal mae edrychiadau gwahanol

¹⁶ R. Axtell, *Gestures: The Do's and Taboos Of Body Language Around The World* (New York, 1998), xv.

¹⁷ Jan Bremmer, ‘Walking, Standing, and Sitting in Ancient Greek Culture’, yn Bremmer a Roodenburg (goln), *Cultural History of Gesture*, 24-25.

¹⁸ D. Burnley, *Courtliness and Literature in Medieval England* (London, 1998), 57.

¹⁹ Thomas, ‘Introduction’, yn Bremmer a Roodenburg (goln), *Cultural History of Gesture*, 10.

yn bwysig iawn ac i'w gweld mewn testunau o'r Oesoedd Canol, a gall hyn hefyd ddatgelu llawer am sefyllfaoedd. Gellir dadlau fod iaith y corff yn gallu datgelu llawer mwy na geiriau, er enghraifft drwy un edrychiad ar rywun neu hyd yn oed saib. Mae llawer o sôn yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol yn enwedig am fenywod yn llefain, a bod hyn yn rhan o'r mynegiant corfforol sydd yn deillio o alar. Ceir yr argraff fod hyn yn perthyn i fenywod yn enwedig, a bod disgwyl i ddynion fod yn llawer mwy disgybledig a *macho*; gwelwn felly sut y mae tuedd i rai ystumiau fod wedi'u rhyweddu. Gobeithiaf geisio tynnu cymhariaeth rhwng ystumiau efallai sydd yn benodol yn ymwneud â menywod a hefyd yn ymwneud yn unig â dynion.

Mae'r hyn yr wyf wedi sôn amdano'n barod yn rhan o 'physical gestures'²⁰ ond gellir sôn hefyd am 'verbal gestures'²¹ gan fod y rhain lawn cyn bwysiced â'i gilydd, er enghraifft:

One often says or is alleged to say - something like [ummm], a verbal gesture that is interpreted to mean "I'm not listening" or "I'm not interested;" or in a more benign interpretation "I'm thinking about it." "I'm not interested though is better conveyed by a non-committal "Oh?" with rising intonation.²²

Bydd hyn yn anodd ei hoelio mewn llenyddiaeth ysgrifenedig, ond gellir ceisio dyfalu am y rhain o fewn y cyd-destun e.e. os yw'n dweud yn blaen yn y testun fod rhywun yn dweud 'O!' Gall hyn wneud y gwaith yn anodd ond mae'n bwysig iawn ei gydnabod gan ei fod ar y ffin sydd rhwng iaith y corff ac iaith lafar. Mae chwerthin a pheswch yn rhan o hyn hefyd ac yr oedd rheolaeth bendant dros y rhain yn rhan o'r côd ymddygiad yn yr Oesoedd Canol.

²⁰ W.F. Wyatt Jr, 'Gesture', yn G.W. Bakewell, a J.P. Sickinge, (goln), *Gestures* (Oxford, 2003), 152.

²¹ Wyatt, 'Gesture', yn Bakewell a Sickinge, *Gestures*, 152.

²² Wyatt, 'Gesture', yn Bakewell a Sickinge, *Gestures*, 152.

Mae perthynas agos tu hwnt rhwng iaith ac iaith y corff fel yr ydym wedi gweld yn barod. Dywed McNeill, ‘ “Language” and “gesture” have long been held to be different, yet at the same time a relationship between them has always been recognized.’²³ Mae’r ddwy mewn ffordd yn anwahanadwy, ac rwyf wedi ceisio esbonio hyn yn barod drwy’r syniad fod pobl yn gwneud ystumiau a symudiadau yn rheoledig ac yn ymwybodol o hyn, a throeon eraill eu bod yn anymwybodol o hyn, er enghraifft mewn sgwrs bob dydd.

Dywed Lia Markey hefyd am hyn:

It is believed that gesture is the oldest form of language and that it evolved before or perhaps simultaneously with speech. Studies of the movements and gestures of primates, such as chimpanzees, indicate a complex use of gesture for communication²⁴

sydd eto’n cadarnhau'r berthynas gymhleth sydd rhwng iaith ac iaith y corff. Mae cred hefyd fod iaith wedi deillio o ystumiau ac iaith y corff a gallwn weld hyn gyda’r enghraifft o fynd i wlad dramor fel yr eglurwyd uchod.

Mae astudio iaith y corff yn bwnc hen iawn ond hefyd yn un cyfoes gyda sawl ysgolhaig yn ei astudio ar draws sawl proffesiwn gwahanol — o haneswyr i anthropolegwyr i gymdeithasegwyr i berfformwyr dramatig. Pynciau cyfoes o fewn astudio iaith y corff yw pethau fel sylwi ar ieithwedd corff pregethwyr a hefyd sefyllfaoedd mewn llys barn, er enghraifft. Mae hanesyddiaeth y pwnc yn hen iawn gyda chyfarwyddiaid Rhufeinig a Groegaidd fel Quintilian gyda’i lyfr *Institutiones Oratoriae* yn eu hastudio yn y ganrif gyntaf O.C. ac yna Cicero yr athronydd Rhufeinig yn ei lyfr *De Oratore* a awgrymodd:

that the body’s actions expressed ‘the sentiments and passions’ of the soul. He saw that the body, words, expressions and gestures were used as a whole to make up an instrument of communication.²⁵

²³ Adam Kendon, ‘Language and Gesture: Unity or Duality?’, yn David McNeill, (gol.) *Language And Gesture* (Cambridge, 2000), 47.

²⁴ <http://csmt.uchicago.edu/glossary2004/gesture.htm> (Cyrchwyd 01-10-2010)

²⁵ Carolyn Boyes, *Body Language* (London, 2005), 9.

Erbyn yr 1640au fe wnaeth John Bullwer astudiaeth yn edrych yn benodol ar wahanol ystumiau'n ymwneud â dwylo, ac ym 1806 fe edrychodd Gilbert Austin ar y berthynas rhwng ystumiau ac iaith lafar. Erbyn yr 1870au fe gyhoeddodd Charles Darwin astudiaeth ar *The Expression of the Emotions in Man and Animals* a fu'n llyfr dylanwadol iawn yn ei ddydd. Fe fu cryn drafodaeth ar y pwnc yn ogystal yn yr ugeinfed ganrif gyda Wilhelm Wundt i ddechrau yn yr 1920au yn astudio o safbwynt ystumiau yn ymwneud â seicoleg. Dechreuodd David Efron yn yr 1940au astudio ystumiau drwy ffilmio ac arafu hyn er mwyn gallu eu dadansoddi ac fe weddnewidiodd hyn y pwnc. Edrychodd McNeill ar ystumiau o safbwynt seicolegol ac ieithyddol. Yna yr oedd Kendon yn yr 1970au yn dadlau fod ystumiau yn rhan o iaith ac na ddylent gael eu hastudio ar wahân. Astudiodd Desmond Morris, y sŵolegwr, iaith y corff o safbwynt natur anifeilaidd pobl. Cyhoeddwyd llyfr dylanwadol iawn gan J. Bremmer a H. Roodenburg, *A Cultural History of Gesture*, sef casgliad o draethodau gan nifer o awduron dylanwadol yn y maes yn astudio iaith y corff ar ei hyd. Cyhoeddodd Moshe Barash waith ar ystumiau ac iaith y corff o safbwynt hanesydd celf a'r ffaith nad yw iaith y corff o fewn celf wedi cael ei hastudio o'r blaen, ac yna edrychodd R.G. Benson ar waith Chaucer yng ngoleuni iaith y corff yn yr 1980au. Erbyn yr unfed ganrif ar hugain, braf dweud hefyd fod y pwnc yn cael ei ailddarganfod drachefn yn llyfr arbennig J.A. Burrow, *Gestures and Looks in Medieval Narrative*, sydd yn edrych ar enghreifftiau o ystum yn llenyddiaeth Saesneg yr Oesoedd Canol, yn llyfr Geoffrey Bakewell, *Gestures*, sydd yn gasgliad o draethodau ar ystumiau ac iaith y corff o wahanol safbwyntiau, a hefyd mewn atodiad cyfan o'r cyfnodolyn *Past and Present* sydd wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar (2009), sef *The Politics of Gestures* sydd yn canolbwyntio'n benodol ar ystumiau ac iaith y corff. Dyma flas felly

ar rai gweithiau ac awduron dylanwadol yn y maes. Gellir gweld fod y pwnc yma wedi denu diddordeb o sawl maes gwahanol, fel y dywed Kay a Rubin:

“Historians” interests have converged on the body from a variety of theoretical and historical directions in the last fifteen years. Studies inspired by cultural anthropology have centred on the rituals and symbolic gestures of acting bodies, perceived as carriers of potent symbolic value; as interacting in formulae of ritual events; or as expressing and interpreting symbolic traditions. The derided body in *charivari*, the bodies of actors in mystery plays, the intricate language of gesture at prayer, and even the body of a cat, have become familiar stepping stones on one of the paths leading towards a historical understanding of embodiment.²⁶

Gwelwn felly ei fod yn cyffwrdd â sawl maes arbenigol gwahanol. Mae llawer iawn o ymchwil wedi cael ei wneud ar y pwnc ond hyd yma nid yw wedi cael ei drafod fel pwnc unedig gan ysgolheigion sydd yn gweithio ar lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol.

Er nad yw ysgolheigion wedi ymdrin â'r pwnc yma yn benodol, fe gyffyrddodd Sioned Davies â hyn wrth edrych ar bryd a gwedd yn y *Mabinogion* gan nodi fod y disgrifiadau yn rhai elfennol o'r cymeriadau.²⁷ Ceir erthygl ddiddorol iawn sydd ar ffiniau'r pwnc hefyd gan Dylan Foster Evans ym 1996 yn ymdrin â'r traddodiad 'barfol' a hefyd gwallt y cyfnod.²⁸ Trafoda Fiona Winward yn 2002 y defnydd o liwiau yn y cyfnod a hyn mewn perthynas â chymeriadau'r *Mabinogion* (o ran eu lliw gwallt ac yn y blaen).²⁹ Hefyd trafododd Alaw Mai Jones yn 2007 wisgoedd y cyfnod.³⁰ Mae yna alw mawr, felly, am astudiaeth o'r math manwl hwn ar iaith y corff mewn llenyddiaeth Gymraeg.

²⁶ Sarah Kay a Miri Rubin 'Introduction', yn Sarah Kay a Miri Rubin, (goln), *Framing Medieval Bodies* (Manchester, 1996), 1.

²⁷ Sioned Davies, 'Pryd a Gwedd yn y Mabinogion', *Ysgrifau Beirniadol* 14 (1988), 115-133.

²⁸ Dylan Foster Evans, 'Y Bardd a'r Farf: Y Traddodiad Barfol', *Dwned* 2 (1996), 11-29.

²⁹ Fiona Winward, *Colour Terms in Early Welsh Literature* Traethawd PhD anghyhoeddedig, (Cambridge University, 2002).

³⁰ Alaw Mai Jones, *Gwisgoedd ac Ategolion yn Llenyddiaeth yr Oesoedd Canol c. 700 — c. 1600* Traethawd PhD anghyhoeddedig, (Prifysgol Aberystwyth, 2007).

Gellir gweld yn glir fod pwysigrwydd mawr i ystumiau ac iaith y corff yn yr Oesoedd

Canol:

The culture of the Middle Ages has sometimes been called a “culture of gestures” or a “gestural culture.” Such expressions have a double meaning: first the movements and attitudes of the human body played a crucial role in the social relationships of the past. Second, medieval culture itself thought about its own gestures, and indeed constructed a medieval theory of gestures.³¹

Yr oedd rôl bwysig iawn i ystumiau mewn defodau, er enghraifft, tynnu llw a selio deliau neu gytundebau. Yr oedd hyn yn hynod o bwysig yn niwylliant y pendefigion, a gellir gweld hyn yn chwedlau'r *Mabinogion*. Dywed Hibbits am hyn:

For instance, in medieval Welsh, English, French and Spanish law, a handclasp or its variant, a hand-slap, indicated the making of a contract. Alternatively, early medieval Germans could express legal agreement by pressing the palms of their hands together as they held them over their heads.³²

Y mae'r gusan hefyd yn ystum pwysig yn yr Oesoedd Canol, ac yn un sydd â sawl arwyddocâd iddo er enghraifft eto'n rhan o'r defosiynau seremonïol, cwrteisi'r Oesoedd Canol wrth gyfarch rhywun, neu symbol o serch a chariad rhwng dau berson, fel y dywed Phillips:

J. Russell Major has studied the decline of the use of the kiss in feudal rituals of homage from the fourteenth to the sixteenth centuries, and argued that its increasingly erotic implications, reflected in the increasing anxiety expressed by detractors of the feudal kiss, contributed significantly to its eventual erasure from the ceremony.³³

Ceir syniadau diddorol iawn am symudiadau ac ystumiau yn yr Oesoedd Canol a'r gredaw 'expressions of the inner movements of the soul, of feelings, of the moral values of individuals'³⁴ oeddynt. Y ffordd o wella hyn os oedd ymddygiad rhywun yn anghyffredin oedd dilyn ystumiau'r rheolaeth fynachaid. Rhaid cofio wrth gwrs am natur y

³¹ Schmitt, 'The Rationale of Gestures in the West: Third to Thirteenth Centuries', yn Bremmer a Roodenburg (goln), *Cultural History of Gesture*, 59.

³² http://faculty.law.pitt.edu/hibbits/re_mem.htm (Cyrchwyd 01-10-2010)

³³ K. M. Phillips, 'Bodily Walls, Windows and Doors: the Politics of Gesture in Late Fifteenth-Century English Books for Women', yn Jocelyn Wogan-Browne, (gol.) *Medieval Women: Texts and Contexts in Late Medieval Britain* (Turnhout, 2000), 196-197.

³⁴ Jean-Claude Schmitt, 'The Rationale of Gestures in the West: Third to Thirteenth Centuries', yn Bremmer a Roodenburg (goln), *Cultural History of Gesture*, 65-66.

gymdeithas: gellir dadlau fod ieithwedd y corff wedi chwarae rôl mor bwysig oherwydd diffyg ysgrifennu a llythrennedd. Dywed Schmitt, ‘According to some historians, the weakness of literacy explains the importance of gestures in the Middle Ages.’³⁵ Y mae hyn i’w weld yn glir yng ngwaith y cyfarwydd hefyd yn ogystal ag yn seremonïau defosiynol yr oes wrth iddynt gyfathrebu gyda’u cynulleidfa, hynny yw drwy elfen berfformiadol o ddefnyddio iaith y corff.

Yr oedd iaith y corff yn rhywbeth allweddol iawn i waith y cyfarwydd yn yr Oesoedd Canol yn adrodd chwedlau fel yr oedd yn allweddol i waith y cyfarwyddiaid Celtaidd eraill, neu i’r comedi a oedd yn rhan o *repertoire* y cyfarwyddiaid Rhufeinig. Yr oedd yn fodd i gyfathrebu gyda dosbarthiadau is cymdeithas a oedd yn anllythrennog neu’n llai gwybodus o’u cymharu â’r dosbarthiadau uwch yn ogystal â bod yn rhan o’r elfen berfformiadol a oedd yn allweddol i’w gwaith. Yn ôl Panayotakis:

Acting, especially comic acting, is, and always has been, inseparable from patterns of nonverbal behaviour. Evocative gestures, meaningful postures, complete immobility, telling facial expressions, “pregnant” pauses, nonverbal sounds, and expressive modulations of voice are some of the means comic actors use nowadays to embellish their lines and signal to fellow stage - characters and the audience their thoughts, feelings, and attitudes about people or issues that may form part of a play’s plot. In some cases nonverbal behaviour may replace speech and be used as a source of laughter on its own; or it may be exploited to corroborate the effect of a verbal joke and to form part of a comic scene.³⁶

Gallai iaith corff y cyfarwydd hefyd ddylanwadu ar y gynulleidfa. Gwelwn hyn yn llawlyfrau rhethreg Quintillian a Cicero (yr areithyddion Rhufeinig): ‘The body signs of the orator demonstrate his own emotions which in turn excite similar emotions in the

³⁵ Schmitt, ‘The Rationale of Gestures in the West’, yn Bremmer a Roodenburg (goln), *Cultural History of Gesture*, 59.

³⁶ Costas Panayotakis, ‘Nonverbal behaviour on the Roman comic stage’, yn Douglas Cairns, (gol.) *Body Language in the Greek and Roman Worlds* (Swansea, 2005), 175.

audience.’³⁷ Yn llygaid y cyfarwyddiaid nid oedd iaith y corff yn llai pwysig nag iaith ei hun — yr oedd y ddwy mor allweddol â’i gilydd ac yn rhan o’r perfformiad. Gellir dadlau fod hyn yn wir yn ein cymdeithas ni heddiw yn ogystal, er enghraifft wrth fynd i wlad dramor, fel yr eglurwyd yn barod. Dyry McNeill enghraifft arall o hyn wrth ddisgrifio athrawes yn darllen *Little Red Riding Hood* i’r dosbarth. Er na ddywedir yn y stori y dylai’r athrawes godi ei llaw wrth ddarllen ei bod yn dringo i fyny, mae’n gwneud yr ystum ac yn actio wrth wneud hyn. Disgrifia McNeill hyn fel ‘gesturing that accompanies the passage.’³⁸ Dyma enghraifft o rywbeth sydd yn dal i ddigwydd heddiw.

Mae syniadau hynod o ddiddorol yn cael eu harchwilio am y corff yn ystod yr Oesoedd Canol, yn enwedig cyrff menywod gan fod y rhain yn cael eu gweld yn bethau mor ddieithr ac ysgymun i’r gymdeithas wrywaidd, er enghraifft y pethau a oedd yn digwydd i fenywod o ran genedigaeth ac ati — ‘blood of the afterbirth was thought to attract demons’³⁹ — ond hefyd y gred ganolog mai menywod a oedd wrth wraidd pob temtasiwn:

The views contrasted oddly with the popular mythology of lust in which women were often seen as temptresses overcome by their sexual appetites, and indeed the polarized imagery of women’s nature that characterized patristic writings was very much in evidence in later centuries.⁴⁰

Câi menywod eu gweld fel pobl hynod o beryglus, a rhan o’r gred yn sicr yn deillio o lyfr cyntaf y Beibl, sef *Genesis*, gydag Efa yn cael ei gweld fel creadigaeth gynhenid ddrwg wrth demtio Adda. Câi hyn ei bwysleisio yn y sefydliadau crefyddol. Er bod Mair Forwyn yn cael ei hedmygu ac yn ymddangos fel math o ddelw i fenywod, yr oedd Mair

³⁷ Fritz Graf, ‘Gestures and Conventions: the Gestures of Roman Actors and Orators’, yn Bremmer a Roodenburg (goln), *Cultural History of Gesture*, 40.

³⁸ Adam Kendon, ‘Language and Gesture: Unity or Duality?’, yn David McNeill, (gol.), *Language and Gesture* (Cambridge, 2000), 51-52.

³⁹ Carolly Erickson, *The Medieval Vision: Essays in History and Perception* (Oxford, 1976), 196.

⁴⁰ Erickson, *The Medieval Vision*, 198.

Forwyn mor berffaith nad oedd gobaith i unrhyw fenyw fod mor arbennig â hi gan ei bod ar bedestal ac mewn un ystyr yn rhy berffaith. Mae'r ffordd y câi'r corff ei ganfod yn gyffredinol yn yr Oesoedd Canol yn ddiddorol hefyd:

The medieval body was central to a process of social classification according to categories of age, health, sex and purity, which were regulated through constructed categories such as stigma and gender.⁴¹

Yr oedd cymdeithas yr Oesoedd Canol yn un anwybodus iawn am y corff a hawdd oedd i bobl, felly, gamddehongli, fel yn yr enghraifft a ddyry Phillips: 'In young women lack of steady posture and gaze could easily be equated with unchastity.'⁴² Câi cyrff menywod lawer mwy o sylw beirniadol na chyrrff dynion, ac yr oeddent yn credu'n ddeddfol yn y pethau yma.

Yr oedd crefydd yn deddfu am y corff a hefyd iaith y corff yn ogystal, ac adlewyrchid y côd ymddygiad yn nysgeidiaeth yr Eglwys. Fel yr eglura Simons, tueddid i gredu os nad oeddech yn gallu ymddwyn yn iawn neu'n gallu dal eich corff yn iawn, fod nam arnoch, a bod y corff allanol yn fynegiant o nam ysbrydol mewnol:

Outside the liturgy the external appearance of the body would similarly convey the inner state of the soul, to be interpreted by convention. A state of mind is perceived in the comportment of the body . . . hence a motion of the body is like an expression of the soul', in the words of Ambrose. The consequences of this widely held view (informed by Greek as well as Scriptural thought) for the regulation of bodily movement were extensive. The subordination of the body to the soul required its regulation; conversely, modernation of the body might help to achieve greater control over the soul. The true Christian should therefore always obey the ancient precept of modernation, honouring restraint and dignity. This idea is underscored in Augustine's rule for monastic life, in which the famous injunction was given 'to avoid in gait and posture, in all your movements, all that may offend the gaze of anyone: you will comport yourself as demanded by your saintliness.'⁴³

⁴¹ Roberta Gilchrist, 'Medieval Bodies in the Material World: Gender, Stigma and the Body', yn Kay a Rubin (goln), *Framing Medieval Bodies*, 44.

⁴² Phillips, 'Bodily Walls, Windows and Doors', yn Wogan-Browne, (gol.) *Medieval Women: Texts and Contexts*, 191.

⁴³ Walter Simons, 'Reading a Saint's Body: Rapture and Bodily Movement in the *Vitae* of Thirteenth-Century Beguines', yn Kay a Rubin (goln), *Framing Medieval Bodies*, 14.

Roedd yr Eglwys, fel y gymdeithas seciwlar hithau, yn dyrchafu diweirdeb a morwyndod a gellir gweld mor bwysig yw'r rhain hefyd yn y chwedlau Cymraeg. Yr oedd Bucheddau'r Saint yn sôn am ymwrthod â'r corff yn gyfan gwbl: câi ei roi o'r neilltu a bod yn ddiwair er mwyn ennill sancteiddrwydd. Gwelwn felly fod rheolau llym iawn ynglŷn â'r corff yn ganolog iawn i sefydliadau crefyddol yr oes. Yr oedd dysg yr Eglwys yn cael ei chymryd o ddifrif ac o'r herwydd fe ddylanwadai'n fawr iawn ar y gymdeithas ganoloesol.

Yr oedd rheolau pendant ynglŷn â chôd ymddygiad yr Oesoedd Canol yn ymwneud â'r corff, ac yr oedd hyn yn rhywbeth pwysig iawn, fel y nodwyd gan Maria Bogucka:

A knowledge of gestures was obligatory for every member of the noble class and served as proof of having been born and raised a noble. The lack of this knowledge would inevitably unmask a plebeian.⁴⁴

Yr oedd y pendefigion yn cael eu hyfforddi ynghylch ymddygiad cydnabyddedig wrth besychu a thisian. Hefyd yn ôl llyfrau ymddygiad yr Oesoedd Canol, yr oedd yna ddysg hefyd i weision a morynion y llys ynglŷn â sut i ymddwyn yno'n ogystal:

A large household of well drilled and disciplined servants, along with their ecclesiastical-style gestures in his presence, and other essential props such as the furnishings, the richness of the linens, plate, and draperies, and the house itself, all constitute extensions of, or even replacements for, the body of the aristocrat. Good manners, as prescribed in the courtesy books, could have even been something the nobleman thought he was above, and the model behavior of his servants would be even more efficacious if the latter were significant men in their own right. Where modern masculine elitism is often buttressed by trophy wives medieval noblemen were supported by trophy servants.⁴⁵

⁴⁴ Maria Bogucka, 'Gesture, Ritual, and Social Order in Sixteenth-to-eighteenth-century Poland', yn Bremmer a Roodenburg (goln), *Cultural History of Gesture*, 190-191.

⁴⁵ Kim M. Phillips, 'The Invisible Man: Body and Ritual in a Fifteenth-Century Noble Household', *Journal of Medieval History* 31, rhif 2, (2005), 157.

Yr oedd iaith y corff felly'n dod yn rhan o hyn, a'r rheolau'n datblygu ac yn newid yn ôl gofynion yr oes.⁴⁶ Ceisir holi a welir eu dylanwad ar y ffynonellau craidd y byddaf yn eu defnyddio. Gwelwn fod yna bwysigrwydd mawr i gôd ymddygiad trwy iaith y corff nid yn unig i'r dosbarthiadau uwch mewn cymdeithas ond i bawb yn y gymdeithas, yn enwedig y rheini a oedd yn ymwneud mewn rhyw ffordd â bywyd y llys.

Mae celf yr Oesoedd Canol hefyd wedi rhoi tipyn o bwyslais bwriadol ar iaith y corff, gan fod y corff mor ganolog i waith celf y cyfnod, er enghraifft corffddelwau. Yng nghelf yr Hen Fyd Clasurol hefyd gwelir lluniau o fenywod yn rhwygo'u gwallt, yn gwneud ystumiau penodol fel dal eu breichiau i fyny, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn defodau galaru a chladdu. Yn y traethawd hwn, ni fu'n bosibl imi drafod gwaith celf y cyfnod mewn unrhyw ddyfnder gan mai dadansoddi rhan iaith y corff yn naratif y chwedlau yw fy mhrif ffocws yma. Fy mwriad hefyd yw dilyn peth o'r theori yma am iaith y corff gan holi cwestiynau megis: Beth yw'r ystumiau sydd yn cael eu mynegi yn y chwedlau? Pwy sydd yn gwneud yr ystumiau yma? A yw ieithwedd y corff yn fodd i wahaniaethu rhwng y rhywiau? A oes tebygrwydd neu gysonder yn iaith y corff mewn sefyllfaoedd arbennig? I ba raddau y mae iaith y corff yn newid o chwedl i chwedl? Ac a yw hyn yn adlewyrchu newid yn ffasiynau'r oes? A oes newid pwyslais ar rai ystumiau o'u cymharu ag eraill ac a yw hyn eto oherwydd newid ffasiwn? Sut mae iaith y corff yn cael ei gweu i mewn i'r naratif? Sut mae iaith y corff neu ystumiau arbennig yn adlewyrchu personoliaeth y cymeriadau? Yn ogystal, hoffwn geisio cyfeirio wrth fynd heibio at ambell gymhariaeth rhwng ystumiau ac ymddygiad mewn llenyddiaeth a

⁴⁶ 'From the thirteenth century onwards the rules of etiquette changed continually...', Roodenburg, 'Hand of Friendship', yn Bremmer a Roodenburg (goln), *Cultural History of Gesture*, 158.

thraddodiadau eraill. Mae tipyn o'r gwaith yn y maes hwn wedi ei wneud yn barod ar y gweithiau Clasurol a hefyd ar draws Ewrop fel yr wyf wedi sôn eisoes. Wrth geisio ateb y cwestiynau a thynnu ynghyd y deunydd cymharol gobeithiaf allu mynd beth o'r ffordd at ddadansoddi ac olrhain arwyddocâd iaith y corff yn y chwedlau Cymraeg.

Pennod 2: Pryd a Gwedd.

Mae yna dipyn o gyfeirio at wallt yn y *Mabinogion* a llu o gyfeiriadau gan feirdd a llenorion Cymraeg yr Oesoedd Canol. Mae'n amlwg fod yna bwyslais mawr ar ddulliau gwallt yn y gymdeithas, gyda chyfeirio at liw a steiliau gwallt pobl yn hytrach na chyfeirio at gymeriadau wrth eu henwau. Dengys lliw a steil gwallt ffasiwn yr oes o ran y ddelfryd berffaith a'u statws. Y mae nifer o feirdd y cyfnod wedi canu cerddi i wallt merch, i farf ac ati, a cheir cyfeiriadau yn llawysgrifau *Meddygon Myddfai* at rysáit fel math o hylif swyn yn egluro sut i gael gwallt aur.⁴⁷ Dengys hyn ffasiwn y cyfnod a pha mor bwysig oedd hyn gan ei fod hyd yn oed yn ymddangos mewn llyfr meddygol yn y cyfnod. Yr oedd meddygaeth yn holistig iawn y pryd hwnnw, ac yn cynnwys bwyd a phethau therapiwtig o bob math yn ogystal â'r hyn a alwn ni heddiw yn foddion. Er nad yw gwallt fel y cyfryw yn 'iaith y corff' yn yr ystyr y mae gwên neu ystum er enghraifft, mae steiliau gwallt pobl yn gallu adlewyrchu rhai nodweddion o'u cymeriad ac yn gallu helpu ein dadansoddiad o iaith corff rhywun.

Gwelir yr enghraifft gyntaf yn nhestun *Pwyll Pendeuic Dyuet* yn episod enwi ei fab gan Teyrnnon a'i wraig,

yr hynn a oed ar y ben o wallt, kyuelynet oed a'r eur.⁴⁸

Mae gwallt y plentyn mor drawiadol y mae'n cael ei enwi ar ôl hyn, sef Gwri Gwallt Euryn. Y mae'r ffaith fod ganddo wallt lliw aur yn gwneud iddo edrych fel angel, hyd yn oed fel rhywbeth arallfydol.

⁴⁷ John Williams, (gol.) *The Physicians of Myddfai* (Felinfach, 1993), 335.

⁴⁸ Pwyll 20: 546-7.

Yn y chwedlau caiff nifer o gymeriadau eu hadnabod a'u cydnabod wrth eu lliw gwallt neu steil gwallt fel yn yr enghraifft hon o *Historia Peredur Vab Efrawc*:

Ac ar lan y llyn yd oed gwr gwynllwyt yn eistedd ar obennyd o bali a gwisce o bali ymdanaw, a gweisson yn pyscotta y mywn kafyn ar y llyn.⁴⁹

Adlewyrcha'r lliw llwyd ei oedran a'i fod yn ddyn yn ei henaint. Noda Winward, 'The vast majority of *gwyn*'s appearances in the *Mabinogion* are the modifying element in the compound *gwynllwyd*, 'white-grey', which is used to describe the hair colour of various elderly men in the prose.'⁵⁰ Trwy gydol y chwedl nid ydym yn gwybod yn iawn beth yw enw'r ewythr yma ond yn hytrach cyfeirir ato yn gyson wrth liw ei wallt.⁵¹

Nid oes enw gan y gwas yma eto yn *Historia Peredur Vab Efrawc* ond cyfeirir ato wrth liw gwallt ei ben:

Peredur a gyuodes y vynydd ac a gymerth y ffon a'r taryan a drychafal llaw ar y gwas melyn a oruc, hynny uu yr ael ar y llygat a'r gwaet yn redec yn frydyeu.⁵²

Mae'n amlwg fod y gwas yma wedi cael niwed wrth inni gael y manylyn fod 'yr ael ar y llygat a'r gwaet yn redec yn frydyeu.' Un o feibion ewythr Peredur yw'r mab hwn sydd yn cymryd rhan yn hyfforddiant milwrol Peredur. Sylwer hefyd mai lliw gwallt 'melyn' sydd gan y gwas, lliw a gaiff sylw manwl gan Winward: '*Gwinau* and *melyn* are in fact the most frequently found human hair colours in the *Mabinogion* and both tend to denote youth and, often, from the hero's point of view, harmlessness.'⁵³ Ceir enghraifft arall lle y cyfeirir at was arall wrth liw ei wallt eto yn *Historia Peredur Vab Efrawc*

Ar hynny, llyma was melyngoch achul ar y bwlch vch y pen.⁵⁴

⁴⁹ Peredur 16-17: 1-3.

⁵⁰ Winward, *Colour Terms*, 146.

⁵¹ Yn y rhamantau Ffrangeg, cyfeirir ato fel 'Gorneman de Gorhaut': gw. Nigel Bryant, (cyf.) *Perceval: The Story of the Grail* (Cambridge, 1982), 18.

⁵² Peredur 18: 5-8.

⁵³ Winward, *Colour Terms*, 140.

⁵⁴ Peredur 22: 29-30.

Mae'r 'melyngoch' hwn yn dynodi'r math o liw a welir ar rywun ifanc gan amlaf. Sylwa Winward eto, 'Red hair seems to have been considered a rather unflattering attribute, men who possess it being portrayed on a number of occasions as ugly...'⁵⁵

Yn ogystal â chyfeiriadaeth at liw gwallt rhywun, fe geir cydnabod diffyg gwallt hefyd yn y chwedlau fel yn *Historia Peredur Vab Efrawc*:

Ac ef a welei neuad, ac ar y drws y neuad ef a welei tri gweis moelgethinyon yn gware gwyddbwyll.⁵⁶

Effaith y moelni yw peri chwerthin yn y chwedlau, neu ddirmyg (fel brithni a brychni haul, a gwallt coch). Cyfeirir at y gwas yma hefyd yn *Breudwyt Ronabwy* a'i wallt 'melyngoch' a'r ffaith ei fod 'heb varyf':

Ar hynny nachaf y clywynt twryf oed vwy o lawer nho'r twrwf gynt. A phan edrychasant tu a'r twryf nachaf was melyngoch ieuanc heb varyf a heb [559] drawswch arnaw, a gosged dylyedawc arnaw y ar varch mawr. Ac o pen y dwy ysgwyd a thal y deulin y waeret y'r march yn velyn. A gwisc ymdan y gwr o pali coch gwedy ry wniaw a sidan melyn, a godreon y llen yn velyn. Ac ar a oed velyn o'e wisc ef a'e varch a oed kyn uelynet a blodeu y banadyl, ac a oed goch ohonunt yn gyn gochet a'r gwaet cochaf o'r byt. Ac yna nachaf y marchawc yn eu gordiwes, ac yn gofyn y Idawc a gaffei ran o'r dynyon bychein hynny gantaw.⁵⁷

Gallai'r manylyn ei fod heb farf olygu nad yw'n ddigon aeddfed i dyfu barf. Yn ôl Kirstie Chandler, 'facial hair is one of the most clearly distinguishing factors separating the boys from the men and the women from the men.'⁵⁸ Mae'n amlwg felly fod y gwas yma'n ifanc iawn. Mae nifer o feirdd y cyfnod wedi trafod y farf yn eu cerddi yn ogystal, mewn amryw o gerddi.⁵⁹ Mae'n amlwg fod hyn wedi bod yn gonfensiwn llenyddol.

⁵⁵ Winward, *Colour Terms*, 101.

⁵⁶ Peredur 42: 24-6.

⁵⁷ BR 5: 16-30.

⁵⁸ Kirstie Chandler, *Masculinity and Medieval Welsh Literature* Traethawd PhD anghyhoeddedig, (Prifysgol Aberystwyth, 2005), 47.

⁵⁹ Llywelyn ab y Moel, 'I'r Farf', yn R. Iestyn Daniel, (gol.) *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel* (Aberystwyth, 1998), 109-110; Iolo Goch 'I'r Farf', yn Dafydd Johnston, (gol.) *Iolo Goch: Poems* (Gomer, 1993), 102-10; Llywelyn Goch ap Meurig Hen 'Y farf', yn Dafydd Johnston, (gol.) *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (Aberystwyth, 1998), 56-7; Llywelyn Goch

Trafoda Dylan Foster Evans arwyddocâd hanesyddol y cerddi gan ddweud amdanynt, 'Caiff y farf ei hathrodi a'i thestunio, ei gwawdio a'i dyfalu ym mhob un o'r cerddi.'⁶⁰ Atgyfnertha hefyd y lliw melyngoch ar ei wallt ei oedran gan fod hyn yn golygu person ifanc fel arfer yn y cyfnod.

Dyma gyfeiriad arall at liw gwallt yn *Kulhwch ac Olwen* eto, ond hefyd manylir ar y steil:

Ym pen gwers, pan at pawb eu damsathyr, agori kib a oruc y wreic yn tal y pentan, a chyuodi gwas pengrych [475] melyn oheni.⁶¹

Mae'r gwallt 'pengrych' yn cynrychioli cryfder a chnawdolrwydd .

Gall gwallt menywod gael ei bortreadu fel rhyw fath o arf i demtio dynion hefyd yn yr Oesoedd Canol. Ceir pwyslais mawr ar y gwallt yn y fan hon yn chwedl *Owein* a'r ffordd ei fod yn gorwedd dros ei dwy ysgwydd. Manylir ar wallt mewn nifer o sefyllfaoedd gwahanol yn y cyfnod:

Ac ar ôl y llu hwnnw y gwelei ef gwreic velen a'e gwallt dros y dwy ysgwyd, ac a gwaet briw amyl yn y brigeu, a gwisg o bali melyn ymdanei gwedy y rwygaw, a dwy wintas o gordwal brith am y thraet. A ryued oed na bei yssic penneu y bysed rac dyckynet y maedei y dwylaw y gyt. A hyspys oed gan Owein na welsei ef eiryoet gwreic kymryt a hi, beyt uei ar y ffuryf iawn. Ac uch oed y diaspat noc a oed o dyn a chorn yn y llu.⁶²

Er bod ei hymddangosiad corfforol yn eithaf briwedig, fel petai'r wraig wedi cael amser caled yn gorfforol, mae ei gwallt yn dal i'w weld yn eithaf perffaith yr olwg. Ceir llawer o sylw i'r gwallt yn yr Oesoedd Canol ac fel y gall menywod demtio dynion drwy ddefnyddio eu gwallt. Yr oedd y gwallt o'r golwg yn achos gwragedd priod (a lleianod),

ap Meurig Hen 'Y farf', yn Johnston, (gol.) *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, 58-9; Dafydd ap Gwilym, 'Gwallt Morfudd,' 'Englynion Bardd i'w Wallt', yn <http://www.dafyddapgwilym.net> (Cyrcwyd 01-10-2010.)

⁶⁰ Foster Evans, 'Y Bardd a'r Farf,' 12.

⁶¹ KO 17: 468-70.

⁶² Owein 14: 353-60.

ac yn cael ei ddisgyblu mewn rhyw ffordd ac eithrio ar ferched ifainc iawn. Mae rhyw dinc o'r voyeur yma, o weld rhywbeth a waherddid. Cyfansoddodd nifer o feirdd y cyfnod gerddi am wallt merched, er enghraifft Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog 'Gwallt Merch',⁶³ a Mastr Harri ap Hywel 'Gwallt aur merch',⁶⁴ a Ieuan ap Rhydderch 'I wallt merch'⁶⁵ ac enwi rhai enghreifftiau. Mae'n amlwg ei fod yn bwnc poblogaidd yn y cyfnod.

Ceir yma enghraifft arall o fenyw yn temtio dyn gyda'i gwallt yn *Historia Peredur Vab Efracw* a chadarnha'r syniad yma eto o fenywod yn fflyrtio wrth ddefnyddio eu gwallt,

Ac ef a welei bebyll ymplith y pebylleu ereill, tecaf o'r a welsei eiroet, a morwyn tec yn ystynnu y phen trwy ffenestyr ar y pebyll. Ac ny welsei eiroet morwyn tegach, ac eurwisc o bali ymdanei. Ac velly y bu yn edrych ar y vorwyn o'r bore hyt hanher dyd, ac o hanher dyd hynny oed pryt nawn.⁶⁶

Atgoffa'r enghraifft yma ni o'r olygfa gyntaf wrth inni gyfarfod ag Olwen pan fo'n golchi ei gwallt yn dyner ar lan yr afon, ond rhaid cofio fod Olwen yn cael ei gweld mewn sefyllfa breifat yn wahanol i'r enghraifft sydd gennym o dan sylw. Atgyfnertha hyn y syniad o fenywod yn temtio dynion eto, ac adlewyrcha bwysigrwydd gwallt yn yr Oesoedd Canol a'r amser a fuddsoddid ynddo i wneud i'r gwallt edrych yn berffaith. Dywed Sioned Davies am hyn, 'Yr awgrym yw bod y ferch yn temtio dyn trwy ymfalchïo yn ei chorff a'i gwallt hir.'⁶⁷ Hefyd cawn yr angen i'w reoli a'i guddio weithiau gan fod y Beibl yn deddfu ar hyn a diwinyddion yr Oesoedd Canol.

⁶³ Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog, 'Gwallt Merch', yn A. Cynfael Lake, (gol.) *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog* (Aberystwyth, 1995), 68-69.

⁶⁴ Mastr Harri ap Hywel, 'Gwallt aur merch', yn M. Paul Bryant-Quinn, (gol.) *Gwaith Syr Phylip Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel* (Aberystwyth, 2001), 130-131.

⁶⁵ Ieuan ap Rhydderch, 'I wallt merch', yn R. Iestyn Daniel, (gol.) *Gwaith Ieuan ap Rhydderch* (Aberystwyth, 2003), 39-40.

⁶⁶ Peredur 53: 13-9.

⁶⁷ Sioned Davies, 'Y ferch yng Nghymru'r Oesoedd Canol, *Cof Cenedl* 9 (Llandysul, 1994), 7.

Ymddengys gwallt yn yr enghreifftiau nesaf mewn ffordd gwbl gyferbyniol a sut y mae gwallt yn cael ei ddefnyddio i ddangos stad meddwl pobl yn y cyfnod. Yn yr enghraifft yma gwelwn fod gwallt wedi tyfu dros gorff Owain i gyd yn adlewyrchu ei stad feddyliol, codir yr enghraifft yma o chwedl *Owein*:

A thrannoeth y bore y kyfodes ac nyt llys Arthur a gyrchwys namyn eithaued byt a difeith vynyded. Ac ef a vu y velly ar dro hynny daruu y dillat oll, ac hynny daruu y gorff hayach, ac yny dyuawd blew hir trwydyaw oll; a chytgerdet a bwystuilet gwyllt a wnai, a chytymborth ac wynt yny oedynt gynefin ac ef. Ac ar hynny gwanhau a oruc ef hyt na allei eu kanhymdeith. ⁶⁸

Mae gwallt ar y corff yn adlewyrchu rhywbeth sydd yn anifeilaidd braidd fel y syniad o ddyn gwyllt y coed. Mae'r un peth yn wir heddiw os yw gwallt pobl yn edrych yn flêr neu mae pobl wedi gadael eu hunain i fynd, er enghraifft dynion yn peidio ag eillio. Dengys hyn ryw fath o ragfarn gymdeithasol, un oedd eisoes yn bodoli yn yr Oesoedd Canol, a chyn hynny, yn wir, wrth i'r Rhufeiniaid wedi eu heillio'n lân fwrw sen ar eu gelynyon blewog a barfog.

Gwelwn fod cyflwr Owain yn dechrau gwella wrth i'r blew ddechrau diflannu yn nes ymlaen yn y chwedl:

A'r blew a aeth y ar Owein yn toruennu kennoc. Sef y bu yn hynny trimis, a gwynnach oed y gnawt yna no chynt. ⁶⁹

Yma eto gwelwn fod Owain yn dechrau dygymod â phethau wrth i'r gwallt ddiflannu oddi ar ei gorff. Y mae hyn yn arwydd ohono'n dechrau ailafael yn ei fywyd a dod yn ddyn go-iawn eto. Dywed Chandler am hyn:

Once in the castle and given food, drink, warmth and a bath, Owain becomes well again with the hair falling from him in tufts leaving his skin whiter than before ("gwynnach oed y gnawt yna no chyn"). Since physical appearance was considered an important indicator of moral, social and economic worth, Owain's restoration and physical transformation suggests his moral and social worth have improved along with the purity of his skin. ⁷⁰

⁶⁸ Owein 21: 574-9.

⁶⁹ Owein 23: 619-21.

⁷⁰ Chandler, *Masculinity and Medieval Welsh Literature*, 174.

Yn ogystal â'r darluniau personol hyn a geir wrth ymdrin â gwallt, ceir rhai enghreifftiau o ddarluniau hynod o graffig yn ymwneud â gwallt. Yn yr episod hon o chwedl *Kulhwch ac Olwen*, mae Cai a Bedwyr yn ceisio dwyn barf Dillus Farfog er mwyn cyflawni un o'r tasgau a osodwyd gan Ysbaddaden Bencawr er mwyn rhwystro Culhwch rhag priodi ei ferch.

Tra yttoed ef yn [837c] hynny, y buant wynteu yn gwneuthur kylllellbrenneu. Pan wybu Gei yn diheu y uot ef yn kyscu, gwyneuthur pwll a oruc dan y draet, mwyhaf yn y byt, a tharaw dyrnawt arnaw anueitrawl y ueint a oruc, a'e wascu yn y pwll hyt pan daroed udunt y gnithiaw yn llwyr a'r kylllellbrenneu y uaryf. A gwedy hynny y lad yn gwbyl.⁷¹

Y mae hyn i raddau'n ddarlun poenus iawn o'r weithred y mae Cai a Bedwyr yn ei gwneud i'r cawr (rhaid cofio wrth gwrs fod tynnu gwallt, plycio aeliau ac ati'n gallu bod yn broses boenus tu hwnt). Mae yna symbol ehangach i hyn, fod gwallt wedi'i drin a'i ddisgyblu yn symbol o wareiddiad cymdeithasol, o ddiwylliant, ac yn amlwg yn y fan hon mae yna ddiffyg gwareiddiad cymdeithasol.

Ceir enghraifft arall o ddarlun poenus iawn yn chwedl *Kulhwch ac Olwen* yn ymwneud â gwallt pan yw Cacamwri a Hygwydd yn ymladd â'r Widdon Orddu:

Ac ymauel o Gacamwri yndi hitheu herwyd gwallt y phen, a'e thynnu y ar Hygwyd y'r llawr,⁷²

Mae gan y wrach wallt hir afreolus — fel dynes wyllt allan o reolaeth sydd yn adlewyrchu hyn yn dda. Ceir yma enghraifft arall yn yr un chwedl o wallt yn cael ei ddefnyddio'n graffig iawn,

A dyuot Kaw o Brydein y eillaw y uaryf, kic a chroen hyt asgwrn, a r deu glust yn llwyr.⁷³

Y mae'r portread hwn yn eithaf barbaraidd, ac mae'r manylder am 'eillaw y uaryf, kic a chroen hyt asgwrn,' yn pwysleisio hyn hyd yn oed yn fwy.

⁷¹ KO 35: 969-74.

⁷² KO 41: 1213-5.

⁷³ KO 42: 1232-3.

Wrth edrych ar chwedl *Culhwch ac Olwen* mae'n amlwg fod yna symbolaeth ehangach a'i bod yn arwydd o ymddiriedaeth wrth adael i rywun drin eich gwallt. Mae yna lawer o bwyslais ar wallt yn y chwedl arbennig hon. Gwelir hyn yn arbennig yn yr episod pan fo Culhwch yn mynd i lys Arthur i ofyn am ei gymorth i chwilio am Olwen.

Kymryt crip eur o Arthur, a gwelliu a doleu aryant itaw, a chribaw y ben a oruc.⁷⁴

Yn yr episod yma gwelwn taw Arthur sydd yn trin gwallt Culhwch, ac fe geir darlun eithaf croes i'r syniad o wrywdod heddiw yn y ffaith bod arwr fel Arthur yn gwneud hyn: yr ystrydeb heddiw yw meddwl ei fod yn rhywbeth merchetaidd i'w wneud. Darlun manwl iawn a gyflwynir yma wrth i'r awdur hyd yn oed gyfeirio at y ffaith bod Arthur yn 'chribaw y ben.' Sylwa Miranda Green ar hyn:

He was to visit his cousin Arthur, the object being to get his hair cut. This odd allusion must simply refer to a rite of passage from youth to manhood, and may also be an obscure reference to the Celtic custom of fosterage between noble families.⁷⁵

Dyma'r ffordd yr oeddent yn arddel perthnasau yn y cyfnod. Gwelir enghraifft o hyn yn digwydd yn *Historia Brittonum* hefyd, ond yn yr enghraifft yma fe wrthoda Vortigern gydnabod ei fab, 'The boy heard him, and turned to his grand-father Vortigern, his father after the flesh, and said to him "You are my father. Crop my head, and the hair of my head." But he was silent, and said nothing, and refused to answer the boy. He got up in great anger, and fled from the face of saint Germanus, and was accursed, and was condemned by saint Germanus and the whole council of the British.'⁷⁶ Ond fel y soniais uchod, mae yna symbolaeth ehangach i hyn yn ogystal, fel y dengys Chandler:

The grooming theme in *Culhwch ac Olwen* operates in two ways according to Knight; on the one hand the grooming and combs in the party's hair as they enter Ysbaddaden's hall suggest the civilised and cultured nature of the group, whereas the lack of grooming and grooming facilities at Ysbaddaden's fort suggests a lack of civilization.⁷⁷

⁷⁴ KO 7: 164-5.

⁷⁵ Miranda Green, *Celtic Goddesses: Warriors, Virgins and Mothers* (London, 1995), 66.

⁷⁶ John Morris, (gol.) *British History and the Welsh Annals – Nennius* (London, 1983), 29.

⁷⁷ Chandler, *Masculinity and Medieval Welsh Literature*, 44.

Yr hyn sydd yn ddiddorol am y cyfeiriadau at wallt yw ei fod yn rhywbeth a oedd yn llawn cyn bwysiced i ddynion ag yr ydoedd i ferched y cyfnod. Gwelir hyn wrth i Culhwch a'r dynion fynd i dŷ Custennin:

Gwest a orugant vy y nos honno yn ty ⁷⁸Gustenhin. A'r eil dyt gan uawred a gyrru gwiw grip y mywn gwallt y doeth[478]ant y'r neuad.

Mae'n amlwg wrth y cyfeiriadau sydd at hyn yn yr Oesoedd Canol ei bod yn rhywbeth eithaf normal ac yn rhan o fywyd bob dydd. Ceir darlun *gwrth-macho* yn ymwneud â gwallt unwaith eto o gymharu â'n diffiniad ni heddiw o beth yn union yw *macho*. Mae'n amlwg felly fod diffiniad gwahanol o beth sydd yn *macho* yn y cyfnod hwnnw.

Cyfeirir at rannau o'r corff hefyd yn y *Mabinogion*. Nid yw'n syndod fod llawer o bwyslais ar yr wyneb a rhannau penodol o'r wyneb megis y llygaid yn y chwedlau Cymraeg. Cawn ddisgrifiad gwych yn chwedl *Branwen Uerch Lyr* o Efnisien gyda'i lygaid yn gweddu'n iawn i'w bersonoliaeth afreolus.

Sef a wnaeth Efnysyen dyuot ymlaen llu Ynys y Kedyrn ymywn, ac edrych golygon orwyllt antrugarawc ar hyt y ty. Ac arganuot y bolyeu crwyn a wnaeth ar hyt y pyst. ⁷⁹

Mae'n amlwg nad yw Efnisien yn dilyn rheolau Bendigeidfran fel arweinydd gan ei fod yn mynd i mewn i'r neuadd (a adeiladwyd er anrhydedd i Bendigeidfran yn Iwerddon) cyn dynion Ynys y Cedyrn. Gwelwn yn syth o'n persbectif ni heddiw fod rhywbeth seicotig ynglŷn â chymeriad Efnisien, ond o safbwynt cynulleidfa'r cyfnod gallent weld fod hyn yn arwydd o wylltineb - fel math o greadur allan o reolaeth, ac y mae'r llygaid 'gorwyllt' yma'n atgyfnerthu hyn fel petai yma ryw fath o rwystredigaeth neu baranoia, a meddwl yn gweithio tros amser - mae rhywbeth anesmwyth iawn am ei gymeriad yn y fan hon sydd yn cael ei adlewyrchu yn iaith ei gorff.

⁷⁸ KO 20: 529-31.

⁷⁹ Branwen 13: 331-4.

Arhoswn gyda'r llygaid yn yr enghraifft nesaf o *Breudwyt Ronabwy* sydd yn dra gwahanol i'r enghraifft flaenorol:

Ac yn gytneit ac yd aeth hun yn y lygeit y rodet drych idaw.⁸⁰

Ceir darlun llawer mwy ymlaciol yma wrth inni weld fod Rhonabwy'n ei chael hi'n anodd cadw ei lygaid ar agor ac y mae'n syrthio i gysgu. Gellid cymharu'r darlun doniol o *Kulhwch ac Olwen* o Ysbaddaden Bencawr gyda'i amrannau yn cwympo a'i ddynion yn codi ffyrch i gadw'i lygaid ar agor:

Drycheuwch y fyrc'h – uy aeleu ry syrthwys ar aualeu uy llygeit – hyt pan gaffwyf edrych ar defnyd uyn daw.⁸¹

Cawr ydyw, ac yn wŵr o statws gan fod ei weision yn dal ei lygaid ar agor iddo. Gan fod y llygaid ynghau mae'n arwyddo ei fod yn smalio bod yn ddi-hid wrth weld Culhwch yn ymddangos ger ei fron. Dywed Miranda Green:

The character of Olwen's father Ysbaddaden is fascinating and complex: he appeared as a monstrous, Titan-like figure: indeed he closely resembles Balor, the demonic Fomorian leader of the Irish Mythological Cycle. Balor had one enormous and evil eye, which had to be propped open with ropes and pulleys. Ysbaddaden's eyelids were kept open with forks.⁸²

Darlun cyntefig iawn a geir o Peredur yn ymosod ar y marchog â'r saeth,

A'e dyfwrw a gaflach blaenllym a'e vedru yn y lygat, hyt pan aeth y'r gwegil allan, ac ynteu yn allmarw y'r llawr.⁸³

Gellir dadlau fod y ffordd y mae Peredur yn ymosod ar y marchog yn dangos pa mor benderfynol ydyw i'w brofi ei hun fel marchog. Mae anelu am y llygad yn adlewyrchu anelu mewn saethyddiaeth (fel y dywedwn '*bull's eye*'!) a bron felly'n cyfleu'r syniad fod yma 'chwarae' gwyrddroedig ar droed.

⁸⁰ BR 3: 25-6.

⁸¹ KO 20: 547-9.

⁸² Green, *Celtic Goddesses*, 67.

⁸³ Peredur 14: 23-5.

Mewn achosion eraill fel y gwelwch yn *Ystorya Gereint Uab Erbin* byddant yn cuddio'r wyneb fel yn yr enghraifft yma yn y naratif,

ny at yr arueu ystronawl mawr racco welet na'y vyneb ef na'y bryt.⁸⁴

Gan fod ei wyneb yn guddiedig awgryma hyn rywbeth sinistr a chyfrinachol amdano.

Ceir nifer o gyfeiriadau at y pen, y rhan bwysicaf o'r corff, drwy'r *Mabinogion*. Sonia Cunliffe am bwysigrwydd y pen erioed i'r hen Geltiaid: 'The head represented an aspect of divinity, and as such was an appropriate offering with which to adorn a temple.'⁸⁵ Mae yna lawer o sôn am dorri pen yn y chwedlau. Y pen oedd y rhan bwysicaf o'r corff yn yr Oesoedd Canol: mae'n amlwg mai dyma oedd yn llywio'r corff yn eu barn nhw. Cofiw'n fod torri'r pen yn symbol o golli sofraniaeth y wlad (pen yn golygu 'pennaeth' hefyd), ac felly ceir cryn bwyslais arno yn llenyddiaeth y cyfnod. Anwybyddir y galon i raddau fel organ sydd yn cael ei gydnabod yn hollbwysig yn ein cymdeithas ni - mae'n amlwg mai datblygiad diweddarach oedd hyn gan fod yna gymaint o bwyslais a chyfeiriadaeth at y pen, yn wahanol i ambell rai a geir at y galon. Sonnir am dorri pen Bendigeidfran yn ail gainc y *Mabinogi*:

Ac yna y llas y ben ef, ac y kychwynassant a'r pen gantu drwod, y seithwyr hynn, a Branwen yn wythuet.⁸⁶

Cawn nifer o gyfeiriadau at dorri pen Brân yn y chwedl yma, gwelwn nad yw mor anorchfygol ag yr oeddem yn meddwl. Dywed Mac Cana: 'Brân's head...here appears the motif of the living head which is almost a commonplace in Celtic tradition - during all this time Bendigeidfran's head remained uncorrupted and provided them with as pleasant

⁸⁴ Gereint 5: 125-6.

⁸⁵ Barry Cunliffe, *The Celtic World* (London, 1992), 83.

⁸⁶ Branwen 15: 402-3.

company as he himself had done when alive.’⁸⁷ Dywed Sims-Williams am hyn ei fod yn fotiff mewn llenyddiaeth ac y gwelir cyfatebiaeth rhwng yr hyn sydd yn digwydd i Brân a’r hyn sydd yn digwydd i Urien Reged:

I would suggest that the story of Urien also deserves to be linked typologically with that of Vortimer as yet one more variation on the theme of foreign *gormes* and British betrayal - ‘the way Britain was lost by the Cymry, rather than being won by the English’ (or, perhaps, in Brân’s case, by the Romans.)⁸⁸

Cedwir yr hen arferion yn fyw yn yr enghraifft yma gyda chario'r pen a'i gladdu.

Pa hyt bynnac y bydynt ar y ford, wynt a doethant hyt yn Llundain, ac a gladyssant y pen yn y Gwynuryn.⁸⁹

Dengys yr enghraifft hon yr hen arferion am y pen a'i bwysigrwydd yn yr Oesoedd Canol sef cario'r pen yn ôl i'w gartref cyn ei gladdu. Erbyn heddiw wrth gwrs cario'r corff yn ôl yn gyfan gwbl yw'r ddefod. Crybwyllir y ddefod yma eto am ben a chorff Urien:

The outstanding puzzle is the group of englynion (§ § 7-19) spoken by Urien’s unnamed cousin as he carries Urien’s head away, while his body is consumed by ravens (§ § 8-9).⁹⁰

Yna dywed am hyn yng nghyd-destun Brân,

In the case of the giant Brân there is a logistical reason for transporting the head alone, as well as a probable background in pagan mythology.⁹¹

Trown yn awr at rôl y pen yn *Historia Peredur Vab Efracw*:

Gwedy tewi yspeit vechan, ar hynny, llyma dwy vorwyn yn dyuot y mywn a discyl vawr y rygthunt, a phen gwr ar y discyl, a gwaet yn amyl yg kylch y pen.⁹²

Ceir y pwyslais yma eto ar y pen, yma wedi ei osod ar blât. Atgoffa hyn ni o ben Ioan Fedyddiwr yn y Beibl. Mae hyn hefyd yn fotiff mawr yn sagâu Iwerddon gyda’r penhela.⁹³

⁸⁷ Pronsias Mac Cana, *Celtic Mythology* (London, 1970), 76.

⁸⁸ Patrick Sims-Williams, ‘The Death of Urien’, *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 32 (1996), 37.

⁸⁹ Branwen 17: 458-60.

⁹⁰ Sims-Williams, ‘The Death of Urien’, 44.

⁹¹ Sims-Williams, ‘The Death of Urien’, 46.

⁹² Peredur 20: 13-6.

⁹³ Gwelir hyn gyda geiriau Cornall yn ‘The Talk of Macc Da Tho’s Pig,’ Jeffrey Gantz, (cyf.) *Early Irish Myths and Sagas* (Harmondsworth, 1981), 186.

Mae'n amlwg bod rhyw fath o ddefod wrth i Peredur roi'r pen i'r gwas. Sonnir am y traddodiad o roi pen yn anrheg i bobl fel rhan o ddiwylliant yr Oesoedd Canol:

A chyfarch gwell a wnaethant y Peredur, a dywedyt pan yw idaw a wnaethant y Peredur, a dywedyt pan yw idaw yd oed darogan llad yr ormes honno. A rodi y pen a wnaeth Peredur y'r maccwyeit, a chynnic a wnaethant wynteu idaw yr vn a dewissei o'e teir chwioed yn briawt, a hanher eu brenhinyaeth y gyt a hi.⁹⁴

Dyma bwyslais ar y pen eto, atgyfnertha ei fod yn rhan o'r corff sydd yn cael ei drysori a'i roi fel rhodd, a'i fod yn cael ei ystyried yn bwysig fel yr wyf wedi dangos yn barod. Gwelwn enghraifft o hyn yn digwydd yn *Buched Dewi* wrth i wraig Boya dorri pen y forwyn a'i gadw'n rhodd, 'Sef a oruc hitheu, tynnu kylllell a llad pen y uorwyn da, diweir, war, gymen, rodi y phen yn arffet y llysuam.'⁹⁵ Mae'n amlwg felly fod traddodiad y torri pen yn bwysig iawn.

Ceir cyfeiriad arall yn *Kulhwch ac Olwen* at dorri'r pen,

Dyuot ohonaw vch pen y Kawr malphei y cledyf a dottei yn y wein. Y ossot a oruc ymphen y Kawr, a llad y pen y ergyt y arnaw.⁹⁶

Mae'r disgrifiad yma'n un graffig iawn ac yn un ystrydebol o'r hyn a geir yn y chwedlau.

Dyma ddarlun graffig a phoenus arall o'r un chwedl:

Ac yna yd ymauelawd Goreu mab Custennin yndaw herwyd gwallt y pen, a'e lusgaw yn y ol y'r dom, a llad y pen a'e dodi ar bawl y gatlys.⁹⁷

Pwysleisir y pen yma eto a'r gwallt sydd yn atgyfnerthu pwysigrwydd y rhan yma o'r corff. Wrth i Gorau ddal Ysbaddaden Bencawr wrth ei wallt a'i lusgo fel hyn, mae hyn yn israddio Ysbaddaden Bencawr yn ogystal.

⁹⁴ Peredur 49: 9-15.

⁹⁵ D. S. Evans, (gol.) *Buched Dewi* (Caerdydd, 1965), 9.

⁹⁶ KO 30: 819-21.

⁹⁷ KO 42: 1238-41.

Ceir enghreifftiau erchyll o Efnisien yn lladd y milwyr Gwyddelig trwy eu lladd drwy wasgu eu pennau. Ceir tair enghraifft o hyn yn digwydd yn chwedl *Branwen Uerch Lyr*:

Sef a wnaeth ynteu, y deimlaw hyt ban gauas y ben, a guascu y ben, yny glyw y uyssed yn ymanodi yn y ureichell drwy yr ascwrn. Ac adaw hwnnw, a doddi y law ar un arall⁹⁸

Sef a wnâi ynteu yr un guare a fawb ohonunt, hyt nat edewis ef wr byw o'r holwyr o'r deu kannwr eithyr un.⁹⁹

Sef a wnaeth ynteu, y deimlaw ef yny gauas y ben, ac ual y guascassei benneu y rei ereill, guascu pen hwnnw. Sef y clywei arueu am ben hwnnw. Nyt ymedewis ef a hwnnw, yny ladawd.¹⁰⁰

Atgyfnertha'r enghreifftiau hyn bersonoliaeth seicotig Efnisien yn enwedig wrth i'r dyfyniad gael ei ailadrodd dair gwaith gydag amrywiadau. Mae manylder y weithred farbaraidd yma'n un dramatig tu hwnt. Mae'r ffaith hefyd fod yr awdur neu awduron y *Pedair Cainc* yn manylu ar rannau o'r corff yn gwneud y weithred yn fwy graffig. Dengys hyn gryfder Efnisien yn gwasgu pen y milwyr. Er bod Efnisien yn gymeriad eithaf cyfrwys, mae ei gryfder yn y fan hon yn rhywbeth annisgwyl mewn ffordd. Mae'r ffordd y mae'n lladd y milwyr yn gyntefig iawn wrth iddo wasgu'r ymennydd yn ogystal.

Ceir darlun gwrthgyferbyniol a sensitif am y pen yn stori *Breudwyt Ronabwy* lle y cawn ymdrech arbennig i amddiffyn y pen ac i wneud y rhan yma o'r corff yn gyfforddus.

A phan edrychwyt y dyle nyt oed arnei namyn byrwellt dysdlyt chweinllyt, a boneu gwrysc yn amyl trwydaw, a gwedy ry ussu o'r dinewyt y mheint gwellt a oed uch eu penneu ac is eu traet arnei.¹⁰¹

Mae'r ffaith fod Rhonabwy'n rhoi gwellt o dan eu pennau eto yn dangos ei ofal am y pen drwy'r chwedlau i gyd. Gwelwn felly fod yna bwysigrwydd mawr i'r rhan yma o'r corff.

⁹⁸ Branwen 13: 335-8.

⁹⁹ Branwen 13: 339-41.

¹⁰⁰ Branwen 13: 342-5.

¹⁰¹ BR 3: 11-5.

Symudwn ymlaen at ran arall o'r corff sydd yn cael peth sylw yn ail gainc y *Mabinogi*, sef yr ysgwydd:

A diskynnu ar e yscwyd, a garwhau y phluf, yny arganuuwyt y llythyr, ac adnabot meithryn yr ederyn yg kyuanned.¹⁰²

Dyma ddarlun eithaf addfwyn yn stori Branwen wrth i'r aderyn ddisgyn ar ysgwydd Brân, ac awgryma hyn fod Bendigeidfran yn berson addfwyn.

Darlun tyner eto a geir o chwedl *Owein* wrth i Owain roi ei law ar ysgwydd y forwyn.

A diflannu a oruc Owein oc eu plith, a dyuot at y vorwyn, a doddi y law ar y hysgwyd; a chychwyn a oruc hitheu racdi, ac Owein y gyt a hi, yny deuthant y drws lloft uawr delediw. Ac agori y lloft a oruc y vorwyn, a dyuot y mywn, a chaeu y lloft a orugant.¹⁰³

Cawn ddarlun meddal iawn ac enghraifft wych o gyfathrebu aneiriol wrth iddo roi gwybod i'r forwyn ei fod yn gadael heb yngan yr un gair wrthi.

Ceir enghraifft dra gwahanol yn *Historia Peredur Vab Efwrawc* sydd yn awgrymu llawer o boen:

Ac yna y gyrchu o'r marchawc ef yn llityawc, ac ag arllust y wayw rwg yscwyd a mynwgyl drychaf law arnaw dynawt mawr dolurus.¹⁰⁴

Drwy fanylder y disgrifiad yma gallwn weld fod yna boen aruthrol rhwng yr ysgwydd a'r gwddf.

Cawn un enghraifft o sôn am y cefn yn y bedwaredd gainc. Ceir yr hanes am Llew yn torri ei gefn,

Ac yna y kymmerth Gronwy y llech ac y dodes [111] y ryngtaw a'r ergyt. Ac yna y byryawd Llew ef a'r par, ac y quant y llech drwyddi, ac ynteu drwydaw, yny dyr y geuynn. Ac yna y llas Gronwy

¹⁰² Branwen 9: 233-4.

¹⁰³ Owein 13: 313-7.

¹⁰⁴ Peredur 14: 18-20.

Bebyr, ac yno y mae y llech ar lan Auon Gynuael yn Ardudwy, a'r twll drwyddi. Ac o achaws hynny ettwa y gelwir Llech Gronwy.¹⁰⁵

Mae manylder y naratif yn adlewyrchu'r boen sydd yn ei wneud yn fwy erchyll.

Gwelir sawl cyfeiriad at ddwylo yn ogystal yn chwedlau'r *Mabinogion*. Codir yr enghraifft gyntaf o destun *Math Uab Mathonwy*:

Ac ef a gymerth y mab y rwng y dwylaw ac a gyrchwys y dref ac ef, lle y gwydat bot gwreic a bronneu genti.¹⁰⁶

Gwelwn yma fod Gwydion yn cymryd y mab yn ei ddwylo i fynd ag ef i gael ei fwydo gan wraig gan fod ei fam, Arianrhod, wedi ymwrthod yn llwyr ag ef.

Dyma enghraifft o destun *Owein* gydag Owain yn rhoi ei ddwylo o amgylch y brenin

Arthur i'w groesawu:

A mynnet dwylaw mynwgyl y'r amherawdyr Arthur a oruc Owein, ac ymgaru a orugant. A dyfot a oruc y lu attunt yna gan ymsang a brys y geissyaw gwelet Owein y vynet dwylaw mynwgyl idaw; ac ef a uu agos bot calaned yn yr ymsag hwnnw.¹⁰⁷

Gwelwn agosrwydd perthynas Arthur ac Owain yn cael ei adlewyrchu trwy iaith y corff.

Mae yna enghraifft yn *Historia Peredur Vab Efracw*,

Peredur a gyuodes y vynydd ac a gymerth y ffon a'r taryan a drychafal llaw ar y gwas melyn a oruc, hynny uu yr ael ar y llygat a'r gwaet yn redec yn frydyeu.¹⁰⁸

Gwelwn fod Peredur yn yr achos yma yn codi ei arfau i ymladd gyda'r gwas penfelyn fel ystum o frwydro.

¹⁰⁵ Math 17: 585-91.

¹⁰⁶ Math 8: 258-9.

¹⁰⁷ Owein 20: 542-6.

¹⁰⁸ Peredur 18: 5-8.

Mewn enghraifft wahanol o'r un chwedl gwelwn yr agosatrwydd rhwng Peredur a Gwalchmai wrth iddynt fynd law yn llaw¹⁰⁹ i weld y brenin Arthur – mae iaith y corff felly yn adlewyrchu agosatrwydd eu perthynas yn ogystal:

A chymryt a wnaeth Peredur vn ryw wisc a oed y Walchmei. A mynnet a wnaethant la[w] yn llaw yn yd oed Arthur a chyfarch gwell idaw.¹¹⁰

Yna cyrhaeddwn waelod y corff sef y traed. Yn ogystal â'r pen mae yna bwysigrwydd mawr i'r traed yn yr Oesoedd Canol fel petaent yn pwysleisio dau ben y corff dynol a chydabod fod y traed yn gwbl hanfodol yn galluogi pobl i sefyll a mynd o gwmpas, ymladd, ac ati. Gwelwn yn yr enghraifft gyntaf fod Brân wedi anafu ei droed sydd yn arwain at dorri ei ben a hefyd ei farwolaeth yn chwedl *Branwen Uerch Lyr*:

Ny bu oruot o hynny eithyr diang seithwyr, a brathu Bendigeiduran yn y troet a guenwynwaew.¹¹¹

Dyma ddarlun eithaf trist yn y fan hon gan fod cyn lleied o bobl wedi goroesi. Mae'r ffaith fod Brân wedi cael anaf yn dangos ei fod yn ddynol a hefyd nad yw'n anfarwol fel cymeriad erbyn hyn.

Yn chwedl *Math Uab Mathonwy* ceir enghraifft hynod ddiddorol ac unigryw wrth inni ddysgu am gynneddf ddiddorol Math:

Ac yn yr oes honno, Math uab Mathonwy ny bydei uyw, namyn tra uei y deudroet y[m] mlyc croth morwyn, onyt kynwryf ryuel a'y llesteirei.¹¹²

Mae gan Math gynneddf hynod iawn, sef bod rhaid iddo gael ei draed ym mhlyg croth morwyn, sef ar ei chôl, os nad yw'n ymladd. Cyfeiria Miranda Green at hyn: 'It would

¹⁰⁹ Trafoda Burrow yr ystum o fynd law yn llaw gan nodi fod hyn yn symboleiddio bod y ddau berson o statws cyfartal gw. Burrow, *Gestures and Looks*, 28.

¹¹⁰ Peredur 35: 6-9.

¹¹¹ Branwen 14-15: 387-8.

¹¹² Math 1: 4-6.

appear that the conception of the virgin-footholder in the Tale of Math may be associated in some way with the historical court-position as outlined in the law-texts. But there are important differences between the myth and the reality of medieval court-tradition.’¹¹³

Ac fe atgyfnerthir hyn gan dystiolaeth o’r cyfreithiau eu hunain:

Ef [IIV] a dele traet e brenhyn ên e arfet o’r pandechreuhio eysted ên e kyuedach ene el e kyscu, ac a dele cossy e brenhyn, ac eg kyhyt a henne o espeyt gvylllyet ef e brenhyn rac guall. E navd yv o’r pan dotto e brenhyn e traet ên e arfet ene el y’v estauell, dven e den a wnel e kam.¹¹⁴

Ceir sawl cyfeiriad at galonnau yn y *Mabinogion* gyda’r cyfeiriadau mwyaf at galon (ond yn benodol torri calon) yn codi o’r ail gainc. Dyma’r enghraifft gyntaf am Efnisien:

Emystynnu idaw ynteu yn y peir, yny dyrr y peir yn pedwar dryll, ac yny dyrr y galon ynteu.¹¹⁵

Cawn enghraifft am ei chwaer Branwen:

A dodu ucheneit uawr, a thorri y chalon ar hynny.¹¹⁶

Yr enghraifft olaf yn y gainc hon ond sydd yn rhannu’r un thema o dorri calon yw’r un a nodir am gymeriad Caradog,

A hwnnw uu y trydyd dyn a torres y gallon o aniuget.¹¹⁷

Nodir yn yr ail gainc fod y tair enghraifft yma’n perthyn i driawd, ond wrth edrych ar *Trioeedd Ynys Prydein* nid dyma yw’r triawd gwreiddiol.¹¹⁸

Cwyd enghraifft o *Cyfranc Lludd a Llefelys* yn ymwneud â Ffaraon Dande:

...a chyn no hynny Dinas Ffaraon Dande. Trydyd cynweissat uu hwnnw a torres y gallon [o] anniuget.¹¹⁹

Atgyfnertha yn y testun yma mai ef yw’r un sydd yn rhan o’r triawd gwreiddiol.

¹¹³ Green, *Celtic Goddesses*, 62.

¹¹⁴ Aled Rhys Wiliam, *Llyfr Iorwerth* (Cardiff, 1960), § 32: 22-7.

¹¹⁵ Branwen 14: 384-5.

¹¹⁶ Branwen 15: 408.

¹¹⁷ Branwen 16: 422-3.

¹¹⁸ Nodir yn nhriawd 95 mai Branwen ferch Llyr, Caradog ab Bran a Ffaraon Dande yw’r tri sydd yn marw o dorr calon, ac nid Efnisien fab Llyr, gw. Rachel Bromwich, (gol.) *Trioeedd Ynys Prydein: the triads of the Island of Britain* (Caerdydd, Trydydd Argraffiad, 2006), 242.

¹¹⁹ LlaLl 5: 135-7.

Ceir enghraifft arall o sôn am y galon yn codi o chwedl *Kulhwch ac Olwen*. Mae'r enghraifft yma'n weithred lawer mwy treisgar nag yr ydym wedi gweld yn barod yn ymwneud â'r galon gan mai'r weithred yw bwyta'r galon:

a Chyledyr Wyllt y uab, a llad Nwython a oruc a diot y gallon, a chymell ar Kyledyr ysu calon y dat, ac am hynny yd aeth Kyledyr yg gwyllt.¹²⁰

Mae'r enghraifft yma'n rhoi'r argraff o erchylltra bwyta calon ddynol. Mewn rhai diwylliannau canibalaidd mae bwyta calonnau'r hynafiaid yn beth i'w ganmol. Mae'n amlwg nad oeddent yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y galon fel un o organau pwysicaf y corff yn yr Oesoedd Canol ac mai datblygiad o ddarganfyddiad diweddarach oedd hyn.

Cawn ambell sôn am osgo a symudiad cymeriadau sydd yn gallu dweud llawer wrthym am ieithwedd eu cyrff. Ceir darlun o Peredur yn pwyntio¹²¹ at rannau gwahanol o'r harnais ar y ceffyl yn *Historia Peredur vab Efracw*. Gwna hyn drwy bwyntio at y rhannau gwahanol:

“Kyfrwy,” heb yr Owein. Gofyn a wnaeth Peredur beth oed pob peth, a pheth a uynnit ac a elit ac wynt. Owein a venegis idaw ynteu yn llwyr beth oed pob peth ac a ellit ohonaw.¹²²

Adlewyrcha hyn oedran a chwilfrydedd Peredur sydd yn rhan o natur plentyn. Yma gwelwn felly gysonder rhwng natur chwilfrydig plentyn a'r naratif.

Mewn enghraifft dra gwahanol o'r un stori, gwelwn ei fam yn llewygu wrth glywed am y newydd ei fod yn gwybod beth yw marchog.

Yna y dygwydyws hi yn y marwlewic.¹²³

Adlewyrcha ymateb corfforol y fam ei sioc hi wrth glywed yr hyn a ddywed Peredur.

¹²⁰ KO 35: 994-6.

¹²¹ Er na ddywedir fod Peredur yn pwyntio, rhaid cymryd taw dyma beth mae'n ei wneud; a dyna ddehongliad Sioned Davies hithau yn ei chyfieithiad diweddar, *The Mabinogion* (Oxford, 2008), 66.

¹²² Peredur 8-9: 30-3.

¹²³ Peredur 9: 11.

Gwelir enghraifft wahanol yn codi o *Ystoria Gereint Uab Erbin* wrth i'r awdur gyfeirio at osgo Ilipa Geraint:

Ny mynnawd Gereint namyn kerdet racdaw, ac yskynnu ar y uarch yn greulyt anesmwyth. A'r uorwyn a gynhellis y ragor, ac vynt a gerdassant parth a choet a welynt y vrthunt. A'r tes oed uawr, a'r arueu drwy y chwys a'r gwaet yn glynu vrth y gnawt.¹²⁴

Gwelwn fod Geraint mewn stad gorfforol wael iawn wrth iddo ymladd gyda'r marchog Gwiffred Petit. Gwelwn ei fod wedi'i ddyrnu a'i fod yn gleisiau i gyd a bod hyd yn oed yr arfwisg yn glynu at ei groen. Cyflëir hyn gan ei osgo anesmwyth.

Ceir nifer o gyfeiriadau at faint pobl yn y chwedlau yma — rhai bach a mawr, tal a byr, tew a thenau, a'r nodweddion hynny'n awgrymu maint a nerth cymeriad. Cawn argraff eglur o gryfder Cai o destun *Kulhwch ac Olwen*, er enghraifft:

Ymchoelut ohonunt wy odynd, a dyuot hyt [837] lle yd oed Arthur. Dywedut ohonunt y lle yd oed Mabon uab Modron yg karchar. Gwysyaw a oruc Arthur milwyr yr Ynys honn, a mynnet hyt yg Kaer Loyw y lle yd oed Mabon yg karchar. Mynet a oruc Kei a Bedwyr ar dwy yscwyd y pysc. Tra yttoed vilwyr Arthur yn ymlad a'r gaer, rwygaw o Gei y uagwyr a chymryt y carcharawr ar y geuyn, ac ymlad a'r gwyr ual kynt. Atref y doeth Arthur a Mabon gantaw yn ryd.¹²⁵

Mae'r ffaith ei fod yn rhwygo drwy'r wal ac yn cario rhywun ar ei gefn wrth ymladd mor llwyddiannus yn awgrymu ei fod yn enfawr ei faint a bron yn annynol fel petai'n rhyw fath o beiriant.

Ceir awgrym o gryfder Geraint yntau yn y disgrifiad o glwyfau'r dynion sydd wedi bod yn ymladd yn ei erbyn:

Ac y rwg calettet y dayar lle y byrywyt y gwyr, a druted y gossodeu a gawsant nyt aeth yr un onadunt heb gwypm agheuawlwcherw clwyfedicdost briwedicyfryf y vrth Ereint.¹²⁶

¹²⁴ Gereint 41: 1126-30.

¹²⁵ KO 33: 920-8.

¹²⁶ Gereint 38: 1051-4.

Ceir sawl cyfeiriad at faint enfawr y brenin Bendigeidfran yn yr ail gainc. Er nad yw'r enghraifft yma'n cyfeirio'n union at y corff, mae arddull y chwedlau'n awgrymog iawn ac y mae ei faint anferth yn cael ei ddangos yn anuniongyrchol ond yn drawiadol:

Nyt ymywn ty yd oydynt, namyn ymywn palleu. Ny angassei Uendigeituran eiryoet ymywn ty.¹²⁷

Mewn rhan arall o'r stori, gwelir darlun gweithredol o Bendigeidfran yn gorwedd ar draws yr afon fel brenin; nid yw'n rhy bwysig i ymddarostwng a gorwedd fel pont i'w ddynion sydd yn ategu ei faint enfawr.

Ac yna guedy gorwed ohonaw ef ar traws yr auon, y byrwyd clwydeu arnaw ef, ac yd aeth y luoed ef ar y draws ef drwod. Ar hynny, gyt ac y kyuodes ef, llyma gennadeu Matholwch yn dyuot attaw ef, ac yn kyuarch guell idaw.¹²⁸

Dengys hyn ymddiriedaeth ei osgordd ynddo: nid oes neb yn cwestiynu ei weithredoedd ac y mae cyferbyniad mawr rhwng cymeriad Brân fel arweinydd ag un Matholwch fel arweinydd, lle mae ei ddynion ef yn dweud wrth Matholwch beth i'w wneud. Dengys hyn bendantrwydd Brân a'r ffaith ei fod yn gallu codi i wynebu'r sialens yn syth.

Cawn gyfeiriad arall at faint enfawr Brân yn yr un stori:

Ac yna y kerdwys ef ac a oed o gerd arwest ar y geuyn e hun, a chyrchu tir Iwerdon.¹²⁹

Cyfeirir ato drwy'r manylyn ei fod yn gallu cario'r cerddorion ar ei gefn. Gwna Brân i hyn ymddangos yn eithaf rhwydd gan nad yw'n meddwl ddwywaith am y weithred. Dengys hyn ei arwydd cryf i achub ei chwaer a'r math o frenin ydyw - un sydd yn barod i weithredu ei hun ac yn fodlon cario'r offer ei hunan. Cyfeirir eto at faint Brân:

“Gwelem, Arglwyd,” heb wy, “mynyd mawr (51) gyr llaw y coet, a hwnnw ar gerdet; ac eskeir aruchel ar y mynyd, a llyn o pop parth y'r eskeir; a'r coet, a'r mynyd, a phob peth oll o hynny ar gerdet.”¹³⁰

¹²⁷ Branwen 3: 56-7.

¹²⁸ Branwen 11: 296-9.

¹²⁹ Branwen 10: 256-7.

¹³⁰ Branwen 10: 265-8.

Cawn ddisgrifiad o'i olwg ddychrynlyd a hynny'n adlewyrchu ei ddieter oherwydd triniaeth ei chwaer yn Iwerddon. Defnyddir byd natur i'w ddisgrifio eto, sonia Sims-Williams am y traddodiad hwn yn chwedlau'r cyfnod: 'Landscape riddles often use a hill or a mountain to represent the head...and their chariots as islands in lakes and hill-tops rising above the valleys of the mist.'¹³¹ Gwelwn yr un delweddau'n cael eu defnyddio yn yr enghraifft uchod am Brân.

Ceir llawer o sôn am dwf a phraffter corfforol meibion o statws yn yr Oesoedd Canol, a hynny'n amlwg yn nodwedd hynod o bwysig fel y dengys y disgrifiad o Pryderi yn y gainc gyntaf:

A chyn y ulwyd yd oed yn kerdet yn gryf, a breiscach oed no mab teirblwydd a uei uawr y dwf a'e ueint. A'r eil ulwydyn y magwyt y mab, a chyn ureisket oed a mab chweblwyd. A chyn pen y pedwired ulwydyn yd oed yn ymoprau a gueisson y meirch, am y adu o'e dwyn y'r dwuyr.¹³²

Mae ei gynneddf yn ei osod ar wahân yn syth. Ond eto y mae'r disgrifiad yn un ystrydebol i ddisgrifio mab uchelwr.

Cawn ddisgrifiad yn y bedwaredd gainc o faint plentyn Arianrhod:

Yna y camawd hitheu dros yr hutlath, ac ar y cam hwnnw, adaw mab brasuelyn mawr a oruc .¹³³

Yma disgrifir y ddefod o brofi gwryfdod menywod a oedd yn bwnc o bwys yn yr Oesoedd Canol. Gwelwn yma brawf eithaf creulon ar Arianrhod, sef camu dros yr hudlath, a dyma hi'n gollwng dau faban o flaen pawb. Cyfeirir at wallt a maint y mab sydd yn atgyfnerthu pwysigrwydd y ddau beth hyn yn yr Oesoedd Canol.

¹³¹ Patrick Sims-Williams, 'Riddling Treatment of the "Watchmen Device" in *Branwen and Togail Bruidne Da Derga*', *Studia Celtica* 12/13 (1977-78), 105.

¹³² Pwyll 20: 549-53.

¹³³ Math 7: 239-41.

Cawn fath o adroddiad cynnydd am Llew yn y bedwaredd gainc trwy ei blentyndod:

Y mab a uagwyt y ulwydyn honno. Ac yn oet y ulwydyn, hof oed gantunt y ureisket bei dwy ulwyd. A'r eil ulwydyn mab mawr oed, ac yn gallu e hun kyrchu y llys. Ynteu e hun Wydyon, wedy y dyuot y'r llys, a synnywys arnaw. A'r mab a ymgeneuinawd ac ef, ac a'y carawd yn uwy noc un dyn. Yna y magwyt y mab yn y llys nyny uu pedeir blwydd. A hof oed y uab wyth [95] mlwydd uot yn gyn ureisket ac ef.¹³⁴

Gwelwn yma nodweddiad mab uchelwr eto - fel bachgen sydd yn gryfach na neb arall ac yn gydnaws â'i statws. Parhau i gynyddu a wna:

Ac yna meithryn Llew Llaw Gyffes nyny allwys marchogaeth pob [98] march, ac nyny oed gwbyl o bryt, a thwf, a meint.¹³⁵

Yna ceir disgrifiad sydd yn wrthgyferbyniad llwyr, ac sydd yn adlewyrchu'r newid i'w gymeriad nes ymlaen yn y bedwaredd gainc:

Ny welsei neb ar wr dremynt druanach hagen noc a oed arnaw ef. Nit oed dim onyt croen ac ascwrn.¹³⁶

Cawn wir estyniad o'r dirywiad corfforol o'i olwg ar ôl godineb ei wraig a hefyd effaith Gronw a Blodeuwedd wrth geisio ei ladd.

Mae yna nifer o ddisgrifiadau gwahanol o olwg pobl yma yn ogystal, rhai ohonynt yn manylu ar olwg ac ymddygiad gweision a morynion, disgrifiadau arwrol o uchelwyr, a sôn am brydferthwch merched yn ogystal â hagrwech menywod hyll. Yn yr enghraifft yma o stori *Branwen Uerch Lyr* ceir y pwyslais ar y disgrifiad o'r dyn i ddechrau ac ar ei faint a'i liw gwallt, sydd yn gwbl nodweddiadol o'r chwedlau:

A mi a welwn gwr melyngoch mawr, yn dyuot o'r llyn, a pheir ar y geuyn. A gwr heuyt athrugar mawr, a drygweith anorles arnaw oed; a gwreic yn y ol; ac ot (46) oed uawr ef, mwy dwyweith oed y wreic noc ef.¹³⁷

Sonnir yma am ei wraig, ac am y ffaith ei bod 'dwyweith' yn fwy nag ef. Mae rhywbeth rhyfeddol yn y disgrifiad ac yn awgrymu fod yma 'ryw ystyr hud' ac nad pobl arferol

¹³⁴ Math 8: 260-7.

¹³⁵ Math 10: 326-8.

¹³⁶ Math 16: 537-9.

¹³⁷ Branwen 6: 158-61.

sydd yma. Wrth edrych ar y disgrifiad yma ohonynt gellir casglu eu bod yn ymdebygu i gewri.

Ceir disgrifiad manwl iawn o was yn *Breudwyt Ronabwy* a'r ffaith fod ei groen yn wyn sydd yn awgrymu o bosib ei fod yn ifanc iawn – gwas ydyw wedi'r cyfan:

A gwas gwineu mawr yn seuyll rac eu bronn a'e gledeu trwy y wein yn y law, a pheis a chapan o pali purdu ymdanaw, ac yn gyn wynnet y wyneb ac ascwrn yr eliffant, ac yn gyn duet y aeleu a'r muchud. Ac ar a welei dyn o'e ardwrn y rwng y venic a'e lewys, gwynnach oed no'r alaw, a breisgach oed no mein eskeir milwr.¹³⁸

Cyfeirir at ei aelïau tywyll a oedd fel arfer yn haeddu sylw yn enwedig wrth ddisgrifio merched ac at faint ei arddyrnau sydd yn awgrymu bod y dyn yma'n anferth. Chwaraeir ar y ddeuoliaeth yma rhwng y lliwiau du a gwyn sydd yn awgrymu eto arallfydrwydd neu hyd yn oed ddrychiolaeth.

Cawn ddisgrifiad hefyd yn *Breudwyt Ronabwy* o was Arthur:

Ac ar hynny y clywynt galw ar Eiryn Wych Amheibyn, gwas Arthur, gwr garwgoch anhegar, a thrawswch goch idaw a blew seuedlawc arnei. Nachaf ynteu yn dyuot ar uarch coch mawr gwedy rannu y vwng o boptu y vynwgyl, a swmer mawr telediaw gantaw.¹³⁹

Ceir disgrifiad sydd yn canolbwyntio ar y blew garw ac anniben sydd ar wyneb y gŵr. Sonnir fod ganddo wallt coch a mwstás, a dywedir bod blew'r mwstás yn arw gan fod 'blew seuedlawc arnei' sydd yn awgrymu fod rhywbeth eithaf garw amdano. Sonnir yma fod gan Eiryn Wych Amheibyn farch coch sydd yn dangos eu bod nhw'n cydweddu!

Dyma ddisgrifiad arall o was yn yr un freuddwyd:

A phan yttoedynt uelly yn digrifaf gantunt eu gware uch yr wyddbwyll, nachaf y gwelynt o pebyll gwynn pengoch a delw sarf purdu ar pen y pebyll, a llygeit rudgoch gwenwynic yn pen y sarf, a'e

¹³⁸ BR 6: 13-20.

¹³⁹ BR 11: 7-13.

dauawt yn fflamgoch, yny vyd mackwy ieuanc pengrych melyn llygatlas yn glasu baryf yn dyuot, a pheis a swrcot o pali melyn ymdanaw, a dwy hosan o vrethyn gwyrddvelyn teneu am y traet. Ac [ar] uchaf yr hossaneu dwy wintas o gordwal brith a chaeadeu o eur am vynygleu y draet yn eu kaeu. A chledyf eurdwrn trwm trichanawl, a gwein o gordwal du idaw, a swch o rudeur coeth ar pen y wein, yn dyuot tu a'r lle yd oed yr amherawdyr ac Owein yn gware gwyddbwyll[1].¹⁴⁰

Canolbwyntir ar liw gwallt melyn pengrych y gŵr yn ogystal sydd eto'n rhan o'r ddelfryd berffaith. Ceir sawl cyfeiriad at steil gwallt cymeriadau'n ogystal gyda'r 'pengrych' yma'n adleisio gwallt y forwyn Luned yn nhestun *Owein*. Hefyd sonnir am y lliw melyn yma eto, fel y dengys Winward, '...*melyn* hair seems to signify both youth and neutrality.'¹⁴¹ Cyfeirir at ei farf yn ogystal sydd yn datgelu ei oedran a'i fod ar drothwy bod yn ŵr. Ceir pwyslais mawr ar fanylion ei ddillad yn ogystal.¹⁴²

Cawn ddisgrifiad o was arall eto yn *Breudwyt Ronabwy*:

Teruynu y gware hwnnw a wnaethant a dechreu arall. A phan yttoedynt am hanner y gware, llyma [565] was ieuanc coch gobengrych gwineu llygadawc hydwf, gwedy eillaw y varyf yn dyuot o pebyll puruelyn. A delw llew purgoch ar pen y pebyll. A pheis o pali melyn ymdanaw yn gyfuch a mein y esceir, gwedy y gwniaw ac adaued o sidan coch. A dwy hosan am y draet o vwckran gwyn teneu. Ac ar uchaf yr hossaneu dwy wintas o gordwal du am y draet, a gwaegeu eureit arnadunt. A chledyf mawr trwm trichanawl yn y law, a gwein o hydgen coch idaw, a swch eureit ar y wein, yn dyuot tu a'r lle yd oed Arthur ac Owein yn gware gwyddbwyll.¹⁴³

Sonnir am ei wallt cyrliog a'i lygaid llym a'r ffaith ei fod yn weddol o faint (*hydwf*).
Sonnir yn y disgrifiad ei fod wedi eillio ei farf sydd yn adlewyrchu ei oedran fel dyn ifanc a hefyd ei gymeriad - gan mai pobl arw oedd â barfau heb eu tocio'n daclus. Mae'r farf wedi cael llawer o sylw yng ngweithiau beirdd yr Oesoedd Canol fel y nodwyd yn barod. Dywed Dylan Foster Evans am farfau wedi'u heillio o bersbectif y beirdd, 'Gwelir bod y dystiolaeth hanesyddol yn rhoi sail i'r dyb mai eu hanabledd i gadw at y ddelwedd wyneb glân delfrydol a gorddai'r beirdd hyn.'¹⁴⁴ Manylir ar ddillad y gwas unwaith eto.

¹⁴⁰ BR 11-12: 30-1.

¹⁴¹ Fiona Winward, *Colour Terms*, 183.

¹⁴² Am astudiaeth helaeth ar wisgoedd gweler Jones, *Gwisgoedd ac Ategolion*.

¹⁴³ BR 13: 1-14.

¹⁴⁴ Foster Evans, 'Y Bardd a'r Farf', 12.

Sonnir am osgo'r marchog yn yr enghraifft yma o *Ystorya Gereint Uab Erbin*: mae yn amlwg wedi bod yn ymladd ac wedi colli yn erbyn marchog arall:

A thrannoith y peris Gwenhwyuar bot disgwyleid ar y gaer am dyuodyad Gereint. A gwedy hanner dyd y gvelynt godrumyd o dyn bychan ar uarch. Ac yny ôl ynteu gvreic neu uorwyn, debygynt hwy, ar uarch, ac yny hol hitheu marchawc mawr gochrwm pennissel goathrist ac arueu brywedic amdawt ymdanaw. A chyn y dyuot yg kyuyll y porth y doeth un o'r discwyleid yn yd oed Gwenhwyuar, a dywedut iti y ryw dynyon awelynt ar ryw ansawd oed arnunt.¹⁴⁵

Ychwanegir y manylion fod ei ben yn isel a bod ei gorff wedi'i grymu. Ceir darlun truenus o'r ddau farchog sydd yn amlwg wedi colli'r frwydr yn y stori ac adlewyrchir hyn yn osgo'r ddau.

Yn gyferbyniol i'r disgrifiad uchod fe gawn y disgrifiad enwog a godidog o Culhwch ar gefn ei geffyl yn mynd i lys Arthur:

Mynet a oruc y mab ar orwyd penlluchlwyd pedwar gayaf gauylgygwng carngragen, a frwyn eur kymbiawc yn y pen. Ac ystrodur eur anllawd y danaw, a [455] deu par aryanhyeit lliueit yn y law. Gleif (ennillec) yn y law, kyuelin dogyn gwr yndi o drum hyt awch. Y gwaet y ar y gwynt a dygyrchei; bydei kynt nho'r gwllithin kyntaf o'r konyn hyt y llawr, pan uei uwyaf y gwllith mis Meheu. Cledyf eurdwrn ar y glun a racllauyn eur itaw, ac ays eurerwydyr arnaw, a lliw lluchet nef yndi, a llong elifeint yndi. A deu uilgi uronwynyon urychyon racdaw, a gordtorch rudeur am uynwyl pob un o cnwech ysewyd hyt yskyuarn. Yr hwn a uei o'r parth asseu a uydei o'r parth deheu, a'r hwn a uei o'r parth deheu a uydei o'r parth asseu, mal dwy morwennawl yn darware yn y gylch. Pedeir tywarchen a ladei pedwar carn y gorwyd, mal pedeir gwennawl yn yr awyr uch y ben, gweitheu uchtaw, gweitheu istaw. Llenn borfor pedeir ael ymdanaw, ac aual rudeur vrth pob ael iti. Can mu oed werth pob aual. Gwerth trychan mu o eur gwerthuawr a oed yn y archenat a'e warthafleu (sangharwy), o ben y glun hyt ym blayn y uys. Ni chwyuei ulaen blewyn arnaw rac yscawnhet tuth y gorwyd y danaw yn kyrchu porth llys Arthur.¹⁴⁶

Ceir y pwyslais ar y pethau materol sydd gydag ef yn hytrach nag ar iaith ei gorff ond pwysleisir ei osgo godidog. Dyma'r disgrifiad arwrol perffaith - disgrifiad set ac ystrydebol o uchelwr. Ceir enghreifftiau o'r disgrifiadau stoc aruchel hyn yn y chwedlau Gwyddelig, er enghraifft y darn hwn o stori *Tochmarc Étain/The Wooing of Étaín*:

One day, when all the girls were bathing at the mouth of the river, they saw a rider coming towards them from the plain. His horse was broad and brown, prancing, with curly mane and curly tail. He wore a green cloak of the Síde, and a tunic with red embroidery, and the cloak was fastened with a gold brooch that reached to either shoulder. A silver with a rim of gold was slung

¹⁴⁵ Gereint 14-15: 421-9.

¹⁴⁶ KO 3-4: 60-81.

over his shoulder, and it had a silver strap with a gold buckle. In his hand he carried a five-pronged spear with a band of gold running from butt to socket. Fair yellow hair covered his forehead, but a band of gold restrained it so that it did not cover his face. The rider stopped a while on the river bank to look at Étaín, and all the girls fell in love with him.¹⁴⁷

Ac yna ceir enghraifft arall o stori diweddarach *Mesca Ulaid/The Intoxication of the Ulaid*:

Three men stood before the band; the middle man was a tall, regal, broad-eyed warrior, his face like the moon in its fifteenth day. His forked beard was fair and narrow; his hair was short and reddish yellow and bound at the back. A fringed, scarlet cloak round him; a brooch inlaid with gold fastening the mantle over his white shoulders; a tunic of kingly satin next to his white skin. A dark crimson shield with bosses of yellow gold he had, and a sword with an inlaid gold hilt. A spear with a glittering blade in his white, illustrious right hand, and a smaller forked spear with it.¹⁴⁸

Wrth inni gael disgrifiadau manwl o'i ddillad ceir awgrym bod gan Culhwch osgo da ar gefn y march a'i fod yn osgeiddig tu hwnt. Hefyd yn y disgrifiad o symudiad y march, 'Ni chwyuei ulaen blewyn arnaw rac yscawnhet tuth y gorwyd y danaw yn kyrchu porth llys Athur', sydd yn awgrymu symudiad llyfn a chain iawn. Ceir disgrifiad gwych cyffelyb, y tro hwn o Cai yn chwedl *Kulhwch ac Olwen*:

Angerd oed ar Gei: naw nos a naw diwarnaw[t] hyt y anadyl y dan dwuyr; naw [471] nos a naw dieu hyd uydei hep gyscu. Cleuydawd Kei ny allei uedyc y warret. Budugawl oed Kei. Kyhyt a'r prenn uchaf yn y coet uydei pan uei da ganthaw. Kynnedyf arall oed arnaw: pan uei uwyaf y glaw, dyrnued uch y law ac arall is y law yt uyd[ei] yn sych yr hynn a uei yn y law, rac mheint y angerd; a ffan uei uwyaf y anwyd ar y gydymdeithon, dyskymon vydei hynny utunt y gynneu tan.¹⁴⁹

Manylir ar ei nerth a'i gryfder a'i holl gyneddfau yn ogystal.

Ceir disgrifiadau gwrthgyferbyniol iawn o ddynion hyll. Yn y disgrifiad hwn o *Owein*, er enghraifft, mae gan y gŵr yma un llygad ac mae'n enfawr ei faint, sydd eto'n awgrymu ei fod yn gawr:

A gwr du mawr a wely ym pen yr orssed ny bo llei no deuwr o wyr y byt hwn; ac vn troet yssyd idaw, ac vn llygat yg kneuillyn y tal; a ffon yssyd idaw o hayarn, a diheu yw ytti nat oes deuwr yn y byt ny chaffo eu llwyth yn y ffon. Ac nyt gwr anhygar efo: gwr hagyr yw ynteu.¹⁵⁰

¹⁴⁷ 'The Wooing of Étaín,' yn Jeffrey Gantz, (cyf.) *Early Irish Myths and Sagas*, 47-48.

¹⁴⁸ 'The Intoxication of the Ulaid,' yn Gantz, (cyf.) *Early Irish Myths and Sagas*, 204.

¹⁴⁹ KO 14: 384-92.

¹⁵⁰ Owein 5: 108-12.

Gweithreda'r dyn yma fel math o dywysydd i arwain Owain at farchog i ymladd ag ef. Mae cael cymeriad i weithredu fel math o arwyddbost yn fotiff go gyffredin. Ceir enghreifftiau pellach o hyn yn digwydd drwy'r *Mabinogion*, er enghraifft y bugail yn stori *Kulhwch ac Olwen*. Â Menw fab Teirgwaedd i siarad â'r bugail, sef Custennin fab Mynwyedig, i ofyn iddo am Olwen ferch Ysbaddaden Bencawr.¹⁵¹ Ymddengys y motiff hwn mewn chwedlau Gwyddelig fel yn chwedl 'Merch Brenin Dyffryn yr Unigedd' pan gaiff yr arwr help gan y cawr i ddarganfod y ferch. Gweithreda'r cawr fel arwyddbost.¹⁵² Sonia Winward am y math o gymeriadau hyn sydd fel arfer â gwallt du ac yn gweithredu fel arwyddbost: 'many of the men are of unusual size.'¹⁵³

Cawn yr un fath o ddisgrifiad yn *Historia Peredur Vab Efracw*:

Ac yna y gwelei ef y gweisson yn kyfodi ac yn arllwyssaw y clawr o'r werin. Ac ef a glywei trwrw mawr, ac yn ol y trwrw ef a welei wr du mawr vnlllygeityawc yn dyfot y mywn.¹⁵⁴

Ceir yr wrthddelwedd yma o'r marchog, a phwysleisir ei faint a'r ffaith fod ganddo un llygad yn ogystal. Sylwer taw gwallt du sydd gan y gŵr yma fel yn y disgrifiad diwethaf. Chwaraeir ar y lliw du eto sydd yn gallu arwyddo drygioni, neu rywbeth bygythiol.

Gwelir sawl enghraifft o bobl yn cyfnewid eu gwedd â chymeriadau eraill er mwyn bod yn guddiedig. Dyma enghraifft yn y bedwaredd gainc o Gwydion yn gwneud hyn ar sawl adeg yn ystod y cyrch i gael enw ac arfau i'r baban wrth geisio dadwneud y dynged a roddwyd arno gan ei fam:

Ac yna yd ellyngwys ef y uab yn y bryt e hun, ac y kymeth y furyf e hun .¹⁵⁵

¹⁵¹ KO 16: 433-8.

¹⁵² J.E. Caerwyn-Williams, *Y Storiwr Gwyddeleg a'i Chwedlau* (Caerdydd, 1972), 230-231.

¹⁵³ Winward, *Colour Terms*, 112.

¹⁵⁴ Peredur 43: 15-8.

¹⁵⁵ Math 10: 322-3.

Dyma enghraifft arall o Gwydion yn newid ei wedd ef a'r mab, y tro hwn fe newidia Gwydion eu gwedd eto er mwyn ceisio cael arfau i'r mab:

Ac yna amgenu eu pryt a wnaethant, a chyrchu y porth yn rith deu was ieueinc, eithyr y uot yn prudach pryt Gwydyon noc un y guas.¹⁵⁶

Mae hyn yn rhywbeth cyfrwys sydd yn nodweddiadol o Gwydion, a gwna ef hyn ar sawl adeg yn y gainc, a golwg brudd arno.¹⁵⁷

Mae'n amlwg fod yna werth materol gan ferch brydferth yn yr Oesoedd Canol. Dywed Burnley, 'The beauty of women had, of course, long formed the subject of poetic inspiration and lacking inspiration – or perhaps on occasion beauty – of rhetorical exercises too.'¹⁵⁸ Mae yna gerddi helaeth wedi cael eu hysgrifennu am ferched a'u prydfferthwch yn arbennig gan feirdd fel Hywel ab Owain Gwynedd, er enghraifft ei 'Orhoffedd' sydd yn disgrifio'r merched delfrydol.¹⁵⁹ Ceir enghraifft ryfedd yn codi o chwedl *Pwyll Penduic Dyuet* gyda'r awdur yn awgrymu fod Rhiannon yn brydferth er nad yw'n dweud hyn yn uniongyrchol:

Ac yna medylaw a wnaeth bot yn diuwyn ganthaw pryt a welsei eiroet o uorwyn a gwreic y wrth y ffryt hi.¹⁶⁰

Yn hytrach dywed fod pob morwyn arall yn salw o'u cymharu â hithau. Ni chaiff Rhiannon ei disgrifio fel merch brydferth nodweddiadol, ond y mae hyn efallai oherwydd cynildeb yr awdur a ganmolir gan Jarman am ddod â mesur helaeth o'i 'Aeddfedrwydd,

¹⁵⁶ Math 10: 336-8.

¹⁵⁷ Ceir sawl enghraifft o Gwydion yn gyfrwys yn y bedwaredd gainc, gwelwn ef yn gyrru allan y morynion fel y gall ef a Gilfaethwy dreisio Goewin (Math 4: 111-5). Hefyd defnyddia hud a lledrith er mwyn lladd Pryderi (Math 5: 142-8).

¹⁵⁸ Burnley, *Courtliness and Literature*, 37.

¹⁵⁹ Hywel ab Owain Gwynedd, 'Gorhoffedd', yn K. A. Bramley et al. (goln), *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif* (Caerdydd, 1994), 122.

¹⁶⁰ Pwyll 11: 278-80.

cynildeb diwastraff...'¹⁶¹ i'r naratif. Hynny yw bod awdur mewn ychydig o eiriau dethol yn gallu awgrymu llawer iawn.

Yn y bedwaredd gainc, sonnir am brydferthwch Blodeuwedd a'r ffaith ei bod yn fath o goctel dynol:

Ac yna y kymeryssant wy blodeu y deri, a blodeu y banadyl, a blodeu yr erwein, ac o'r rei hynny, asswynaw yr un uorwyn decaf a thelediawaf a welas dyn eiroet. Ac y bedydyaw [101] o'r bedyd a wneynt yna, a doddi Blodeued arnei .¹⁶²

Dysgwn fod Gwydion wedi ei chreu o brydferthwch natur a'i bod wedi cael ei chreu fel tegan, sydd efallai'n adlewyrchu pam nad oes llawer o bersonoliaeth iddi yn y gainc a'i bod yn rhydd o unrhyw gyfrifoldebau. Mae hyn yn fath o eironi o'r hyn sydd i ddod ohoni yn y gainc wrth iddi odinebu yn erbyn ei gŵr gan ei bod yn ddiwreiddiau ac eto'n rhydd o gyfrifoldebau oherwydd hyn. Ceir adleisiau o hyn yng ngherdd 'Kat Godeu' gan

Taliesin:

Nyt o vam a that
pan y'm digonat,
a'm creu a'm creat
o naw rith llafanat:
o ffrwyth, o ffrwytheu,
o ffrwyth Duw dechreu;
o vrially a blodeu,
o vlawt gwyd a godeu,
o prid o pridret
pan y'm digonet,
o vlawt danat,
o dwfyr don nawvet.
A'm swynwys-i Vath
kyn bum *diameth*.
A'm swynwys-i Wytton -
mawrut o brithron;¹⁶³

¹⁶¹ A.O.H., Jarman, 'Pedair Cainc y Mabinogi', yn Geraint Bowen, (gol.) *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol* (Llandysul, 1974), 132.

¹⁶² Math 11: 384-7.

¹⁶³ 'Kat Godeu', yn Marged Haycock, (gol.) *Legendary Poems from the Book of Taliesin* (Aberystwyth, 2007), 181-182.

Gwelwn fod Taliesin yn union fel Blodeuwedd wedi cael ei greu o'r holl flodau, brigau a ffrwythau ac ati sydd yn dangos nad yw hyn yn unigryw i'r chwedlau.¹⁶⁴

Y disgrifiad enwocaf yn y chwedlau, fodd bynnag, yw'r disgrifiad o Olwen, sydd yn cyfateb i'r ferch ddelfrydol:

Y chennatau a orucpwyd. A'e dyuot hitheu a chamse sidan flamgoch amdanei, a gordtorch rudeur am y mynwgyl y uorwyn, a mererit gwerthuawr [476] yndi a rud gemmeu. Oed melynach y fenn no blodeu y banadyl. Oed gwynnach y chnawd no distrych y don. Oed gwynnach y falueu a'e bysed no chanawon godrwyth o blith man grayan fynhawn fynhonus. Na golwc hebawc mut, na golwc gwalch trimut, nyd oed olwg tegach no'r eidi. No bronn alarch gwynn oed gwynnach y dwy uron. Oed kochach y deu rud no'r fion. Y sawl a'e gwelei kyflawn uydei o'e serch. Pedeir meillonon gwynnyon a dyuei yn y hol myn yd elhei. Ac am hynny y gelwit hi Olwen.¹⁶⁵

Mae'r disgrifiad manwl iawn o olwg Olwen yn gweithio o'i gwallt i'w croen at ei bysedd hyd at ei thraed, mae'r disgrifiad yn gyflawn a hefyd mae'n pwysleisio'r pethau materol yn ogystal (fel yn y disgrifiad o Culhwch). Sonnir am y lliwiau cryf moethus, fel y coch yn y gemau a'r gamse sydd yn adlewyrchu'r lliwiau brenhinol. Manylir ar y blodau yn ei gwallt a'r croen gwyn a'r llygaid llym sydd yn ddisgrifiad stoc eto ond un allai demtio dynion. Bron nad oes yma elfen erotig. Gwelir yn yr enghraifft yma'r holl briodoleddau a berthynai i'r merched delfrydol y sonia Ruddock amdanynt:

Yn gyffredinol, gellir dweud mai merched perffaith eu cyrff oedd y merched hynny y cenid iddynt gan y Gogynfeirdd, cywyddwyr serch y 14g. a'r 15g., beirdd yr 'amour courtois', a beirdd Lladin a Saesneg yr Oesoedd Canol.¹⁶⁶

Gwelir enghraifft arall o'r confensiynau stoc yma yn codi o'r stori Wyddeleg *Togail Bruidne Dá Derga/The Destruction of Da Derga's Hostel*:

At the well, the woman loosened her hair in order to wash it, and her hands appeared through the opening of the neck of her dress. As white as the snow of a single night her wrists; as tender and even and red as foxglove her clear, lovely cheeks. As black as a beetle's back her brows; a shower of matched pearls her teeth. Hyacinth blue her eyes; Parthian red her lips. Straight, smooth, soft

¹⁶⁴ Gwelir mwy o drafodaeth ar hyn a chreadigaeth y ddynoliaeth yn deillio o elfennau'r ddaear sydd yn olrhain motiff y 'microcosmic man, often octipartite', yn Haycock, (gol.) *Book of Taliesin*, 223-224.

¹⁶⁵ KO 18: 487-98.

¹⁶⁶ Gilbert Ruddock, 'Prydferthwch Merch yng Nghywyddau Serch y Bymthegfed Ganrif', *Llên Cymru* 11 (1970-71), 140.

and white her shoulders; pure white and tapering her fingers; long her arms. As white as sea foam her side, slender, long, smooth, yielding, soft as wool. Warm and smooth, sleek and white her thighs; round and small, firm and white her knees. Short and white and straight her shins; fine and straight and lovely her heels. If a rule were put against her feet, scarcely a fault would be found sae for a plenitude of flesh or skin. The blushing light of the moon in her noble face; an uplifting of pride in her smooth brows; a gleam of courting each of her two royal eyes. Dimples of pleasure each of her cheeks, where spots red as the blood of a calf alternated with spots the whiteness of shining snow. A gentle, womanly dignity in her voice; a steady, stately step, the walk of a queen. She was the fairest and most perfect and most beautiful of all the women in the world.¹⁶⁷

Dyma ddisgrifiad sydd yn ein hatgoffa ni'n fawr o'r disgrifiad coeth a geir o Olwen.

Ceir disgrifiad arall o fenyw ddelfrydol yr Oesoedd Canol yn *Historia Peredur Vab*

Efracw:

Ar hynny llyma pump morwyn yn dyfot o ystafell y'r neuad, a'r vorwyn penhaf onadunt, diheu oed ganthaw na welsei dremynt kymryt eiroet a hi ar arall. Henwisc o bali twll ymdanei a uassei da. Yn y gwelit y chnawt trwyddaw, gwynnawch oed no blawt y crissant gwynaf; y gwallt hitheu a'e dwyael, duach oedynt nho'r muchyd; deu vann gochyon vychein yn y gru[134]dyeu, cochach oedynt no'r dim cochaf.¹⁶⁸

Ond yn wahanol i'r disgrifiad o Olwen, gwelwn fod y forwyn yn gwisgo dillad carpiog.

Canolbwyntir ar yr un priodoledau eto fel y croen gwyn a'r aeliau du sydd eto ag elfen erotig bosibl iddynt.

Parhawn gyda'r fenyw ddelfrydol yn yr Oesoedd Canol ond y tro hwn ceir sefyllfa dra gwahanol gan mai dyma'r ferch ddelfrydol yn ôl cymeriad Peredur:

Sef a oruc Peredur, sefyll a chyffelybu duhet y vran a gwynder yr eira a chochter y gwaet, y wallt y wreic uwyhaf a garei, a oed kyn duhet a'r muchyd, a'e chnawt y wynder yr eira, a chochter y gwaet yn yr eira gwyn y'r deu van gochyon yg grudyu y wreic uwyhaf a garei.¹⁶⁹

Nid yw'r ddelfryd hon wedi ei selio ar fenyw go-iawn o gig a gwaed ond yn hytrach ar y ddelfryd ganoloesol. Darluniau statig yw llawer o'r disgrifiadau hyn mewn gwirionedd

¹⁶⁷ The Destruction of Da Derga's Hostel, yn Jeffrey Gantz, (cyf.) *Early Irish Myths and Sagas*, 62-63.

¹⁶⁸ Peredur 23: 13-22.

¹⁶⁹ Peredur 30-31: 26-1.

fel golygfeydd wedi rhewi. Atgoffir ni yma o'r disgrifiad godidog hwnnw o Angharad, gwraig Gruffudd fab Cynan:

Angharad y henv, merch y Ewein vab Edwin, er honn a dywedynt doethyon y kyuoeth y bot en vonhedig, hydudf, walltwenn, lygatvras, oskethloyu, a chorff gualcheid, ac aelodeu grymus, ac esgeiryu hydudf, a'r traet goreu, a bysed hiryon, ac ewined teneu; hynavs. A huaudel, a da o uwyt a llyn, a doeth a chall, a chynghorwreic da, tugarauc urth y chyuoeth, a chardodus urth achanogyon, a chyfreithus ym pob peth.¹⁷⁰

Cyfeirir at bryd a gwedd Enid yn *Ystoria Gereint Uab Erbin* a'r ffaith ei bod yn edrych yn sâl oherwydd ei bod yn poeni cymaint am ei gŵr:

Ac edrych a oruc Gereint ar Enyt yna, a dyuot yndaw deu dolur un ohonunt o welet Enyt wedy yr gollu y lliw a'e gwed, a'r eil onadunt gwybot yna o honaw y bot hi ar yr iawn.¹⁷¹

Gallwn weld fod y pwysau yma sydd ar gymeriad Enid yn cael ei gyfleu yn ieithwedd ei chorff drwy iddi gollu lliw yn ei hwyneb. Gwelir enghraifft o hyn yn *Canu Heledd*, 'Dygystud deurud dagreu.'¹⁷² Menywod gan amlaf sydd yn cael eu darlunio'n llefain.

Ceir disgrifiad gwrth-ddelfrydol gwych o'r forwyn yn *Historia Peredur Vab Efracw*,

Ac ar hynny wynt a welynt yn dyfot y mywn morwyn bengrych du ar gefyn mul melyn, a charreieu anuanawl yn y llaw yn gyrru y mul, a phryt anuanawl agharueid arnei. Duach oed y hwyneb a'e dwylaw no'r hayarn [166] duhaf a darffei y bygu, ac nyt y lliw hacraf, namyn y llun. Grudyu aruchel, ac wyneb kyccir y waeret, a thrwyn byr ffroenuoll, a'r neill lygat yn vrithlas tratheryll, a'r llall yn du val y muchyd ygheuynt y phen. Danhed hiryon melnyon, melynach no blodeu y banadyl, a'e chroth yn kychwynnu o gledyr y dwyvron yn uch no'e helgeth. Ascwrn y chefyn oed ar weith bagyl. Y dwy glun oed yn llydan yscyrnic, ac yn vein oll o hynny y waeret, eithyr y traet a'r glinyeu oed vras.¹⁷³

Manylir ar ei holl olwg yn y disgrifiad yma am ei gwallt cyrliog, ei chroen tywyll a'i dannedd melyn. Cawn ddisgrifiad ohoni o'i phen hyd ei thraed. Mae'r disgrifiad a gawn o'r fenyw yma'n wahanol iawn i unrhyw ddisgrifiad arall a gawn o fenyw yn y *Mabinogion* ac yn gweithredu fel parodi o'r disgrifiad a gawn o Olwen. Mae hyn yn

¹⁷⁰ D. S. Evans, (gol.) [Ei wraig a'i blant] *Historia Gruffud Vab Kenan* (Caerdydd, 1977), 21-22.

¹⁷¹ Gereint 48: 1308-10.

¹⁷² Canu Heledd, 'Stafell Gynddylan', yn Ifor Williams, (gol.) *Canu Llywarch Hen* (Caerdydd, 1934), 36.

¹⁷³ Peredur 56-57: 21-6.

rhannu rhai elfennau amlwg a'r disgrifiad yng ngherdd Iolo Goch, *Dychan i Hersdin*

Hogl:

Hersdin Hogl a'r arogl oer,
Henllodr figyrnbodr garnboer;
Mae ynni'i hun yn un haint
Dwy daewrach dew eu derwaint,
Meheldyn, gefryn heb gig,
Meingroen neidr min grynedig,
A merch Rwsel, sorel soeg,
Gwrach fresychgach frau sehgoeg;
Rhaid ynn gyda hyn, gau ei hiad,
Furnio iddi ddwy farwnad:
Grybwyll ei hers gefngribin,
Grepach hogl grach ar egl grin,
Henddyn fam Wyddelyn wefr,
Hers dinroth hir estynrefr,
Rhefr grach gwedy rhifo'r grib,
Hefis ystrethbis droethbib.¹⁷⁴

Ceir yma gyfeiriad at wrach heb ddannedd yn chwedl *Kulhwch ac Olwen*

Y death y dy hen wrach a oed yn y dref heb dant yn y fenn.¹⁷⁵

Awgryma'r ffaith nad oes ganddi unrhyw ddannedd nad oes ganddi unrhyw foesau chwaith. Mae hyn yn cyd-fynd â hyn y mae'n ei wneud nesaf sef dweud wrth wraig Cilydd fod ganddo fab, sef Culhwch.

Felly yn y bennod yma gwelwn yn glir bwysigrwydd gwallt a nodweddion rhannau eraill o'r corff i ategu iaith y corff. Mae'r nodweddion ffisiolegol hyn ynddynt eu hunain yn fynegiant pwerus er mwyn cyfleu i'r gynulleidfa argraff o natur pobl, eu moesau, eu statws, a'u swyddogaeth yn y naratif. Ac i'r graddau hynny, maent yn anhepgor mewn astudiaeth gyffredinol ar iaith y corff.

¹⁷⁴ Iolo Goch 'Dychan i Hersdin Hogl', yn Dafydd Johnston, (gol.) *Iolo Goch: Poems* (Llandysul, 1993), 145.

¹⁷⁵ KO 2: 34-5.

Pennod 3: Côt Ymddygiad.

Yr oedd côd ymddygiad yn rhan bwysig iawn o fywyd a diwylliant yr Oesoedd Canol, ac y mae rhai pethau sydd yn gyfarwydd yn ein hoes ni heddiw wedi deillio o'r cyfnod hwnnw, er enghraifft golchi dwylo cyn bwyd a chodi i gyfarch rhywun, heb enwi ond rhai enghreifftiau. Fe drafodaf fwy ar hyn wrth ymdrin â'r enghreifftiau unigol yn y bennod.

Ceir enghraifft dda o hyn yn chwedl *Pwyll Pendeuic Dyuet* wrth i Pwyll ddiosg ei esgidiau a'i ddillad:

Ac y'r neuad ry gyrchwys y diarchenu. Ef a doeth makwyueit a gueisson ieueinc y diarchenu, a phaup ual y delynt kyuarch guell a wneynt idaw. Deu uarchauc a doeth i warret i wisc hela y amdamaw, ac y wiscaw eurwisc o bali amdanaw.¹⁷⁶

Mae hyn yn rhan hanfodol o gôd ymddygiad llys yr Oesoedd Canol yn enwedig gyda dau was yn dod at Pwyll i roi cymorth iddo. Dengys hyn statws Pwyll fel uchelwr a'i fod mewn llys uchelwr yn y ffordd mae'n cael ei drin. Adlewyrcha hyn y gydnabyddiaeth a geir i statws Pwyll yn llys Arawn yn y ffaith ei fod yn cael cymorth gyda diosg ei ddillad. Yn ôl Chandler, 'The description of Arawn's court reads like a medieval guide to the perfect home and appropriate behaviour.'¹⁷⁷ Wrth ystyried y weithred o ddiosg dillad ac esgidiau y mae hyn yn rhan bwysig o gôd ymddygiad rhai crefyddau heddiw fel Iddewiaeth a Bwdhaeth, fel yr oedd yn rhan annatod o ddefodau lletygarwch gan Gristnogion yr Oesoedd Canol.

¹⁷⁶ Pwyll 3: 77-81.

¹⁷⁷ Chandler, *Masculinity and Medieval Welsh Literature*, 74.

Yn yr enghraifft hon o *Ystoria Gereint Uab Erbin* tyn Geraint ei esgidiau wrth fynd i mewn i'r llys a chymer y forwyn y rhain oddi wrtho:

A diarchenu y mackwyf a oruc y uorwyn, ac odynd y diwallu y march o wellt ac yt, a chyrchu y'r neuad ual [394] kynt a dyuot y'r lloft dracheuyn¹⁷⁸

Mae'r traddodiad yma wedi parhau gyda ni heddiw yn Siapan a'r Almaen lle cedwir yr esgidiau y tu allan fel nad ydynt yn halogi'r gofod y tu mewn.

Mae'r darlun yma o Teyrnnon yn diosg ei ddillad yn cyferbynnu'n dda â'r ddwy enghraifft flaenorol o chwedl *Pwyll Penduic Dyuet*:

Peri dwyn y gasec y mywn ty a wnaeth, a gwiscaw arueu amdanaw a oruc ynteu, a dechreu gwylat y nos.¹⁷⁹

Adlewyrcha'r enghraifft yma'r gwahanol garfanau o gymdeithas y perthyna'r ddau gymeriad iddynt. Mae'n amlwg perthyna Teyrnnon i ddsbarth cymdeithasol y gwŷr rhydd – gellir gweld ei statws yn y weithred hon gan nad oes unrhyw weision neu fornyon yma i gymryd ei ddillad yn wahanol i Geraint sydd yn perthyn i garfan uwch y gymdeithas gan fod y forwyn yn ei gynorthwyo.

Ar ôl tynnu eu dillad, y nesaf yn y broses yw mynd i ymolchi cyn mynd i eistedd a chael bwyd,

Ac ar hynny e ymolchi yd aethant, a chyrchu y bordeu a orugant,¹⁸⁰

Ceir pwyslais mawr ar ymolchi felly,¹⁸¹ a gwelir enghraifft o hyn yn digwydd yn y testun Lladin *Gesta Romanorum* a droswyd i'r Gymraeg: 'Pan welas y marchog hynny, ef a

¹⁷⁸ Gereint 7: 207-9.

¹⁷⁹ Pwyll 19: 518-9.

¹⁸⁰ Pwyll 4: 84-5.

¹⁸¹ Trafoda Bogucka gôd ymddygiad y llys ynghylch eistedd a bwyta a'r pwyslais ar ymolchi cyn cael bwyd gw. Bogucka, 'Gesture, Ritual, and Social', yn Bremmer a Roodenburg, *Cultural History of Gesture*, 197.

gloawdd y ffynnon, a phan oedd yr eoes ar vedr myned i'r ffynnon i ymolchi yn ol i godineb.¹⁸² Sonia Gerallt Gymro am arwyddocâd hyn, 'They give you water so that you may wash your feet and that means that you are a guest.'¹⁸³ Heddiw mewn rhai crefyddau megis Iddewiaeth mae'r syniad o olchi eich pechodau i ffwrdd. Sonnir am hyn yn y Beibl yn ogystal er enghraifft gydag Iesu Grist yn golchi traed Ddydd Iau Cablyd; y mae'r Pab yn dal i wneud hyn heddiw i'w gardinaliaid adeg y Pasg. Hefyd yn rhan o fywyd bob dydd caiff plant eu dysgu'n ifanc i olchi dwylo cyn cael bwyd.

Dyma enghraifft arall o ymolchi cyn mynd i eistedd a chael bwyd yn chwedl *Owein*:

ac ymolchi a orugam, a mynnet y eiste y'r bwrdd a oruc y gwr gynheu, a minheu yn nesaf idaw, a'r gwragedd oll is vy llaw inheu, eithyr y rei a oedynt yn gwasanaethu.¹⁸⁴

Ceir enghraifft arall o ymolchi cyn bwyta yn *Historia Peredur Vab Efracw*,

Ac ymolchi a orugant a mynnet y uwyta.¹⁸⁵

Gwelwn yr enghraifft yma'n codi yn *Ystoria Gereint Uab Erbin* yn ogystal,

ac a erchis kyweiraw y bordeu. Ac ymolchi a orugant a mynnet y eiste.¹⁸⁶

Gallwn gasglu wrth y nifer o enghreifftiau yma felly fod ymolchi cyn cael bwyd yn rhan bwysig o draddodiad y cyfnod, a'r tebyg yw ei fod yn hysbys bod hylendid yn bwysig i'r iechyd, ond hefyd ei fod yn beth gwaraidd sydd yn rhan o ddefod bwyta yng nghwmni pobl eraill.

¹⁸² P. Williams, (gol.) *Ystoria Gesta Romanorum* (Caerdydd, 2000), 53.

¹⁸³ Lewis Thorpe, (cyf.) *Gerald of Wales – The Journey Through Wales* (Harmondsworth, 1978), 236.

¹⁸⁴ *Owein* 4: 77-80.

¹⁸⁵ *Peredur* 37: 14.

¹⁸⁶ *Gereint* 51: 1373-4.

Confensiwn mawr arall sydd yn rhan o gôd ymddygiad Ewropeaidd yr Oesoedd Canol yw pen-glinio o flaen rhywun pwysig. Gwelwn sawl enghraifft o ben-glinio yn digwydd yng ngwaith Chaucer,

And kneeling down, with humble demeanour¹⁸⁷
She sank down on her knees, and thus she prayed.¹⁸⁸

Ceir enghreifftiau yn codi o'r traddodiad Ffrangeg yn ogystal:

Then he sees her kneeling by his bed, holding her arms tightly clasped round his neck.¹⁸⁹

Yn yr achos hwn mae dynion Maccen yn cyfarch ac yn siarad ag Iarlles Rhufain ac yn pen-glinio o'i blaen:

Ac ystung a wnaethant ar dal eu glinyeu a dywedut val hyn urthi.¹⁹⁰

Yr oedd hyn yn arwydd o barch yn y cyfnod.

Yn yr enghraifft hon pen-glinia Peredur o flaen morwyn y babell a'i chusanu yn *Historia Peredur vab Efwrawc*,

Y vodrwy a gymerth Peredur, ac estwg ar pen y lin a rodi cusan y'r vorwyn, a chymryt y varch a chychwynu y ymdeith.¹⁹¹

Mae'r ffaith fod ganddo fodrwy yn ei law yn ein hatgoffa ni o'r ddefod heddiw o gynnig priodasol i rywun ac atgyfnerthir hyn wrth i Peredur roi cusan iddi, ond nid cynnig priodasol sydd yma ond yn hytrach arwydd o barch a diolchgarwch. Yn y weithred hon hefyd cofiwn mai dilyn geiriau ei fam a wna Peredur, ond gwelwn nad yw'n deall ei geiriau yn y fan hon. Dyma'r unig enghraifft o gusanu yn y *Mabinogion*.

¹⁸⁷ Geoffrey Chaucer, 'The Knight's Tale', David Wright, (cyf.) *The Canterbury Tales* (Oxford, 1985), 57.

¹⁸⁸ Geoffrey Chaucer, 'The Sergeant-at-law's Tale', David Wright, (cyf.) *The Canterbury Tales*, 131.

¹⁸⁹ Chrétien de Troyes, 'Perceval: The Story of the Grail', D.D.R. Owen, (gol.), *Arthurian Romances* (London, 1993), 400.

¹⁹⁰ BM 6: 180-1.

¹⁹¹ Peredur 11: 4-6.

Wrth i'r gŵr mawr du ben-glinio o flaen yr Iarllles yn *Historia Peredur vab Efracw*, dengys hyn barch ati fel math o foesyngrymid ond dengys mai hi yw'r un sydd â'r pŵer a thaw hi yw'r un o statws uchel.

Pan yttoedynt uelly, wynt a welynt yn dyfot y mywn gwr du, a gorflwch eur yn y law yn llawn o win. A dygwydau a oruc ar pen y lin ger bron yr amherodres ac erchi idi nas rodei onyt y'r neb a delei y ymwan ac efo ymdanei.¹⁹²

Ymbilia'r gŵr mawr du â hi mewn ffordd i roi'r gorflwch iddo ef ac mae ei osgo (sef ei fod wedi pen-glinio) yn adlewyrchu'r ymbilio yma.

Ailadroddiad yw'r dyfyniad nesaf o'r digwyddiad blaenorol ond gydag ychydig o amrywiad sydd yn nodweddiadol o batrwm naratif y *Mabinogion*. Y tro hwn daw gŵr mawr 'pengrych coch' at yr Iarllles a phen-glinio o'i blaen,

Pan yttoedynt uelly, nachaf gwr pengrych coch a oed uwy noc vn o'r gwyr ereill, a gorflwch o vaen crissant yn y law, a'e loneit o win yndaw. A gostwg ar pen y lin a'e rodi yn llaw yr amherodres, ac erchi idi nas rodei onyt y'r neb a ymwanei ac efo ymdanei.¹⁹³

Ymbilia'r gŵr yma â hi am y 'gorflwch' sydd yn arwydd o'i chariad. Mae'r osgo unwaith eto'n atgyfnerthu'r ymbil yma yn ogystal â dangos parch tuag ati.

Mae'r enghraifft yma'n wahanol iawn i'r gweddill gan fod gwas yn pen-glinio o flaen Peredur,

Ac hynny vyd gwas melyn yn dyfot ar pen y lin ger bron Peredur ac erchi kerenhyd y Peredur.¹⁹⁴

Dengys hyn nad yw dynion yn pen-glinio o flaen merched yn unigryw ond yn hytrach i unrhyw un o bŵer yn yr Oesoedd Canol ac yn arwydd o barch tuag atynt. Yn yr achos

¹⁹² Peredur 55: 12-6.

¹⁹³ Peredur 55-56: 28-3.

¹⁹⁴ Peredur 69: 24-6.

hwn y mae'r gwas yn erfyn ar Peredur am ei gyfeillgarwch.¹⁹⁵ Mae'n ei osod ei hun yn is, ac yn ei osod ei hun mewn sefyllfa o berygl — a thrwy hynny yn ei roi ei hun ar drugaredd rhywun. Dyna sydd yn allweddol gyda'r math hwn o ymddygiad.

Cawn enghraifft wahanol iawn o ben-glinio yn chwedl *Math Uab Mathonwy* hefyd: yn yr episod yma mae Gronw ar ei ben-glin ac yn ceisio lladd Lleu,

Ynteu Gronw a gyuodes e uynyd o'r bryn a elwir Brynn Kyueryr, ac ar ben y neill glin y kyuodes, ac a'r guenwynwayw y uwrw, a'y uedru yn y ystlys, yny [106] neita y paladyr ohonaw, a thrigyaw y pen yndaw.¹⁹⁶

Mae'r ffaith ei fod i lawr ar ei ben-glin yn yr achos yma'n dangos rhyw fath o ganolbwyntio yn anelu'r waywffon yma at Lleu - mae'n amlwg fod rhywbeth mwy ymarferol ar ddod yma sef cynllunio ei ladd.

Mae yna nifer o reolau'n ymwneud â chôd ymddygiad yn perthyn i swyddogaeth y llys yn ogystal. Gwelwn yn yr enghraifft yma eto fel y mae ymwelydd yn cael ei drin wrth ymweld â llys rhywun arall yn chwedl *Kulhwch ac Olwen*:

Dyuot y porthawr ac agori y porth, a dyuot Kei y mywn e hun. A chyuarth guell a oruc ef y Wrnach Gawr. Kadeir a dodet y danaw.¹⁹⁷

Mae Cai yn y fan hon yn ymwelydd â'r llys, ac y mae parch mawr eto yn y ffordd y mae'n cael ei drin yno. Dywed Charles-Edwards am y llys:

The king's *llys* was expected to live by the same rules whichever particular *llys* it was inhabiting. Moreover, this pattern of royal life, which was a central element in the political culture, was not confined to a particular kingdom. In essentials, the Laws of Court are the same from whichever part of Wales a given lawbook derives. There appears to have been a single conception of a court and of courtly life in all parts of Wales. As the itinerant *llys* extended a single royal authority

¹⁹⁵ Ceir mwy o drafodaeth ar benglinio a'i arwyddocâd yng nwaith Burrow, gw. Burrow, *Gestures and Looks*, 23-4.

¹⁹⁶ Math 14: 480-3.

¹⁹⁷ KO 29: 786-8.

throughout a kingdom, so did the royal *llysoedd* as a whole, living according to the one rhythm, impose a single political culture throughout Wales.¹⁹⁸

Gweithreda'r porthor fel math o was wrth iddo wneud popeth dros Cai, ac mae'r syniad o gael cadair iddo wynebu Wrnach Gawr yn awgrymu eu bod nhw ar yr un lefel a hefyd yn arwydd o barch gan fod cadeiriau yn bethau cymharol brin. Fe ddigwydd hyn yn chwedl *Kulhwch ac Olwen*, wrth i Culhwch gael cadair wedi ei gosod oddi tano er mwyn iddo allu siarad wyneb yn wyneb ag Ysbyddaden Bencawr.¹⁹⁹

Ceir nifer o enghreifftiau o forynion yn tendio ar y marchogion, a dengys hyn ran arall o'r côd ymddygiad. Gwelwn mai rôl y fenyw a berthyn i hyn: y fenyw sydd yn delio â phethau corfforol i raddau mwy na dynion. Mae hyn yn gyffredinol wir am ferched y cyfnod gan fod gofal y corff yn fwy o sffêr iddyn nhw (e.e. gweithio gyda bwyd, eillio, rhoi sugn, gofalu am anghenion corffol babanod, ac yn y blaen ymysg eu gwaith bob dydd).

Ac ar hynny kyudi a oruc y vorwyn a chynneu tan glo, a llanw crochan o dwfyr a'e dodi y dwymaw, a chymryt twel o vliant gwynn a'e dodi am vynwgyl Owein, a chymryt gorflwch o ascwrn eliphant, a chawc aryant, a'e lanw o'r dwfyr twym, a golchi penn Owein. Ac o'dyna agori prenuol a thynnu ellyn a'e charn o asgwrn eliphant a deu ganawl eureit ar yr ellyn, ac eillaw y uaraf a oruc, a sychu y ben a'e vynwgyl a'r twel. Ac o'dyna dyrchafel [bwrdd] a oruc y uorwyn rac bronn Owein a dyuot a'e ginyaw idaw.²⁰⁰

Dyma ddarlun personol iawn yn yr olygfa yma o'r forwyn yn tendio ar Owain yn nhestun *Owein*. Hefyd gwelwn y ferch wrth ei gwaith yn y cyfnod yn bwydo ac yn gofalu amdano fel rhan o'i gwaith fel morwyn yn tendio ar bobl y llys neu ymwelydd â'r llys.

¹⁹⁸ Thomas Charles-Edwards, 'Food, Drink and Clothing in the Laws of the Court', yn Thomas Charles-Edwards, M. E. Owen, a P. Russell, (goln), *The Welsh King and his Court* (Cardiff, 2000), 320.

¹⁹⁹ Sioned Davies, (cyf.), *The Mabinogion* (Oxford, 2007), 194.

²⁰⁰ Owein 14-15: 370-8.

Mae'r enghraifft nesaf yn ddarlun eithaf amharchus gyda phawb yn taflu brigau at Peredur yn *Historia Peredur vab Efwrawc* wrth iddo gyrraedd y llys, fel petaent yn ei wawdio ef:

Ac ar hynny y arganuot o'r teulu a dechreu y dyfalu a bwrw llyscon idaw, ac yn da ganthunt dyuot y kyfryw hwnnw y vynet y chwedyl arall dros gof.²⁰¹

Mae hyn yn watwarus ond eto mae'n dangos pwy yw'r bobl sydd o statws yn y gymdeithas. Trafoda Ifor Williams y gair 'gweyhelu' yn rhan o Ganu Taliesin cerdd IX. Mae'n debyg mai'r un yw ystyr y gair hwn â'r weithred o daflu'r brigau yn *Historia Peredur Vab Efwrawc* yn ôl Ifor Williams.²⁰²

Eto ceir enghraifft o fynd yn erbyn y côd ymddygiad yn yr un testun, a dengys hyn y ffordd mae carfanau gwahanol yn cael eu trin yn y gymdeithas:

A rodi bonclust idaw hynny uu yn ol y pen y'r llawr yn y varwlewyc.²⁰³

Er bod y corrach yn is yn y gymdeithas, ac fe gyflëir hyn trwy'r ffordd y mae Cai yn ei drin ef, ni ddylai uchelwr drin rhai is fel hyn yn ddiangen fel rhan o ymddygiad y cyfnod.

Ailadroddir yr enghraifft hon eto ond y tro hwn y gorches yw'r gwrthrych yr ymosodir arno:

Ar hynny, llyma y gorres yn dyuot...A gwan gwth troet yndi hynny uu yn y marwlewic.²⁰⁴

Dengys hyn bŵer Cai fel y marchog yn y gymdeithas yn y ffordd mae'n trin y corachod yn wael a'r ffaith fod yna reolau gwahanol i'w cael yn y llys i drin pobl.

²⁰¹ Peredur 12: 23-6.

²⁰² Ifor Williams, (gol.) *Canu Taliesin* (Caerdydd, 1960), 84.

²⁰³ Peredur 13: 11-2.

²⁰⁴ Peredur 13: 22-3.

Ceir enghraifft hollol wahanol o fynd yn erbyn y côd ymddygiad gyda sarhau Gwawl fab Clud a'i ddynion yn llys Hefeydd Hen yn chwedl *Pwyll Penddeuic Dyuet*:

A chyuodi y uynyd, a dodi y deudroet yn y got, a troi o Pwyll y got yny uyd Guawl dros y penn yn y got, ac yn gyflym caeu y got a llad clwm ar y carryeu, a dodi llef ar y gorn. Ac ar hynny, llyma y teulu am penn y llys, ac yna kymryt pawb o'r niuer a doeth y gyt a Guawl, a'y dodi yn y carchar e hun. A bwrw y bratteu a'r loppaneu a'r yspeil didestyl y amdanaw a oruc Pwyll.²⁰⁵

Mae'r ffordd y mae Pwyll a Rhiannon yn twyllo Gwawl i fynd i mewn i'r sach ac yn ei glymu'n eithaf barbaraid, yn enwedig wrth ystyried eu statws. Beth sydd yn wahanol rhwng yr enghraifft hon a'r corachod yw bod Gwawl yn ddyn o statws ac nid ydym yn disgwyl iddo gael ei drin fel hyn wrth iddo ymweld â llys uchelwr arall. Mae'n cael ei drin fel broch, 'mochyn daear,' fel anifail.

Yn dilyn o'r enghraifft uchod, mae'r dynion nawr yn taro'r sach gyda Gwawl ynddo.

Ac mal y delei pob un o'e niuer ynteu y mywn, y trawei pob un dyrnawt ar y got,²⁰⁶

Mae hyn eto'n rhywbeth barbaraid gan na fyddech yn disgwyl i bobl o'r statws yma ymddwyn fel hyn. Hefyd nid oes neb yn herio Pwyll ac y mae hyn yn ddi-ddorol o feddwl am ei statws ef yn y llys gan mai llys Hefeydd Hen ydyw.

Gwelir enghraifft o ymddygiad eithaf amharchus sydd yn mynd yn erbyn côd ymddygiad y llys yn digwydd yn chwedl *Pwyll Penddeuic Dyuet* pan yw Pwyll allan yn hela gyda'r cŵn:

Ac ar hynny at y cwn y doeth ef, a gyrru yr erchwys a ladyssei y carw e ymdeith, a llithyaw y erchwys e hunan ar y carw.²⁰⁷

Er nad oes rheolau pendant am hyn, mae'r ffaith fod Pwyll yn gyrru'r cŵn i ffwrdd yn amharchus ac yn groes i'r disgwyl. Mae'n amlwg mai'r cŵn sydd yno gyntaf sydd i fod i

²⁰⁵ Pwyll 14: 385-91.

²⁰⁶ Pwyll 15: 392-3.

²⁰⁷ Pwyll 1: 22-4.

gael y carw, ac y mae Pwyll yn torri'r rheol hon. Mae Thomas Charles-Edwards wedi rhoi cryn sylw i'r olygfa hon yn ei erthygl yng ngoleuni barn Saunders Lewis am ddyddio'r *Pedair Cainc*.²⁰⁸ Dywed 'It shows that there were definite rules as to who should first speak when two men met. The man of lower status had to greet his superior. It also shows that Pwyll's offence against Arawn's dignity was sufficient to merit either direct revenge or a satire.'²⁰⁹ Dadleua Saunders Lewis fod yna elfennau o 'feudal custom'²¹⁰ i'r olygfa hon sydd yn peri iddo ddyddio'r *Pedair Cainc* rhwng 1170 a 1190.²¹¹

Mae sefyllfa ddiddorol iawn yn chwedl *Pwyll Penduic Dyuet* pan yw Pwyll o ganlyniad i'w weithredoedd allan yn hela, yn derbyn gwedd Arawn. Gwna hyn iawn am iddo sarhau Arawn gan ei fod yn gorfod ymladd â Hafgan yn ei le (gelyn pennaf Arawn). Rhan o'r trefniant felly yw iddo orfod ymddwyn yn union fel Arawn ac wrth gwrs rhaid i Pwyll rannu'r un gwely â gwraig Arawn:

Y gyt ac yd aethant yn y guely ymchwelut e weneb at yr erchwyn a oruc ef, a'y geuyn attei hitheu. O hynny hyt trannoeth, ny dywot ef wrthi hi un geir. Trannoeth, tirionwch ac ymdidan hygar a uu y ryngthunt. Peth bynnac o garueidrwyd a wei y rungthunt y dyd, ni bu un nos hyt ym pen y ulwydyn amgen noc a uu y nos gyntaf.²¹²

Y mae'r enghraifft yma'n werth ei nodi gyda'r cyfathrebu aneiriol yma o iaith y corff, yn enwedig gan Pwyll, yn dweud llawer wrthym. Wrth i Pwyll droi ei gefn ati, gwelwn ei fod yn ymwrthod â gwraig Arawn yn gorfforol llwyr, ac wrth edrych ar iaith ei gorff deallir ei fod yn eithaf anghyfforddus yn y gwely gyda'r frenhines. Gwelwn hyn gyda'r

²⁰⁸ Thomas Charles-Edwards, 'The Date of the Four Branches of the Mabinogi', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1970), 277.

²⁰⁹ Charles-Edwards, 'The Date of the Four Branches of the Mabinogi', 277.

²¹⁰ Charles-Edwards, 'The Date of the Four Branches of the Mabinogi', 279.

²¹¹ Am fwy o fanylion ar yr olygfa hon gwelir Thomas Charles-Edwards, 'The Date of the Four Branches of the Mabinogi', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* (1970), 263-98.

²¹² Pwyll 4: 94-9.

manyl yn 'e weneb at yr erchwyn a oruc ef,' ac mae'r ffaith fod ei wyneb wedi'i droi tuag at ymyl y gwely'n dangos yn union pa mor anghyfforddus ydyw. Rhaid cofio bod menywod yn cael eu gweld yn aml yn gynhenid ddrwg yn yr Oesoedd Canol; y syniad yw bod menywod yn gallu temtio dynion yn gorfforol. Fodd bynnag, wrth edrych ar y sefyllfa o bersbectif y frenhines, mae'r hyn y mae Pwyll yn ei wneud (sef troi ei gefn ati) yn sarhad arni, a dengys hyn feddylfryd yr Oesoedd Canol. Mae'n amlwg wrth iddi siarad â'i gŵr am yr olygfa hon yn nes ymlaen yn y gainc iddi gael ei sarhau yn fawr gan weithred Pwyll, nes iddi gael esboniad.

Y mae'r enghraifft nesaf yn cyferbynnu'n dda â'r enghraifft ddiwethaf gyda'r un olygfa yn digwydd eto ond y tro hwn mae'r frenhines yn ôl yn y gwely gyda'i gŵr, Arawn:

Y dyd hwnnw a dreulwys trwy digrifwch a llywenyd, ac eistedd ac ymdidan a'y wreic ac a'y wyrda. A phan uu amserach kymryt hun no chyuedach, y gyscu yd aethant. Y vely a gyrchwys, a'y wreic a aeth attaw. Kyntaf y gwnaeth ef ymdidan a'y wreic ac ymyrru ar digriwwech serchawl a charyat arnei. A hynny (10) ny ordifnassei hi ys blwyddyn, a hynny a uedylywys hi;²¹³

Dengys hyn berthynas gariadus gŵr a gwraig yn y ffordd y maent yn siarad, yn chwethin ac yn eistedd gyda'i gilydd, ond atgyfnertha eto nad oedd y ferch yn bwysig yn y cyfnod, gan fod y frenhines yn ymwybodol iawn fod pethau wedi bod yn wahanol dros y flwyddyn a aethai heibio (hynny yw nad oeddent wedi cysgu gyda'i gilydd). Fodd bynnag, penderfynodd beidio â chrybwyll y peth – nid oedd llawer o ddewis ganddi, a dyna oedd yn digwydd yn gyffredinol i ferched y cyfnod. Gellid dadlau mai byd y dyn oedd yr Oesoedd Canol. Sonia Sioned Davies am hyn: 'Dylanwadodd syniadau'r byd crefyddol yn aruthrol ar agwedd y gymdeithas ganoloesol tuag at ferched.'²¹⁴ Ac â ymlaen i ddweud mai 'Llais y dyn, felly, a geir mewn llenyddiaeth Gymraeg ganoloesol.

²¹³ Pwyll 6: 143-9.

²¹⁴ Davies, 'Y ferch yng Nghymru'r Oesoedd Canol', 11.

Rhaid aros hyd ail hanner y bymthegfed ganrif cyn clywed safbwyntiau, profiadau a theimpladau benywaidd, a hynny gan y bardd Gwerful Mechain.²¹⁵

Gwelwn sawl enghraifft o ferch yn cael ei thrin yn wael yn y *Mabinogion*. Dywed Green:

The theme of the ‘wronged wife’ is another common thread which runs through many myths, and one which we meet in the tale of Branwen. Both Rhiannon and Branwen (the heroine of the Second Branch) were foreign queens, brought to their husband’s courts from a different region or country.²¹⁶

Yn yr enghraifft yma o’r ail gainc, caiff Branwen ei sarhau’n greulon iawn, a dyma’r sarhad mwyaf y gallai menyw ei ddioddef yn y cyfnod – cael ei gyrru o ystafell ei gŵr a chael ei bwrw.

Sef dial a wnaethant, gyrru Branwen o un ystauell ac ef, a’y chymell y bobi yn y llys, a pheri y’r kygyd, gwedy bei yn dryllyaw kic, dyuot idi a tharaw bonclust arnei beunydd. Ac yuelly (49) y gwnaethpwynt y foen.²¹⁷

Mae rôl Branwen wedi gwyrddroi yn llwyr yn y fan hon: nid arglwyddes y llys ydyw bellach fel gwraig y brenin ond yn hytrach mae yng nghwmni’r gwasanaethyddion yn coginio i’r llys. Dros nos bron y mae wedi mynd o fod yn arglwyddes i fod yn forwyn, ac mae’r bonclust a gaiff bob dydd gan y cigydd yn isafbwynt ar ei sarhad. Wrth i’r cigydd ei tharo ‘gwedy bei yn dryllyaw kic’ awgrymir y byddai ei hwyneb yn waedlyd ac y mae hyn yn arwydd o greulondeb. Mae’r ffaith taw’r cigydd — ffigur esgymun yn y cyfnod — sydd yn ei phoenyddio hi ar gais ei gŵr yn bwysig iawn. Tanlinellir bai Matholwch fel arweinydd, hynny yw trinnir Branwen fel tamaid o’i eiddo yntau.

²¹⁵ Davies, ‘Y ferch yng Nghymru’r Oesoedd Canol’, 30.

²¹⁶ Green, *Celtic Goddesses*, 51.

²¹⁷ Branwen 8: 218-21.

Ceir enghraifft arall o ferch yn cael ei thrin yn wael ac eto'n mynd yn erbyn côd ymddygiad y llys yn chwedl *Math Uab Mathonwy* gyda Gwydion a Gilfaethwy yn treisio

Goewin:

A'r nos honno yd ymhwelwys Gwydyon uab Don a Chiluwathwy y urawt, hyt yg Kaer Dathyl. Ac y [g] guely Math uab Mathonwy dodu Giluwathwy a Goewyn uerch Pebin y gyscu y gyt, a chymell y morynyon allan yn amharchus, a chyscu genti o'y hanuod y nos honno.²¹⁸

Gwelwn eto'r syniad taw byd y dyn oedd yr Oesoedd Canol gyda'r dynion yn gallu gwneud fel y mynnent gyda'r merched. Mae'n amlwg nad oedd gair merch yn golygu dim gan fod y pŵer i gyd gyda'r dyn ac y mae 'a chymell y morynyon allan yn amharchus,' hefyd yn adlewyrchu hyn. Gwelwn eu hofn wrth i'r morynion hyd yn oed wrthod cydnabod beth oedd wedi digwydd.

Ceir enghraifft hollol amharchus eto gyda Gwenhwyfar y frenhines yn cael ei sarhau yn

Historia Peredur Vab Efracw:

A'r marchawc a gymerth y gorflwch o law Wenhwyfar ac a dineuis y llyn oed yndaw am y hwyneb a'e bronfoll, a rodi bonclust mawr y Wenhwyfar.²¹⁹

Yn y fan hon caiff Gwenhwyfar fonclust gan y marchog trahaus²²⁰ a bwriad hyn oedd ceisio cael ymateb gan Arthur a'i ddynion i'w ymladd. Nid yw'n weddus i frenhines gael ei thrin fel hyn, felly gwelir sarhad llwyr ar Gwenhwyfar yn yr enghraifft hon.

Yn yr olygfa ganlynol o chwedl *Breudwyt Maxen Wledic* gwelwn wir berthynas arweinydd a'i weision. Ceir yma set arall o reolau ymddygiad rhwng yr arweinydd a'i weision.

²¹⁸ Math 4: 111-5.

²¹⁹ Peredur 11: 27-30.

²²⁰ Cyfeirir at y marchog yma yn y rhamantau Ffrangeg fel 'His name is the Red Knight of the forest of Quinqueroi.' Nigel Bryant, (cyf.) *Perceval: The Story of the Grail* (Cambridge, 1982), 11.

A'r heul a oed yn uchel ar yr awyr uch eu ben, a'r gwres en uawr, ac e doeth kyscu arnaw. Sef a wnaeth y weisson ysteuyll castelli taryaneu en e gylch ar beleidyr gwaewr rac e tragwres. Tarean eurgrwydyr a dodasant a dan e ben, ac uelly e kyscus er amperauder.²²¹

Mae'n ddarlun eithaf sensitif, ac wrth i'r gweision godi'r tarianau o'i amgylch i'w amddiffyn, rydym yn gwybod yn syth ei fod yn ddyn o statws ac yn uchel ei barch wrth i'w ddynion ei amddiffyn rhag yr haul.

Dyma enghraifft anarferol o fynd yn erbyn côd ymddygiad y cyfnod yn *Breudwyt Ronabwy* gyda marchog yn tasgu dŵr dros Arthur a'r esgob:

Ac o'r korueu blaen y'r meirch y uynyd yn gy wynnet a'r alaw, ac o hynny y waeret yn gy duet a'r muchud. Sef y gwelynt varchawc yn racvlaenu ac yn brathu march yn y Ryt nny ysgeinwys y dwfyr am pen Arthur a'r escob ac a oed yn y kyghor ygyt ac wynt, nny oedynt kyn wlypet a chyt tynnit o'r auon.²²²

Dengys hyn amarch mawr tuag at gymeriad Arthur ac efallai nad yw'n cael ei weld yn gymeriad mor bwysig ac uchel ei statws yn chwedl *Breudwyt Ronabwy*. Gwelwn wahaniaeth mawr yn y portread arwrol a gawn o gymeriad Arthur yn *Kulhwch ac Olwen* a'r un a welwn yn yr enghraifft hon yn *Breudwyt Ronabwy*. Ni fentraï neb wneud hyn i Arthur gynt yn y llenyddiaeth Gymraeg.

Mae nifer o wahanol enghreifftiau o'r ystum o gyfarch i'w canfod yn y *Mabinogion* er enghraifft codi i gyfarch rhywun o statws, pen-glinio o flaen menywod megis breninesau yn yr Oesoedd Canol a chusanu ac ati. Ceir enghreifftiau o bobl yn mynd i drafferth arbennig i gyfarch arweinydd neu uchelwr:

ac ar y bylcheu ac ar y pyrth ac ym pob kyueir yd ymdoruynyglynt y gyuarch gwell ac uot yn llawen vrthunt.²²³

²²¹ BM 1: 14-8.

²²² BR 7: 24-30.

²²³ Gereint 6: 177-9.

Yn y dyfyniad yma sydd wedi'i godi o *Ystorya Gereint Uab Erbin* gwelwn fod pobl yn mynd allan o'u ffordd i gyfarch y gŵr yma sydd o ddirgelwch ac mae'n amlwg ei fod o bwysigrwydd mawr yn yr ardal. Ni cheir manylion llawn am sut y mae hyn yn digwydd ond pwysleisir y symud corfforol er mwyn cyfarch.

Yr enghraifft fwyaf nodedig o gyfarch yw codi i gyfarch. Mae'r traddodiad yma'n dal i fod yn rhan o'n moesgarwch hyd heddiw, a dyma enghraifft o chwedl *Manawydan Uab Llyr*:

Ar hynny, llyma Pryderi a Riannon. Kyuodi a oruc ynteu yn eu herbyn, a'y graessawu, ac eisted y gyt.²²⁴

Yn yr enghraifft hon, cwyd Manawydan i'w cyfarfod. Ymddengys mai Manawydan yw arglwydd y llys yn y fan hon gan mai ef sydd yn eu croesawu, ond llys Pryderi ydyw hwn, ond wrth gwrs dychwel Rhiannon a Pryderi i'r llys ar ôl eu caethiwo. Mae codi i gyfarch rhywun yn rhan o gôd ymddygiad y llys. Wrth iddynt gyd-eistedd mae hyn yn adlewyrchu bod pawb yn gyfartal unwaith eto.

Yn yr enghraifft yma o destun *Owein* cwyd y morynion ar gyfer Cynon:

A chyfodi a orugant ragof; a chwech onadunt a gymerth vy march ac a'm diarchenwys inneu; a chwech ereill onadunt a gymerth vy arueu ac a'e golchasant y mywn role hyny oedynt kyn Wynet a'r dim gwynaf; a'r dryded chwech onadunt a dodasant liein ar y byrdeu ac a arlwyasant bwyt; a'r petweryd chwech a diodassant vy lludedwisc a doddi gwisc arall ymdanaf, nyt amgen, crys a llawdyr o'r bliant, a ffeis a swrcot a mantell o bali melyn ac orffreis lydan yn y vantell. A thynnu gobennydeu amyl a thudedeu o'r bliant coch udunt y danaf ac y'm kylch. Ac eiste a orugum yna.²²⁵

Mae'r ffaith fod y menywod yn codi i gyfarch Cynon i'w disgwyl yn y cyfnod gan ei fod yn ymwelydd â'r llys a hefyd gan ei fod yn ddyn. Mae hyn yn wahanol i ni erbyn hyn felly gan na ddisgwylir i ferched godi ar gyfer dynion.

²²⁴ Manawydan 11: 362-3.

²²⁵ Owein 3-4: 64-73

Ceir enghraifft arall yn *Breudwyt Maxen Wledic* pan wêl Macsen y forwyn a welsai yn ei freuddwyd.

A chyuodi racdaw a oruc e vorwyn o'r gadeir eur a doddi a wnaeth enteu e dwy law am e mwnwgyl hi ac eisted a wnaethant ell deu en e gadeir eur.²²⁶

Wrth i'r forwyn godi i'w gyfarch adlewyrcha hyn ddau beth hefyd - safle'r ferch yn y gymdeithas a'i safle cymdeithasol, hynny yw ei bod yn forwyn a'r ffaith fod yr ymateb yma'n ddisgwylidig ohoni. Y mae'r ffaith fod Macsen yn rhoi ei ddwylo o amgylch ei gwddf yn adlewyrchu nad oes unrhyw ffurfioldeb yma ond fod cariad efallai yn dechrau.

Arweinia'r enghraifft flaenorol at fath gwahanol o gyfarch sydd yn llai ffurfiol sef y taflu breichiau o amgylch gwddf cymeriad arall sydd yn arwydd o anwylder mawr. Yn yr enghraifft yma mae Macsen yn taflu ei freichiau o amgylch gwddf y forwyn.

A mynnet dwylaw mw[45v]nygyl a oruc idi a'r nos honno e kysgwys genthi.²²⁷

Mae hyn dipyn yn llai ffurfiol na'r enghreifftiau eraill o gyfarchion a drafodwyd yn barod. Gallwn weld fod Macsen mewn cariad â'r forwyn yn y ffordd y mae'n ei chyfarch.

Dyma enghraifft arall sydd yn codi o *Breudwyt Maxen Wledic*, ond y tro hwn nid oes merch yma o gwbl ond yn hytrach anwylder sydd yma rhwng y dynion:

Ac yna y doeth Kynan vab Eudaf ac Adeon vab Eudaf y ymwelet a'r amherawdyr, ac y bu lawen yr amherawdyr wrthunt ac yd aeth dwylaw mynwgyl vdunt.²²⁸

Adlewyrcha'r ffordd y maent yn cyfarch ei gilydd agosatrwydd rhwng y ddau. Mae enghraifft arall o gyfarch fel hyn rhwng dau ddyn yn nhestun *Owein*:

A mynnet dwylaw mynwgyl y'r amherawdyr Arthur a oruc Owein, ac ymgaru a orugant. A dyfot a oruc y lu attunt yna gan ymsang a brys y geissyaw gwelet Owein y vynet dwylaw mynwgyl idaw; ac ef a uu agos bot calaned yn yr ymsag hwnnw.²²⁹

²²⁶ BM 3: 76-8.

²²⁷ BM 8: 221-2.

²²⁸ BM 9: 268-71.

Mae hyn yn gyfarchiad angerddol iawn sydd yn dangos gwir deimladau: mae'n amlwg fod y ddau'n agos iawn a bod Arthur yn trin Owain fel petai'n fab iddo.

Daw'r enghraifft nesaf o *Cyfranc Lludd a Llefelys* lle y mae'r ystum yma'n digwydd rhwng dau frawd,

A gwedy gwelet o Lud hynny, ef a edewis y holl longeu ar y weilgi allan dy eithyr vn llong, ac yn yr vn honno y doeth yn erbyn y vrawt. Ynteu y mywn vn llong arall a doeth yn erbyn y vrawt, a gwedy eu dyuot y gyt, pob un onadunt a aeth dwylaw mynwgyl y gilyd ac o vrawdoryawl garyat pob vn a resawawd y gilyd onadunt.²³⁰

Mae hyn yn ddarlun hyfryd wrth iddo ddangos yr agosatrywydd sydd rhwng y ddau frawd yma. Yn wahanol i ddynion Matholwch yn cyrraedd Ynys y Cedyrn, nid oes angen i Lludd ofyn caniatâd i Llefelys i ddod i'r lan, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ystum.

Ceir yr un math o sefyllfa eto gyda gwraig Custennin yn amlwg yn gyffrous iawn i weld Culhwch:

Redec oheni yn eu herbyn o lywenyd. Goglyt a oruc Kei ym prenn o'r gludweir, a'e dyuot hitheu yn eu herbyn y geissaw mynnet dwylaw mynwgyl udunt. Gossot o Gei eiras kyfrwg y dwylaw. Gwascu ohonei hitheu yr eiras hyt pan yttoed yn vden diednedic.²³¹

Mae'r enghraifft yma yn un hyfryd a naturiol iawn sydd yn adlewyrchu emosiynau gwraig Custennin yn ieithwedd ei chorff. Yn lle glynu at y côd ymddygiad, mae'n amlwg ei bod wedi cyffroi cymaint i weld Culhwch gan nad yw'n gallu rheoli hyn a rhed ato gyda'i breichiau'n agored i'w gofleidio. Mae'r ystum yma felly'n fwy amlwg pan fydd teuluoedd yn cyfarch ei gilydd. Daw yn amlwg gyda hyn ei bod hi'n perthyn i Culhwch ac felly mae iaith ei chorff yn dangos hyn cyn inni gael gwybod y ffaith yna.

²²⁹ Owein 20: 542-6.

²³⁰ LlaLL 3: 62-7.

²³¹ KO 17: 459-64.

Gwelir un enghraifft o gyfarchiad oeraidd yn digwydd yn *Breudwyt Ronabwy*,

Ac ar hynny nachaf y dynyon yn dyuot, gwr coch goaruoel gogrispin, a beich gwrysc ar y gefyn, a gwreic veinlas vechan, a chesseilwrn genti hithev. A glasressawu a wnaethant ar y gwyr.²³²

Mae'r enghraifft yma'n ddiddorol iawn, gan ei bod yn hollol wahanol i unrhyw beth arall yr ydym wedi ei weld hyd yn hyn. Mewn rhai enghreifftiau ceir sôn am gyfarch yn unig ond heb ddisgrifiad o sut y mae hyn yn digwydd, ond yn yr enghraifft hon cyfeirir at gyfarchiad oeraidd iawn, ond eto nid oes disgrifiad o sut y mae hyn yn digwydd.

Gall diffyg cyfarchiad gael yr un fath o effaith ar gymeriadau yn union â chyfarchiad oeraidd fel y gwelwn yn *Breudwyt Ronabwy*:

A chyuarch gwell a oruc y mackwy y Owein. A ryuedu o Owein y'r mackwy gyuarch gwell idaw ef ac nas kyfarchei y'r amherawdyr Arthur.²³³

Gwelwn yr un peth yn digwydd eto yn yr enghraifft ganlynol o'r un testun:

A chyuarch gwell idaw. A drwc yd aeth ar Owein gyuarch gwell idaw, ac ny bu waeth gan Arthur no chynt.²³⁴

Er nad oes disgrifiad o'r cyfarchiad yn yr enghreifftiau hyn, dim ond sôn am gyfarch yn well, gallwn weld syfrdandod Owain gan nad yw'r gwas yn cyfarch gwell i Arthur - mae hyn yn mynd yn erbyn y confensiwn gan mai ef yw'r dyn pwysicaf yn y llys ond mae'n amlwg oddi wrth ymateb Arthur mai camddealltwriaeth yw hyn.

Mae yna nifer o enghreifftiau yn y chwedlau lle mae emosiynau yn cael eu cyfleu trwy iaith y corff, fel rhyw fath o ymateb na ellir ei reoli, er enghraifft tristwch, hapusrwydd, cyffro neu dymer ddrwg ac ati. Ceir darlun dynol iawn o Brân yn y fan hon wrth iddo glywed am ddiodefaint Branwen yn yr ail gainc. Ceir gwrthgyferbyniad clir i'r arferol

²³² BR 2-3: 29-4.

²³³ BR 12: 13-6.

²³⁴ BR 13: 15-7.

ohono a geir yng ngweddill y gainc. Mae'n amlwg fod perthynas arbennig iawn rhwng Branwen a Brân fel brawd a chwaer:

Ac yna kymryt y llythyr a'y edrych. A phan darllewyd y llythyr, doluryaw a wnaeth o glybot y poen oed ar Uranwen, a dechreu o'r lle hwnnw peri anuon kennadeu y dygyuoryaw yr ynys honn y gyt. Ac yna y peris ef dyuot llwyr wŷs pedeir degwlat a seithugeint hyt attaw, ac e hun cwynaw wrth hynny, bot y poen a oed ar y chwaer.²³⁵

Gwelwn yn glir y tosturi gan Brân am ei chwaer sydd yn creu darlun sensitif iawn ohono, a datgela'r emosiwn o dristwch yn y fan hon drwy'r ddwy ferf 'doluryaw' a 'cwynaw' sydd yn datgelu poen y brenin wrth iddo ddarllen am driniaeth ei chwaer. Gwelwn nad yw Brân yn ofni dangos ei wir emosiynau er mai arweinydd cadarn ydyw sydd yn gyferbyniol i'r disgrifiad ohono fel cawr. Braidd yn annisgwyl yw'r ymateb hwn ganddo, gan y cysylltir y math hwn o ymateb â chymeriadau benywaidd.²³⁶

Ceir enghreifftiau yn y chwedlau o gymeriadau'n hapus iawn ac yn cyfleu'r emosiwn drwy wenu fel y gwelwn yn nhestun *Manawydan Uab Llyr*:

Gorawenu a wnaeth ynteu wrth decket yr eur²³⁷

Mae ymateb Pryderi fel petai wedi ennill trysor gwerthfawr gan ei fod yn 'gorawenu' sydd yn golygu 'llawenhau.' Mae'n amlwg yn cael ei ddenu at yr aur yma sydd eto'n nodweddiadol iawn o'i gymeriad ac yn arwain at ei gwmp ym mhedwaredd gainc y *Mabinogi*.

Yn yr enghraifft hon o chwedl *Owein* gwelwn fod gwenu'n gweithredu fel cyfathrebu aneiriol, wrth i'r dyn wenu ar Owain,

²³⁵ Branwen 9: 235-40.

²³⁶ Ceir enghreifftiau o gymeriadau benywaidd yn llefain nes ymlaen yn y traethawd ar dudalennau 139-140.

²³⁷ Manawydan 5: 165.

Ac yna edrych a oruc y gwr arnaf i, a gowenu,²³⁸

Mae *gwenu* yn rhan fawr o'r cyfathrebu aneiriol yma a welir yn y *Mabinogion*. Ond math gwahanol o wenu a geir yn yr enghraifft yma sef 'gowenu' sydd yn awgrymu tyndra ac ansicrwydd a gyflëir yn gynnwl iawn gan y storiwr.

Ceir enghraifft arall o hyn yn nhestun *Owein* gyda'r gwas penfelyn yn gwenu ar Owain:

A gowenu a oruc y gwr melyn a bot yn anawd gantaw menegi y Owein y kerdet hwnnw, mal y bu anawd gantaw y uenegi y Gynon.²³⁹

Dengys y math o wenu yma eto sef 'gowenu' yr ansicrwydd a geir yma, fel petai ganddo fath o anhawster i wneud rhywbeth. Gweithreda'r gwas yma fel math o arwyddbost eto fel Custennin yn chwedl *Kulhwch ac Olwen* gan roi'r wybodaeth i ddynion Arthur wrth iddynt fynd i chwilio am Olwen.

Yn yr enghraifft ganlynol, gwelwn fod Peredur yn gwenu:

A gowenu a wnaeth Peredur ar y melinyd a mynet y'r twrneimeint.²⁴⁰

Cawn gip ar ei feddwl wrth ddweud ei fod yn gwenu (wrtho'i hun, bron). Mae'n allwedd i ddeall pam y mae'n penderfynu mynd i'r twrneimeint. Dyma enghraifft arall o hyn yn digwydd eto yn *Historia Peredur Vab Efrac*

A gowenu a wnaeth hitheu, a dyfot yn yd oed Peredur.²⁴¹

Ceir enghraifft o gyfleu dicter yn *Ystoria Gereint Uab Erbin*. Mae'r tensiwn sydd rhwng y gŵr a'r wraig yma'n amlwg iawn yn y fan hon a'r ffordd y mae Geraint yn trin Enid yn wael iawn:

²³⁸ Owein 5: 97.

²³⁹ Owein 11: 253-5.

²⁴⁰ Peredur 54: 6-7.

²⁴¹ Peredur 65: 9-10.

Drychael y vyneb a oruc ynteu ac ydrych arnei yn llidiawc.²⁴²

Gwelwn ochr arall i bersonoliaeth Geraint yn y dyfyniad yma. Dim ond ceisio ei helpu y mae Enid, ond ymetyb yn gas iawn tuag ati.

Ceir ymateb mamol iawn gan Rhiannon wrth iddi sylweddoli bod Manawydan wedi dychwelyd adref heb ei mab, a thrwy ei chymeriad yn yr episod gwelir hi'n datgelu'r emosiwn o ofidio. 'Dioer,' heb y Riannon, 'ys drwc a gedymdeith uuost [t]i, ac ys da a gedymdeith a golleist [t]i.'²⁴³ Er hyn, y mae'n wahanol iawn i'w hymateb yn y gainc gyntaf. Pan gollodd hi Pryderi'r adeg honno, yn hytrach na bod yn famol, yr oedd hi'n poeni mwy am achub ei henw da ei hun nag am les ei mab:

A chan y geir hwnnw mynet allan, ac y traws y managassei ef uot y gwr a'r gaer, kyrchu a wnaeth hitheu. [71] Porth y gaer a welas yn agoret; ny bu argel arnei. Ac y mywn y doeth, ac y gyt ac y doeth, arganuot Pryderi yn ymauel a'r cawc, a dyuot attaw.²⁴⁴

Wrth edrych ar y dyfyniad yma gwelwn fod yna banig gwirioneddol yma am les ei mab ac ymetyb yn reddfod wrth iddi fynd i chwilio amdano heb oedi, ond mae'n gadael Manawydan yn y fan a'r lle i ganfod ei mab. Dengys hyn yr hen Rhiannon a welwyd yn y gainc gyntaf yn dychwelyd, yr un a oedd yn annibynnol, yn benderfynol ac yn gweithredu drosti hi ei hun. Fe ellid dadlau bod Rhiannon yn cyfleu agosatrywydd drwy ei hosgo gan nad yw hi am ei golli ef eto fel y collwyd ef yn y gainc gyntaf. Fe ddiffannodd Pryderi yn y gainc gyntaf ond nid oedd neb yn siŵr sut; yn y drydedd gainc â Rhiannon ato i'w arbed rhag diflannu, ond y tro yma fe ddiffannant ill dau.

²⁴² Gereint 27: 764-5.

²⁴³ Manawydan 6: 176-7.

²⁴⁴ Manawydan 6: 177-82.

Yn dilyn hyn yn nhestun *Manawydan Uab Llyr*, gwelwn yma angerdd a chariad mam sydd am achub ei mab, ac yn datgelu'r teimlad o anobaith:

Ac ymauael a'r cawc y gyt ac ef. Ac y gyt ac yd ymeueil, glyn y dwylaw hitheu wrth y cawc, a'y deutroet wrth y llech, hyt na allei hitheu dywedut un geir.²⁴⁵

Cydia hithau yn y cawg heb feddwl am y canlyniadau er mwyn ei achub. Yr hyn sydd yn eironig yw'r ffaith fod Pryderi am gael yr aur a Rhiannon am gael ei mab a'r ddau o ganlyniad wedi glynu wrth y cawg. Yr ysgogiad eto yw eu hemosiynau.

Mae emosiynau Gwydion yntau yn cael eu hadlewyrchu drwy ieithwedd ei gorff yn ogystal yn y bedwaredd gainc:

Ac ar hynny, kerdet e ymdeith drwy y lit a wnaeth, a chyrchu Caer Tathyl, ac yno y bu y nos honno. A thrannoeth kyudi a oruc, a chymryt y uab gyt ac ef, a mynet y orymdeith gan lan y weilgi rwng hynny ac Aber Menei.²⁴⁶

Gallwn weld yn y fan hon yr anobaith a deimla Gwydion at Arianrhod wrth iddo 'kerdet e ymdeith drwy y lit [a wnaeth],' Caiff hyn ei gyfleu'n glir trwy iaith ei gorff yn enwedig drwy'r berfau 'kerdet,' 'cyrchu,' 'cymryt,' a 'mynet,' sydd yn cyfleu'r osgo yma am iaith ei gorff. Hefyd mae'r enw 'llid' yn cyfleu'r tempo wrth iddo symud.

Cawn sawl enghraifft o gymeriadau'n colli rheolaeth yn llwyr ar eu hemosiynau. Gwelir yn yr enghraifft ganlynol o'r ail gainc fod Efnisien yn dinistrio'r meirch mewn ymateb i glywed fod ei chwaer wedi priodi Matholwch heb ei ganiatâd ef. Gwelir nad yw'n gallu rheoli ei emosiynau:

Ac yn hynny guan y dan y meirych, a thorri y guefleu wrth y danned udunt, a'r clusteu wrth y penneu, a'r rawn wrth y keuyn; ac ny caei graf ar yr amranneu, eu llad wrth yr ascwrn. A gwneuthur anfyryf ar y meirych yuelly, hyd nat oed rym a elit a'r meirych.²⁴⁷

²⁴⁵ Manawydan 6: 182-5.

²⁴⁶ Math 9: 281-4.

²⁴⁷ Branwen 3: 73-7.

Ceir darlun graffig a chreulon yma - caiff hyn ei adlewyrchu gan y dilyniant herciog, yr unedau bach byr sydd yn cyfleu'r torri. Mae manylder y cyfeirio at rannau o gorff y meirch yn dangos y tyndra sydd yn bodoli yng nghymeriad Efnisien, gan awgrymu fod ganddo broblemau seicolegol a'i fod yn gymeriad cymhleth iawn gan nad yw'n gallu rheoli ei emosiynau. Gwelwn ei fod yn gymeriad hynod o anodd ' . . . his motives for anger stem from real insults or threats, but his reaction is so dramatic that it transforms all sense of justice to outrage; he never deals with insult through legal channels, but answers with equally (if not even more) insulting behaviour,'²⁴⁸ meddai Valente. Dyma gychwyn thema sarhad yn stori Branwen ac yntau Efnisien yn gatalydd fel y noda Branwen Jarvis: 'un sydd yn achosi anghydfod, corddwr, yw Efnisien felly.'²⁴⁹

Y mae cymeriad Efnisien yn wych wrth ddangos y syniad o fethu â rheoli ei emosiynau, ond y tro hwn gwelir ef yn ymateb mewn ffordd annisgwyl iawn gyda Gwern sydd eto'n nodweddiadol o gymeriad seicotig:

A chyuodi y uynydd, a chymryt y mab erwyd y traet, a heb ohir, na chael o dyn yn y tŷ gauael arnaw, yny want y mab yn wysc y ben yn y gynneu.²⁵⁰

Ceir darlun mor ddiniwed o Gwern yn y fan hon yn mynd o un person i'r llall, gyda'r mab druan yn methu deall beth oedd i ddigwydd nesaf. Y mae hyn mor nodweddiadol o bersonoliaeth oriog Efnisien: nid yw'n meddwl am bethau ond yn hytrach mae'n gweithredu. Mae'r ffaith fod Efnisien yn dal Gwern gerfydd ei draed yn dangos ei fod ben i waered, ac yn ei drin fel rhyw fath o anifail, yn israddol iawn.

²⁴⁸ R. Valente, *Merched y Mabinogi. Women and the Thematic Structure of the Four Branches* Traethawd PhD anghyhoeddedig (Prifysgol Cornell, 1986), 195.

²⁴⁹ Branwen Jarvis, 'Yr Awdur a'i Gymeriadau: Y Portread o Efnisien yn Ail Gainc y Mabinogi', yn Jason Walford Davies, (gol.) *Gwledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas* (Abertawe, 2007), 66.

²⁵⁰ Branwen 14: 363-6.

Ceir darlun tra gwahanol o Manawydan yn y categori yma o'r drydedd gainc, un sydd yn eithaf doniol gydag ef yn methu â rheoli ei emosiynau (nad yw'n gydnaws â'i gymeriad ef).

Ac yna rwng dicter a llit, taraw ymplith y llygot a wnaeth. A mwy noc ar y gwydbet, neu yr adar yn yr awyr, ny chydremei ef ar yr un ohonunt wy; eithyr un a welei yn amdrom, ual y tebygei na allei un pedestric. Yn ol honno y kerdwys ef, a'y dala a wnaeth, a'y doddi a wnaeth yn y uanec, ac a llinin rwymaw geneu y uanec, a'y chadw gantaw, a chyrcu y llys.²⁵¹

Dengys hyn ymateb dig a byrbwyll Manawydan, ac mae'n amlwg nad yw'n meddwl yn iawn am beth mae'n ei wneud, hynny yw ei fod yn mynd i grogi llygoden. Mae hyn yn ddarlun eithaf doniol ohono gan ei fod yn ymateb mor eithafol ac yn awgrymu ei fod wedi colli ei bwyll.

Mae'r enghraifft nesaf o chwedl *Breudwyt Ronabwy* yn ddiddorol dros ben gydag Arthur yn colli ei dymer yn llwyr ac yn methu'n lan â rheoli ei emosiynau:

Ac yna y gwasgwys Arthur y werin eur a oed ar y clawr nny oedynt yn dwst oll, ac yd erchis Owein y Wers uab Reget gostwng y vaner. Ac yna y gostyghwyr ac y tagnouedwyt pob peth.²⁵²

Y mae hyn yn gwbl groes i gymeriad Arthur a gwelwn ef yn ymddwyn fel plentyn braidd gan nad yw'n cael ei ffordd ei hun, yn enwedig yn y gair 'gwasgwys' sydd yn pwysleisio'r colli tymer yma, a'i bendantrwydd. Ceir darlun go wahanol i'r arfer o gymeriad Arthur yn stori *Breudwyt Ronabwy* ac mae'r enghraifft yma'n ei nodweddu'n glir.

Mae'r enghraifft ganlynol yn ddiddorol iawn. Yr argraff a gawn o ddynion Arthur yw eu bod yn arwyr cryf sydd yn wynebu unrhyw beth heb ofni dim, ond yn y fan hon ceir

²⁵¹ Manawydan 8: 253-9.

²⁵² BR 18: 12-7.

gwrthddelwedd o'r dynion yn y ffordd y maent yn ymateb i her y marchog trahaus yn

Historia Peredur vab Efwrawc:

Sef a oruc pawb yna, estwg y wyneb rac adolwyn idaw uynet y dial sarhaet Wenhwyfar, ac yn tebic ganthunt na wnaei neb kyfryw gyflauan a honno, namyn o vot arnaw milwryaeth ac angerd neu hut a lletrith, mal na allei neb yndiala ac ef.²⁵³

Adlewyrchir hyn yn iaith eu cyrff a'r ffordd y maent yn 'estwg y wyneb.'²⁵⁴ Gwna pobl hyn heddiw mewn ystafell ddosbarth er enghraifft os nad ydynt am ateb cwestiwn er mwyn ceisio osgoi cwrdd â llygaid yr athro. Mae hyn yn wrthgyferbyniol iawn i ddynion Arthur fel y disgwylid iddynt ymddwyn a hyd yn oed yn gwneud iddynt ymddangos fel gwrtharwyr llwfr.

Gwelwn felly fod yna nifer o gyfeiriadaeth at gôd ymddygiad yn y *Mabinogion* yn amrywio o ymolchi a thynnu dillad ac esgidiau i wahanol ddulliau o gyfarch ac yn ymestyn i berthynas cymeriadau â'r llys hyd yn oed.

²⁵³ Peredur 12: 6-11.

²⁵⁴ Sonnir Burrow am yr ystum yma fel ystum o alar, ond gallwn weld fod ei bwylais yn yr enghraifft hon yn wahanol, er hyn mae'n dal i fod yn ystum negyddol, gw. Burrow, *Gestures and Looks*, 41.

Pennod 4: Safleoedd Cymeriadau.

Adran bwysig yn ymwneud ag iaith y corff yw eistedd a hefyd codi neu sefyll. Mae gan y rhain arwyddocâd arbennig fel y mae ganddynt o hyd i ryw raddau. Yn ogystal, perthyn rhai confensiynau a phatrymau eistedd a sefyll ac ati i sefyllfaoedd gwahanol ac i wahanol garfanau o'r gymdeithas yn yr Oesoedd Canol.

Ceir sawl enghraifft o gymeriadau'n eistedd yn y *Mabinogion* a rhaid cofio hefyd fod eistedd yn arwydd o bŵer ac o barch yn yr Oesoedd Canol e.e. bardd cadeiriog yn y cyfnod,²⁵⁵ cadair esgob, cadair neu orsedd brenin. Dywed Burnley: 'Seating is, of course, of great importance, because its position relative to the place occupied by the lord and lady is symbolic of status or of special honour.'²⁵⁶

Gwelir cymeriadau yn eistedd i siarad â'i gilydd ac i wledda yn ogystal. Mae hyn yn dra phwysig wrth inni weld y math o frawdoliaeth a grëir wrth i bobl gydrannu bwyd a diod. Tystia gweithiau Gerallt Gymro i hyn droeon fel y gwna llawer o ffynonellau eraill, ac mae'n gwbl amlwg fod diodydd cadarn yr un mor bwysig yn yr Oesoedd Canol a heddiw,²⁵⁷ ac wrth wraidd arferion cymdeithasol arwyddocaol. Dywed Magennis, *Food and Drink and their Consumption in Old English and Related Literature*: 'Drinking in Beowulf and poems in the same broad Germanic heroic tradition is essentially symbolic

²⁵⁵ Gw. Dafydd Jenkins, *The Law of Hywel Dda* (Llandysul, 1986), 20.

²⁵⁶ Burnley, *Courtliness and Literature*, 57.

²⁵⁷ J.S.P. Tatlock, *The Legendary History of Britain* (Berkeley, 1950), 370.

in significance. Vows made while drinking are seen as particularly solemn in Germanic tradition.²⁵⁸

Yn chwedl *Branwen Uerch Lyr* gwelwn wŷr Ynys y Cedyrn a'r Gwyddelod yn cydeistedd:

Ac yn gynebrwydet ac yd eistedyssant y bu duundeb y rydunt, ac yd ystynnwyd y urenhinaeth y'r mab.²⁵⁹

Wrth i'r ddwy garfan gydeistedd nodir eu bod ar yr un lefel ac yn gallu cymodi ar ôl yr holl ymladd drwy estyn y frenhiniaeth i Gwern.

Yn yr enghraifft nesaf gwelwn wŷr Rhonabwy yn eistedd gyda'r wrach i ofyn ble'r oedd dynion y llys:

A gwedy eu heisted gofyn a orugant y'r wrach pa du yd oed dynyon y ty, ac ny dywedei y wrach wrthunt namyn gwrthgloched.²⁶⁰

Mae'n amlwg yn yr Oesoedd Canol eu bod nhw'n eistedd i drafod yn ffurfiol ac i siarad.

Yn nhestun *Pwyll Pendeuic Dyuet* a rhai o'r chwedlau eraill, caiff merched eu canmol am fedru diddanu adeg gwledd. Sylwa Sioned Davies ar hyn hefyd: 'Yr oedd y ddawn i gynnal sgwrs yn un o'r rhinweddau pennaf, fel yr adlewyrchir yn gyson yn y chwedlau canoloesol...Dawn gymdeithasol bwysig ydoedd, ac fe'i cysylltir â'r ferch yn aml iawn.'²⁶¹

Gwelwn yr un math o sefyllfa'n digwydd eto yn chwedl *Kulhwch ac Olwen*:

²⁵⁸ Hugh Magennis, *Food and Drink and their Consumption in Old English and Related Literature* (Dublin, 1999), 21.

²⁵⁹ Branwen 13: 352-3.

²⁶⁰ BR 2: 27-9.

²⁶¹ Davies, *Crefft y Cyfarwydd*, 188.

Dygyrchu y ty a oruc, ac eistedd kyfrwg Kulhwch a'r dalueinc.²⁶²

Yn yr episod yma gwelwn fod Olwen yn eistedd ac yn ymuno â Culhwch wrth iddi esbonio'r dynged sydd ar ei thad Ysbaddaden Bencawr a bod rhaid iddo gyflawni'r tasgau er mwyn ei hennill. Gwelwn yn yr enghraifft yma fod y ddau eto ar yr un lefel o ran osgo. Atgyfnertha hyn eto sefyllfa arall o bobl yn eistedd i drafod o ddifrif.

Ceir enghraifft nodedig o gyfathrebu aneiriol yn y dyfyniad canlynol wrth i'r ewythr daro'r gobennydd a chymell Peredur i eistedd ac i ymuno ag ef yn *Historia Peredur vab Efracw*:

A tharaw y law a wnaeth y gwr ar tal y gobennydd ac erchi y'r macwy dyuot y eistedd ar y gobennydd. A chyteistedd ac ymddidan a orugant, a phan uu amser, gossot byrdeu a mynnet y uwyta. Ar neill law y gwr y dodet ef y eistedd ac y uwyta.²⁶³

Gwelwn yn yr enghraifft yma'r cyfeillgarwch rhyngddynt wrth i'r ewythr wneud yr arwydd hynny â'i law, ac eto gwelwn y ddau yn cyd eistedd i siarad.

A dychwelyd at *Kulhwch ac Olwen*, ceir darlun sydd yn werth ei nodi o Cai a Gwrhŷr Gwalstawd Ieithoedd yn eistedd ar ysgwydd yr eog wrth deithio ar eu hantur i ddarganfod Mabon:

Ac ysef yd aeth ar dwy ysgwydd yr Ehawc, Kei a Gwrhŷr Gwalstawt Ieithoed.²⁶⁴

Mae hyn yn ddelwedd eithaf doniol wrth inni feddwl eu bod nhw'n hedfan drwy'r awyr neu'r dŵr ar gefn pysgodyn. Pwysig yw nodi fod eogiaid yn cael eu cysylltu â doethineb gan y Celtiaid. Yr anifail hynaf yn yr episod yma yn stori *Kulhwch ac Olwen* yw'r eog ac

²⁶² KO 18: 499-500.

²⁶³ Peredur 17: 11-6.

²⁶⁴ KO 33: 908-10.

felly ef yw'r anifail doethaf, ac nid oes rhyfedd mai ef, felly, sydd yn gwybod am leoliad Mabon.²⁶⁵

Gwelwn yn yr enghraifft ganlynol o *Historia Peredur vab Efwrawc* fod Gwalchmai yn eistedd gyda'r gŵr cloff:

Ac val y daw y'r gaer neuad a welei, a drws y neuad yn agoret, ac y mywn y doeth. Ac ef a welei wŵr llwyt, cloff yn eisted ar tal y neuad a Gwalchmei yn eisted ar y neill law, a march Peredur a welei yn vn preseb a march Gwalchmei. A llawen uuant wrth Peredur, a mynnet y eisted a oruc y parth arall y'r gwr llwyt. Ac hynny vyd gwas melyn yn dyfot ar pen y lin ger bron Peredur ac erchi kerenhyd y Peredur.²⁶⁶

Wrth i Peredur eu gweld, â i eistedd gyda nhw. Hefyd gwelwn y gwas eto'n pen-glinio o flaen Peredur sydd yn dangos ufudd-dod ac israddoldeb iddo.

Nodir bod sawl cymeriad yn eistedd ar gadair a bod hyn yn gwahodd cymeriad arall i ymuno â nhw. Yn yr enghraifft nesaf o *Breudwyt Maxen Wledic* gwelwn fod y forwyn yn eistedd ar gadair:

Morwyn a welei yn eisted rac e vronn e mewn cadeir o rudeur. Nyt oed haus edrech arnei na disgwyl noc ar er heul pan vyd taeraf a thecaf rac y thecket hitheu. Krysseu o sidan gwyn a oed [42v] am e vorwyn a chayeu o rudeur rac e bron, a swrcot o bali eureit amdanei ac ysgin gyvryu a hi a thacde o rudeur en kennal yr ysgin amdanei a ractal o rudeur am y ben, rudem a gwen em en e ractal a mein mererit pob eilwers ac amperodron mein, a guregys o rudeur amdanei ac en decaf goluc o den edrech arnei. A chyuodi raddaw a pruc e vorwyn o'r gadeir eur a doddi a wnaeth enteu e dwy law am e mwnwgyll hi ac eisted a wnaethant ell deu en e gadair eur.²⁶⁷

Sonnir eto am y côd ymddygiad wrth i'r forwyn godi i'w gyfarch ac yna'r ddau'n cydeistedd ar gadair. Mae'r gadair wag yma fel petai'n temtio Maccsen i eistedd gyda hi.

²⁶⁵ Ceir sôn am hyn yn hen fytholeg Wyddeleg gyda hanes yr arwr ifanc Fionn mac Cumhaill pan yw'r coginio eog ac yn llosgi ei fys wrth gyffwrdd â'r eog. Yn naturiol rhoddai ei fys yn ei geg er mwyn arbed ar y boen ac yna fe etifedda holl wybodaeth a doethineb yr eog, gw. 'The Boyhood of Fionn', yn James Stephens, (gol.) *Irish Fairy Tales* (London, 1995), 33-90. Gwelir enghraifft arall am yr eog o hen fytholeg Aeleg yr Alban: gofynna'r eryr i'r eog am y noson oeraf y mae ef wedi phrofi, ac wedi i'r eog ei ateb, y mae'r eryr yn foddol ei fyd. Dyma ddangos eto ddoethineb yr eog, gw. 'Iolaire Loch Treig', yn Roibeard Ó Maolalaigh, *Scottish Gaelic in Three Months* (London, 1997), 201.

²⁶⁶ Peredur 69: 17-26.

²⁶⁷ BM 3: 67-78.

Gwelwn enghraifft o forwyn yn eistedd mewn cadair yn *Ystoria Gereint Uab Erbin* yn ogystal:

Ac nyd oed yn y pebyll namyn un uorwyn yn eiste mewn cadeir eureit, a chadeir arall gyuerbyn a hi yn waac. Sef a oruc Gereint, eiste yn y gadeir waac.²⁶⁸

Dysgwn fod cadair wag yno gyferbyn â'r forwyn. Ceir enghraifft ragorol o gyfathrebu aneiriol yn y fan hon yn ogystal wrth i Geraint gymryd hyn fel gwahoddiad i eistedd gyda'r forwyn; er hyn rhybuddia'r forwyn ef i beidio ag eistedd yno.

Ceir darlun go ddoniol wrth i gadair gael ei gosod o dan Culhwch er mwyn ei alluogi i wynebu Ysbyddaden Bencawr:

Kadeir a dodet y danaw, vyneb yn vyneb ac ef.²⁶⁹

Gwelwn wrth i'r gadair gael ei gosod oddi tano fod Culhwch ar yr un lefel â'r cawr i drafod tynged Olwen ei ferch.

Dyma enghraifft o eistedd i chwarae gwyddbwyll yn *Breudwyt Maxen Wledic*:

lleithigeu eureit a debygei e uot endi a byrdeu aryanneit. Ac ar lleithic kyuarwyneb ac ef y guelei deu vakwy yeueing wineuon en gware gwydbuyll. Claur areant a welei y'r wydbuyll a'e gwerin o rudeur.²⁷⁰

Mae'r wyddbwyll yn symbol sydd yn cynrychioli brwydr. Fe geir enghraifft arall o chwarae gwyddbwyll o *Breudwyt Ronabwy*, ond ni ddywedir yn y testun a yw Arthur ac Owain yn eistedd i chwarae'r gêm o gwbl.

Cyfeirir at nifer o bwysigion a berthyn i'r gymdeithas uchelwrol yn yr Oesoedd Canol yn eistedd ar len bali a hefyd yn gorwedd ar grwyn: dengys hyn eu statws yn ogystal â rhoi

²⁶⁸ Gereint 52: 1412-4.

²⁶⁹ KO 21: 564.

²⁷⁰ BM 2: 51-4.

awyrgylch mwy ymlaciol a meddal i'r olygfa ac i'r cymeriad. Yn yr enghraifft ganlynol o *Breudwyt Ronabwy* gwelwn fod Arthur yn eistedd ar len:

A thannu y llen o oruc rac bronn Arthur. Ac [a]ual rudeur wrth bop koghyl idi. A gossot y gadeir ar y llen, a chymeint oed y gadeir ac y gallei tri milwr yn aruawc eisted. Gwenn oed enw y llen. Ac vn o genedueu y llenn oed, y dyn y dottit yn y gylch, ny welei neb euo ac euo a welei bawp.²⁷¹

Gallwn weld ei statws uchel yn y gymdeithas bendefigaidd wrth iddo eistedd ar y llenni yma, yn hytrach nag eistedd ar y llawr. Gweithreda hyn fel math o garped er mwyn peidio â chyffwrdd â'r llawr, yn union fel y carped coch ar gyfer brenhinoedd a phendefigion heddiw.

Gwelwn enghraifft arall o'r un chwedl o Arthur yn eistedd ar lenni:

Ac eisted a oruc Arthur ar y llenn. Ac Owein uab Uryen yn seuyll rac y uron.²⁷²

Yn wahanol i'r enghraifft flaenorol mae ganddo gwmni yma. Gwelwn fod Owain yn is ei statws nag Arthur yn y ffordd y mae'n sefyll o flaen Arthur²⁷³ ac nid yw'r brenin yn codi i gwrdd ag ef, sydd yn dangos yn glir mai gan Arthur y mae'r grym a'r awdurdod.

Nodir enghraifft bellach o Arthur yn eistedd ar len yn *Historia Peredur Vab Efracw*:

Arthur a oed yg Kaer Llion ar Wysc, priflys idaw, ac yghanawl llawr y neuad yd oed petwar gwyr yn eisted ar len o bali, Owein vab Vryen, a Gwalchmei vab Gwyar, a Hywel vab Emyr Llydaw, a Pheredur Baladur Baladyr hir.²⁷⁴

Yn yr enghraifft hon gwelwn fod mwy o gwmni ganddo a'u bod nhw i gyd yn cydeistedd ar y llen bali.

Mae enghraifft eto o Arthur yn eistedd ar len bali yn nhestun *Owein*:

²⁷¹ BR 11: 15-22.

²⁷² BR 11: 23-5.

²⁷³ Trafoda Davies enghreifftiau eraill o eistedd mewn sefyllfaoedd tebyg, gw. Davies, 'On Being Seated', yn Cairns, (gol.) *Body Language*, 217-8.

²⁷⁴ Peredur 56: 17-21.

Ac ym perued llawr yr ystauell yd oed yr amherawdyr Arthur yn eisted ar demyl o irvrwyn, a llenn o bali melyngoch y danaw, a gobennyd a'e dudet o bali coch dan pen y elin.²⁷⁵

Yn wahanol i'r enghreifftiau blaenorol fe ddysgw'n fod yna glustog wedi cael ei osod o dan ei benelin i gynnal y rhan yma o'r corff. Hefyd sylwn fod Arthur yn eistedd yng nghanol y llawr sydd yn adlewyrchu mai ef yw'r canolbwynt.

Nid yn unig Arthur sydd yn pwysu ar obennydd: ceir cyfeiriad yn *Ystoria Gereint Uab Erbin* at hen fenyw a'i morwyn yn eistedd ar obennydd:

Ac yn y lloft y gwelei gohenwreic yn eisted ar obennyd, a hen dillat atueiledic o bali amdanei. A ffan uuassei yn y llawn ieuengtut tebic oet ganthaw na welsei neb wreic degach no hi.²⁷⁶

Gellir dadlau fod y ffaith fod yr hen fenyw yn gwisgo dillad carpiog yn awgrymu rhyw fath o sofraniaeth goll.²⁷⁷

Ceir sawl cyfeiriad at bobl yn eistedd mewn llefydd arbennig yn ogystal, er enghraifft yn Harlech a Gorsedd Arberth.²⁷⁸ Yn yr enghraifft hon o'r ail gainc gwelwn fod Brân yn eistedd mewn lle arbennig sef ar graig Harlech:

Ac yn eisted yd oedynt ar garrec Hardlech, uch penn y weilgi, a Manawydan uab Llyr y urawt y gyt ac ef, a deu uroder un uam ac ef, Nissyen, ac Efnysseyen, a guyrda y am hynny, mal y gwedei ynghylch brenin.²⁷⁹

Awgryma'r dyfyniad ei fod yn uwch yn gorfforol ac o ran ei statws na'r bobl eraill. Mae hyn yn cyd-fynd â'r syniad fod eistedd yn arwydd o awdurdod. Ond hefyd mae'r llys ar

²⁷⁵ Owein 1: 10-2.

²⁷⁶ Gereint 7: 197-200.

²⁷⁷ Am drafodaeth ar sofraniaeth gw. Glenys Goetinck, *Peredur: A Study of Welsh Tradition in the Grail Legends* (Cardiff, 1975), 129-156.

²⁷⁸ Trafoda Davies sut mae eistedd yn y lleoedd yma yn awyddo grym a statws, gw. Glenys Davies, 'On Being Seated: Gender and Body Language in Hellenistic and Roman Art', yn Cairns, (gol.) *Body Language*, 216.

²⁷⁹ Branwen 1: 3-7.

ben craig uchel. Sonnir yn y naratif am ei frawd ar ochr ei dad yn gyntaf cyn sôn am ei frodyr ar ochr ei fam, a hyn yn adlewyrchu'r pwyslais patriarchaidd yn y cyfnod.

Yn chwedl *Kulhwch ac Olwen* cyfeirir at Cai a Bedwyr yn eistedd ar ben Pumlumon:

Pan yttoed Gei a Bedwyr yn eistedd ar ben Pumlumon ar Garn Gwylathyr, ar wynt mwyaf yn y byt, edrych a wnaethant yn eu kylch, ac wynt a welynt vwc mawr parth a'r deheu, ym pell y wrthunt heb drosi dim gan y gwynt.²⁸⁰

Dyma ddarlun eithaf hamddenol ohonynt yn eistedd yn y man arbennig yma. Un o gopâu mynydd-dir Pumlumon yw Carn Gwylathr er na fedrir bod yn sicr pa gopa ydyw. Mae fel petaent ar ben y byd lle gallant weld pawb a phopeth, a bod mewn man canolog a oedd, o bosibl, ag arwyddocâd symbolaidd fel 'bogail' y wlad.

Mae nifer o enghreifftiau o bobl yn eistedd ar fryncyn neu 'orsedd'²⁸¹ hefyd a chynneddf arbennig i'r lle, ac yna rywbeth da neu ddrwg yn digwydd i'r person neu'r bobl sydd yn eistedd yno. Yn y dyfyniad nesaf o *Historia Peredur Vab Efwrawc*, gwêl Peredur ferch yn eistedd ar orsedd (fel arfer digwydd rhywbeth arbennig mewn sefyllfa fel hon oherwydd cynneddf yr orsedd):

A gwedy eu diflannu hyt nas gwelei, yna y kyfaruu ac ef, yn eistedd ar ben cruc, y wreic tecaf o'r a welsei eirot.²⁸²

Rhydd merch garreg yn ei law ac yna diflanna'r ferch, sydd yn dangos yr elfen arallfydol sydd i'r stori.

²⁸⁰ KO 34: 953-6.

²⁸¹ Am drafodaeth ar y term hwn, gw. Patrick Sims-Williams, *Irish Influence on Medieval Welsh Literature* (Oxford, 2011), 59-63.

²⁸² Peredur 47: 9-11.

Yn yr enghraifft nesaf o'r gainc gyntaf, eistedd Pwyll ar yr 'orsedd' a gwêl Rhiannon, ei ddarpar wraig, am y tro cyntaf yno:

Eisted a wnaeth ar yr orssed. Ac wal y bydynt yn eisted, wynt a welynt gwreic ar uarch canwelw mawr aruchel, a gwisce eureit, llathreit, o bali amdanei, yn dyuot ar hyt y prifford a gerdei heb law yr orssed. Kerdet araf guastat oed gan y march ar uryt y neb a'y guelei, ac yn dyuot y ogyuuch a'r orssed.²⁸³

Mae hyn yn episod allweddol yn chwedl *Pwyll Penduic Dyuet* gan mai dyma'r tro cyntaf i ni'r darllenwyr gwrdd â Rhiannon. Dywed Miranda Green am hyn:

The supernatural status of Rhiannon manifests itself in other ways: she first met Pwyll when he was at the Gorsedd Arberth, a magical, perhaps liminal, place where the Otherworld imposed its strange values on the world of humans. Any person within the Gorsedd either suffered wounding or encountered a wondrous spectacle or event: for Pwyll, it was his first sight of Rhiannon.²⁸⁴

Cawn enghraifft arall yn nes ymlaen yn y chwedl lle mae Rhiannon yn ymddangos wrth i Pwyll fynd i eistedd ar yr orsedd:

Dyuot yr orssed a orugant y eisted. Ny buant hayach o enkyt yno nny welynt y uarchoges yn dyuot yr vn ford, ac yn un ansawd, ac vn gerdet.²⁸⁵

Mae'r ffaith fod Pwyll wedi eistedd ar yr orsedd am gyfnod mor fyr cyn i Rhiannon ymddangos yn adlewyrchu tensiwn wrth iddo adeiladu at uchafbwynt. Mae yna ruther amser yma wrth iddo godi a dechrau mynd ar ei hôl.

Gwelwn ŵr mawr du yn eistedd ar yr 'orsedd' yn chwedl *Owein*:

A'r gwr du a oed yno yn eisted ymphen yr orssed. Mawr y dywawt y gwr y mi y vot ef: mwy o lawer oed ef no hynny. A'r ffon hayarn a dywedassei y gwr vot llwyth deuwr yndi, hyspys oed genhyf i, Gei, vot yndi llwyth petwar milwr. Honno a oed yn llaw y gwr du.²⁸⁶

Cyfeirir at faint enfawr y gŵr yma a hefyd wrth fanylu ar y 'du,' awgrymir rhywbeth sinistr. Gweithreda fel math o arwyddbost sydd yn fotiff yn y chwedlau: atgoffir ni o

²⁸³ Pwyll 8: 201-7.

²⁸⁴ Green, *Celtic Goddesses*, 52.

²⁸⁵ Pwyll 10: 261-3.

²⁸⁶ Owein 6: 122-6.

Custennin gyda charfan Culhwch sydd yn chwilio am Olwen yn chwedl *Kulhwch ac Olwen*.

Cawn ddarlun nodweddiadol o ymerawdwr yn eistedd ar ei 'orsedd' o flaen ei wlad yn *Breudwyt Maxen Wledic*:

Ac yna y kerdwys Maxen yn y luyd parth a Rufein ac yn y gweres cynnwys Ffreinc a Bwrgwin a'r holl wladoedd hyt yn Rufein, ac yd eistedawd wrth y gaer Rufein.²⁸⁷

Mae hyn yn ddarlun cryf o bŵer yn y cyfnod sydd o dan sylw. Fel y dywed Glenys Davies am gelf yr Hen Fyd, 'a seated posture is also used to underline the high status of the protagonist in relation to those around him on a series of sarcophagi which show a victorious general magnanimously sparing the conquered.'²⁸⁸

Yn y chwedlau ceir nifer o gyfeiriadau at drefn eistedd yn enwedig mewn sefyllfaoedd gwledda. Amlygir y drefn eistedd yn y wledd pwy yw'r bobl bwysig sydd yno. Yr agosaf yr ydych yn eistedd at berchennog y llys yna fe adlewyrcha hyn eich statws cymdeithasol. Noda Gerallt Gymro fel a ganlyn: 'You sit down in threes, not in pairs as elsewhere, and they put the food in front of you, all together, on a single large trencher containing enough for three, resting on rushes and green grass.'²⁸⁹ Daw'r enghraifft gyntaf o'r drefn eistedd o chwedl *Pwyll Penduic Dyuet*:

ac eisted a wnaethant ual hynn - y urenhines o'r neill parth idaw ef, a'r iarll, deby(6)gei ef, o'r parth arall. A dechreu ymdidan a wnaeth ef a'r urenhines. Ac o'r a welsei eiryoet wrth ymdidan a hi, disymlaf gwreic a bonedigeidaf i hannwyt a'y hymdidan oed. A threulaw a wnaethant bwyt a llyn a cherdeu a chyuedach. O'r a welsei o holl llysoed y dayar, llyna y llys diwallaf o uwyt a llyn, ac eurllestri, a theyrndlysseu.²⁹⁰

²⁸⁷ BM 9: 251-9.

²⁸⁸ Davies, 'On Being Seated', yn Cairns, (gol.) *Body Language*, 219.

²⁸⁹ Thorpe, *Gerald of Wales*, 236.

²⁹⁰ Pwyll 4: 85-92.

Mae'r ffaith fod Pwyll yn eistedd gyda'r frenhines a'r iarll yn dangos ei fod yn gymeriad o statws ac yn uchel ei barch yng nghymdeithas y cyfnod. Cyfeiria Pwyll at 'ymddiddan' rhyngddo ef a'r frenhines, a dengys hyn un o nodweddion pwysig menywod yr Oesoedd Canol (a hefyd bod angen i fenywod wybod pryd i siarad a phryd i gadw'n dawel). Gwelir enghraifft o hyn yn nhestun *Ffordd y Brawd Odrig*: 'Pan eistedo yr amherawdyr uchot yn y eistedua, y vrenhines a eisted ar y tu assw ydaw, ac o vn rad is y llaw yd heisted dwy wraged, y rei yd aruer y brenin ohonunt pryt nab o dedyf ydaw gysgu y gyt a'e wreic ehun.'²⁹¹ Gwelwn felly nad confensiwn a oedd yn perthyn i'r traddodiad Cymraeg yn unig oedd hyn ond i'r traddodiad Ewropeaidd ehangach yn ogystal.

Ceir enghraifft arall o chwedl *Pwyll Pendeuic Dyuet*:

Sef ual yd eistedyssont, Heueyd Hen ar neill law Pwyll, a Riannon o'r parth arall idaw; y am hynny (20) pawb ual y bei y enryded. Bwyta a chyuedach ac ymdidan a wnaethont.²⁹²

Y tro hwn eistedd Pwyll rhwng ei ddarpar dad-yng-nghyfraith a'i ddarpar wraig. Sonia Charles-Edwards fod y cynlluniau eistedd yma yn adlewyrchu rhan o gôd ymddygiad y llys:

The seating arrangement prescribed in the laws required a hall of a particular type; rules for accommodating those not lodged in the *llys* itself in the houses of the adjacent township did not apparently need to take account of the particular topographies of different royal settlements.²⁹³

Mae'r enghraifft nesaf yn ddiddorol gan fod Teyrnnon yn eistedd rhwng Pwyll a Rhiannon adeg gwledda yng nghainc gyntaf y *Mabinogi*:

Y'r yneud yd aethont, ac y ymolchi. A llawen uu Pwyll wrth Teirnon, ac y ested yd aethont. Sef ual yd eistedyssont - Teirnon y rwg Pwyll a Riannon, a deu gedymdeith Teirnon uch llaw Pwyll, a'r mab y ryingthunt.²⁹⁴

²⁹¹ Stephen J. Williams, (gol.) [XVI. Yr Ymherodr Kan De Cattai, A Gwychder ei Lys.] *Ffordd Y Brawd Odrig* (Caerdydd, 1929), 51.

²⁹² Pwyll 12: 306-9.

²⁹³ Thomas Charles-Edwards, 'Food, Drink and Clothing in the Laws of the Court', yn Charles-Edwards et al. (goln), *The Welsh King and his Court*, 320.

²⁹⁴ Pwyll 21-22: 600-4.

Eistedd Teyrnnon rhyngddynt gan mai ef a ddarganfu fab Pwyll a Rhiannon, felly gwelwn fod y wledd yma'n fath o wobr iddo am ddychwelyd y bachgen yn ddiogel.

Ceir enghreifftiau o drefn eistedd yn cael ei phwysleisio yn chwedl *Branwen Uerch Lyr*:

Yn Aberfraw dechreu y wled, ac eisted. Sef ual yd eistedyssant: brenhin Ynys y Kedeirn, a Manawydan uab Llyr o'r neill parth idaw, a Matholwch o'r parth arall, a Branwen uerch Lyr gyt ac ynteu.²⁹⁵

Yn yr enghraifft yma cyfeirir at Branwen, ac yn y manylion eistedd yma, hi sydd yn dod olaf yn y rhestr a adlewyrcha safle menywod fel bodau eilradd yn yr Oesoedd Canol. Pennir ei heisteddle hi yn ôl statws ei gŵr.

Gallwn weld fod Gwydion yn gymeriad pwysig wrth iddo gael ei roi i eistedd ar naill law

Pryderi yn y llys yn y bedwaredd gainc:

Ef a aeth, a Giluathwy, a deguyr gyt ac wynt, hyt yg Keredigyawn, yn y lle a elwir Rudlan Teiui yr awr hon; yd oed llys yno y Pryderi; ac yn rith beird y doethant ymywn. Llawen uuant wrthunt. Ar neillaw Pryderi y gosodet Gwydion y nos honno.²⁹⁶

Gwydion sydd nesaf at berchennog y llys sydd yn adlewyrchu ei statws.

Mae enghraifft o'r Brenin Arthur yn *Breudwyd Ronabwy* yn nodi trefn eistedd arbennig:

Sef y gwelynt Arthur yn eistedd mywn ynys wastat is y Ryt, ac o'r neillparth idaw Betwin escob, ac o'r parth arall Gwarthegynt vab Kaw.²⁹⁷

Ceir darlun eithaf personol o Arthur yn eistedd yn y fan hon gyda'r esgob. Mae'r ffaith fod Arthur yn eistedd yn y canol yn adlewyrchu ei bŵer a'i statws yn uwch na'r esgob.

Gwelwn yr enghraifft ganlynol yn nhestun *Owein*:

A mynet a orugant y vwyta, ac eisted a oruc yr iarll ar y neill law y Owein, ac vu verch oed idaw ar y tu arall y Owein; a diheu oed gan Owein na welas eiryoet vn vorwyn delediwach no honno.²⁹⁸

²⁹⁵ Branwen 2-3: 52-4.

²⁹⁶ Math 2: 45-9.

²⁹⁷ BR 6: 10-3.

Mae'n amlwg fod y ferch yn bwysig yn y stori yma gan ei bod yn eistedd mor agos at Owain a'i fod ef yn eistedd mor agos at ei thad.

Dyma enghraifft ddiddorol yn *Historia Peredur Vab Efracw*:

Ac y doethant parth a llys yr iarllles, a llawen uuwynt wrthunt yn y llys, a dywedut wrthunt a wnaethpwynt, nat yr amarch arnunt y dodit is llaw y teulu, namyn kynnedyf y llys a oed y velly. Kanys y neb a uyrrei y thrychanhwr teulu hi, bwyta a gaffei yn nesaf idi, a hi a'e karei ef yn uwyhaf gwr. A gwedy bwrw o Peredur y thrychanhwr teulu y'r llawr ac eistedd ar y neill law,²⁹⁹

Yn wahanol i'r enghreifftiau eraill gwelwn mai'r Iarllles yw'r un â'r pŵer yn y sefyllfa yma. Mae hyn yn ddiddorol gan nad oedd gan ferched y math hwn o bŵer yn yr Oesoedd Canol fel arfer, ac mae'r ffaith fod Peredur yn eistedd wrth ei hochr yn arwydd o hyn. Yn dilyn yr enghraifft yma gwelwn yn nes ymlaen yn y stori fod serch yn blodeuo rhwng y ddau:

Tranoeth ef a aeth y ymwelet a hi, a phan deuth y'r pebyll nyt oed gyfeir ar y pebyll a uei waeth y gywirdeb no'e gilyd, kany wydynt a uei waeth y gywirdeb no'e gilyd, kany wydynt wy py le yd eistedei ef. Eistedd a oruc Peredur ar neill law yr amherodres, ac ymdidan a wnaeth yn garedic.³⁰⁰

Nodir eu bod yn eistedd gyda'i gilydd tra eu bod yn sgwrsio ac felly ar yr un lefel o ran osgo.

Gallwn weld o'r enghraifft hon fod Peredur yn gymeriad o statws uchel wrth iddo gael ei osod i eistedd rhwng y forwyn a'i thad:

Ynteu a doeth yn yd oed Peredur, a chyfarch gwell idaw a wnaeth, a dywedut idaw y gwasanaeth a wnathoed, y talei idaw megys y mynhei e hun. A phan aethpwynt y uwytta, Peredur a dodet ar neill law y brenin, a'r vorwyn y parth arall y Peredur.³⁰¹

Adlewyrcha hyn mai ef yw'r ymwelydd â'r llys yn ôl manylion ei eisteddle, sef nesaf at berchennog y llys. Ceir yr un math o enghraifft yn *Ystoria Gereint Uab Erbin*:

²⁹⁸ Owein 27: 719-22.

²⁹⁹ Peredur 50: 7-14.

³⁰⁰ Peredur 55: 7-11.

³⁰¹ Peredur 65-66: 26-30.

Gereint a eistedawd y rwg y gwr gwynllwyd a'y wreic, a'r uorwyn a wasanaethawd arnunt. A bwyta ac yuet a orugant.³⁰²

Gwelwn fod Geraint yn eistedd rhwng perchnogion y llys a'u bod yn cael eu gwasanaethu gan forwyn, ac mae hyn oll yn adlewyrchu eu statws. Nid yn unig eisteddle Geraint y marchog sydd yn bwysig yn nhestun *Ystoria Gereint Uab Erbin* ond hefyd eisteddle ei wraig Enid:

Sef ual yd eistdyssant: Gereint a uu o'r neill tu y'r iarll, ac Enyt o'r tu arall: yn nesaf y Enyt y Brenhin Bychan; o'dyna y iarll yn nesaf y Gereint; pawb gwedy hynny ual y gwedei udunt.³⁰³

Caiff y ddau gydnabyddiaeth yn y drefn eistedd, er taw Geraint sydd yn cael ei enwi gyntaf (a dyma sydd yn ddisgwylidig yn y cyfnod), mae'r ffaith fod Enid yn eistedd yno gydag ef a'r Brenin Bychan yn dangos ei bod hithau'n gymeriad o statws yn sgil statws ei gŵr.

Cyfeirir at y gŵr llwyd yn eistedd ar ben y bwrdd yn *Historia Peredur Vab Efracw*:

A'r gwr llwyd a aeth y pen y bwrdd yn [147] uchaf a'r wreic ohen yn nesaf idaw, a Pheredur a'r uorwyn a dodet y gyt, a'r deu was ieueinc yn gwasanaethu arnadunt.³⁰⁴

Wrth iddo eistedd yn y safle hwnnw, nodir mai ef yw pen y bwrdd a hefyd Arglwydd y llys. Fe weinir arno ef a Peredur a dengys hyn fod y ddau gymeriad o statws uchel.

Yn cyferbynnu â'r hyn a drafodwyd yn barod, ceir ambell enghraifft o ddiffyg trefn eistedd yn rhai o'r chwedlau. Yn yr enghraifft yma sydd yn dod o chwedl *Branwen Uerch Lyr* maent yn cydeistedd ac yn gwledda yn Harlech ar ôl y brwydro yn Iwerddon:

Ac yna y kyrchysant wynteu Harlech, ac y dechreusant eisted, ac y dechreuwyd ymdiwallu o uwynt a llyn. Ac y [gyt ac y] dechreuysant wynteu uwynta ac yuet, dyuot tri ederyn, a dechreu canu udunt ryw gerd, ac oc a glywssynt o gerd, diuwyn oed pob un i wrthi hi.³⁰⁵

³⁰² Gereint 8: 222-4.

³⁰³ Gereint 51: 1375-8.

³⁰⁴ Peredur 37: 15-8.

³⁰⁵ Branwen 16: 425-9.

Mae diffyg manylion ynghylch y drefn eistedd yn dangos yr agwedd fwy ymlaciol sydd i'r sefyllfa yma ac mae'n dangos fod pawb ar yr un lefel, efallai oherwydd eu bod nhw i gyd yn teimlo'r boen a'r golled wedi'r brwydro.

Digwydd yr un peth yn chwedl *Manawydan Uab Llyr*:

A dechreu gwled a orugant yn Arberth, canys prif lys oed, ac ohonei y dechreuit pob anryded. A guedy y bwyta kyntaf y nos honno, tra uei y gwasanaethwyr yn bwyta, kyuodi allan a orugant, a chyrchu Gorsedd Arberth a wnaethant yll pedwar, ac yniuer gyt ac wynt. Ac ual y bydant yn eisted yuelly, llyma dwrwf, a chan ueint y twrwf, llyma gawat o nywl yn dyuot hyt na chanhoed yr un ohonunt wy y gilid.³⁰⁶

Cyfeiria'r enghraifft hon at Manawydan, Rhiannon, Pryderi a Cigfa yn cydeistedd ac yn gwledda ac yna mae'r pedwar yn mynd i weld beth oedd y twrw y tu allan. Mae hyn braidd yn rhyfedd yn y dyfyniad yma gan na fyddem yn disgwyl i'r menywod fynd gyda'r dynion i weld beth yw'r sŵn. Nodir eu bod yn eistedd mewn lle arbennig eto, sef Gorsedd Arberth (cofiwn eto fod yna gynneddf arbennig i'r lle yma). Adeilada hyn densiwn yn y naratif: 'Ac ual y bydant yn eisted yuelly,' ac awgryma ei fod yn arwain at uchafbwynt.

Yn gyferbyniol i eistedd cawn sawl enghraifft o godi neu sefyll fel rhan o osgo cymeriadau. Mae hyn yn ddiddorol gan fod yr osgo yn adlewyrchu statws y cymeriadau.

Yn yr enghraifft hon o *Historia Peredur Vab Efwrawc* cwyd y morynion i ddiosg dillad y marchog wrth iddo gerdded i mewn:

A'r mo[153]rynyon a gyfodasant yn y erbyn, a diot y wisc y amdanaw a wnaethant ac ynteu a aeth y eisted. A gwedy dyfot y Pwyll idaw ac arafhau, edrych a oruc ar Peredur,³⁰⁷

³⁰⁶ Manawydan 2: 53-9.

³⁰⁷ Peredur 43: 18-22.

Ymetyb y morynion yn syth i bresenoldeb y marchog yn y llys, ac adlewyrcha hyn eto gôd ymddygiad y cyfnod.

Yn yr enghraifft nesaf o'r gainc gyntaf gwelwn taw Pwyll yw pennaeth y tŷ wrth iddo godi i gyfarch y llys:

Ef a gyuodes Pwyll y uynyd, a pheri dodi gostec y erchi y holl eircheit a cherdoryon dangos, a menegi udunt y llonydit pawb ohonunt wrth y uod a'y uympwy. A hynny a wnaethpwyd. Y wled honno a dreulwyt ac ny ommedwyt neb tra barhaawd.³⁰⁸

Gallwn weld mai Pwyll yw'r dyn sydd â'r pŵer erbyn hyn, y dyn sydd yn rhedeg y sioe. Mae Rhiannon erbyn hyn yn fwy tawel ac yn ymostyngar iawn i'w gŵr. Gellir dadlau fod newid yma yn ei chymeriad wedi iddi briodi a'i bod wedi colli'r natur a oedd yn fwy annibynnol i'w chymeriad. Dywed Fiona Winward amdani: 'In Rhiannon's case the impact of motherhood is particularly evident, since it follows the lively orchestration of her courtship as a spirited and forceful single woman.'³⁰⁹

Gwelwn Arthur yn codi i gymryd cyngor yn *Breudwyt Ronabwy*:

Sef a wnaeth Arthur kyuodi a mynnet y kymryt kyghor. Sef yd aeth tu a'r lle yd oed gwr pengrych gwineu mawr rynawd y wrthaw.³¹⁰

Cwyd i gyfarfod â'i ddynion er mwyn cael cyngor pobl eraill. Yn yr enghraifft nesaf o'r un stori cwyd Cai a datgan ei gefnogaeth i Arthur:

Ac yna y kyuodes Kei³¹¹

³⁰⁸ Pwyll 16: 432-6.

³⁰⁹ Fiona Winward, 'Some Aspects of the Women in the Four Branches', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 34 (1997), 97.

³¹⁰ BR 19: 5-6.

³¹¹ BR 21: 1.

Mae'r ffaith ei fod yn codi'n atgyfnerthu mai gwneud safiad dros Arthur y mae, hynny yw ei fod yn cefnogi ei frenin ac yn codi i wynebu'r sialens a datgan ei gefnogaeth drwy ddefnyddio'i gorff i wneud hyn.

Digwydd hyn yn chwedl *Kulhwch ac Olwen* wrth i Cai godi ar ei draed pan gyflwynir ef fel rhan o osgordd Arthur:

Kyuodi yna Kei.³¹²

Gallwn weld fod y sefyll yma'n adlewyrchu ei gryfder fel sydd yn y disgrifiad ohono a hefyd yn symboleiddio'r ufudd-dod drwy gydnabod awdurdod Arthur.

Cwyd Custennin y bugail yn yr enghraifft nesaf:

Kyuodi a oruc yr heusawr y uynyd. Mal y kyuyt, rodi modrwy eur a oruc Culhuch itaw. Keissaw gwiscaw y uodrwy ohonaw ac nyd a[e]i idaw, a'y doddi a oruc ynteu ymys y uanec, a cherdet a oruc adref a roti y uanec ar y kymhar. A chymryt a oruc hitheu y uodrwy o'r uanec.³¹³

Cwyd ef i gydnabod awdurdod dynion Arthur a hefyd statws Culhwch.³¹⁴ Yn yr enghraifft ganlynol gwelwn Arthur a'i filwyr yn codi i fynd ar antur i geisio Eidoel:

Kyuodi a oruc Arthur a milwyr Ynys Prydein gantaw y geissaw Eidoel³¹⁵

Wrth iddynt godi dangosir eu bod yn barod am y sialens.

Saif Peredur ac edrych ar yr hyn a welai y tu allan i'r ffenest – mae'n amlwg ei fod wedi gwirioni gyda'r sefyllfa yn *Historia Peredur Vab Efracw*:

Seuyll a ryuedu a wnaeth y mab, gweled y dwy hynny heb gyrrn a chyrrn y bob un o rei ereill, a thybygu eu bot yn hir ar goll ac am hynny rygolli eu kyrrn onadunt.³¹⁶

³¹² KO 14: 384.

³¹³ KO 16: 440-5.

³¹⁴ Sonnir Davies am enghraifft pan nad yw Julius Cesar yn codi i gydnabod y *Senate*, ac mae'r weithred hon yn arwain at bobl i'w gasáu yn nes ymlaen gw. Davies, 'On Being Seated', yn Cairns, (gol.) *Body Language*, 218.

³¹⁵ KO 31: 829-30.

Mae'r disgrifiad hir yma'n cyfleu syndod stond Peredur wrth weld hyn, ac mae'r oedi yn y naratif yn amrywio'r tempo sydd yn tynnu sylw'n effeithiol at yr hyn a wêl.

Eto yn *Historia Peredur Vab Efracw* mae'n amlwg fod y marchog yn ddig wrth glywed y newydd fod Peredur wedi bod i'w babell ac wedi ceisio cusanu ei gymar, a'i ymateb cyntaf yw codi ar ôl siarad â hi i chwilio am Peredur:

A chyudi a oruc ymlaen y marchawc y ymgeissaw a Pheredur.³¹⁷

Dengys hyn ei fod ef yn barod am y sialens eto ac yn benderfynol o ddarganfod Peredur.

Cwyd Peredur yn yr enghraifft nesaf ac yntau'n barod i fynd ar ei antur.

Pan doeth y dyd gyntaf, kyfodi a oruc Peredur a chymryt [129] y varch, a chan ganat y ewythyf kychwyn ymdeith.³¹⁸

Dengys hyn y symud a'r pwrpas wrth i Peredur godi i ymateb i'r sialens. Wrth i Peredur glywed y twrw ei ymateb cyntaf yw codi a gwisgo ei arfwisg:

A thrannoeth Peredur a glywei gordyar gwyr a meirch yg kylch y kastell, a Pheredur a gyfodes ac a wiscawd y arueu ymdanaw ac ymdan y varch, ac ef a deuth y'r weirglawd. Ac y deuth [y] wreic ohen a'r vorwyn at y gwr llwyf.³¹⁹

Wrth wneud hyn dengys ei fod yn barod am unrhyw beth. Mae'r gwisgo eto'n adlewyrchu'r cyflymdra yma, ac yn cynyddu'r disgwyl i weld beth sydd yn digwydd wedyn.

Cwyd Gwalchmai yn yr enghraifft hon o *Historia Peredur vab Efracw*:

Gwalchmei a gyfodes y fynydd, a phan daw tu a'r drws yd oed y gwr ar y trugeinuet, yn llawn aruawc, yn kyrchu y twr y vynydd. Sef a oruc Gwalchmei, a chlwr gwyddbwyll, diffryt rac dyfot neb y vynydd hynny doeth y gwr o hela.³²⁰

³¹⁶ Peredur 7: 22-5.

³¹⁷ Peredur 11: 19-20.

³¹⁸ Peredur 18: 21-3.

³¹⁹ Peredur 38: 6-10.

Ni cheir manylion ynghylch cyflymdra'r symudiad, ond gallwn gasglu drwy'r ferf 'kyrchu' ei fod yn gyflym â chynodiadau milwrol efallai; mae'n gwneud hyn er mwyn wynebu'r sialens oddi wrth y trigain gŵr sydd yn aros amdano.

Wrth astudio iaith y corff mae'n bwysig hefyd edrych ar safleoedd pobl o ran a ydynt ar eu pennau eu hunain neu gydag eraill? Neu a ydynt y tu ôl i gymeriad arall neu o'i flaen: gall hyn ddweud llawer wrthym am y cymeriadau eu hunain. Ar nifer o achlysuron nodir yn y naratif fod y cymeriad ar ei ben ei hun. Gwelwn yn yr enghraifft gyntaf fel y caiff Blodeuwedd ei dal gan Gwydion a Math yn y bedwaredd gainc:

Ac ni wydyn gerdet rac ouyn, namyn ac eu hwyneb tra eu keuyn. Ac yna ni wybuant yny syrthysant yn y llyn ac y bodyssant oll eithyr hi e hunan.³²¹

Boddwyd ei morynion i gyd yn y llyn gan ei gadael hi ar ei phen ei hun i wynebu Gwydion a Math heb unrhyw bŵer. Mae hyn yn sarhad mawr arni wrth iddi golli ei phŵer nawr yn union fel Lleu gynt.

Mae darlun unig iawn o Rhonabwy'n methu cysgu yn *Breudwyt Ronabwy*:

A Ronabwy, hyt na allei na chyscu na gorffowys, medylaw a oruc bot yn llei boen idaw mynnet ar groen y dinawet melyn y'r parth y gysgu. Ac yno y kysgwys.³²²

Mae'n amlwg bod llawer ar ei feddwl wrth iddo fod yn anesmwyth yn troi a throsi ar groen y dyniawed ar y llawr.

Yn *Breudwyt Maxen Wledic* gwelwn Macsen yn gwrthod ymuno â'i osgordd ac yn aros ar ei ben ei hun:

³²⁰ Peredur 60: 16-20.

³²¹ Math 16: 550-2.

³²² BR 3: 21-4.

Pan elhei y deulu y yvet o eurllestri ac e gemryt eu lawenyd nyt aei ef y gyt a nep onadunt wy.³²³

Dengys hyn fod rhywbeth o'i le a'i fod yn mynd yn erbyn y côd ymddygiad. Gan nad ydynt fel arfer yn gweld arweinydd mor bwerus ar ei ben ei hun, mae'n amlwg fod rhywbeth ar feddwl Macsen.

Gwelwn yn y dyfyniad nesaf o'r bedwaredd gainc fod Blodeuwedd yn cael ei gadael ar ôl yn y llys ar ei phen ei hun wrth i Llew fynd i weld Math:

Ac yna treigylgueith kyrchu a wnaeth parth a Chaer Dathyl e ymwelet a Math uab Mathonwy. Y dyd yd aeth ef parth a Chaer Tathyl, troi o uywn y llys a wnaeth[h] hi. A hi a glywei lef corn, ac yn ôl llef y corn llyma hyd blin yn mynnet heibaw, a chwn a chynydyon yn y ôl. Ac yn ol y cwn a'r kynydyon, bagat o wyr ar traet yn dyuot.³²⁴

Mae'r 'troi o uywn y llys' yn adlais o'r ymadrodd 'troi yn ei feddwl' sef bod syniadau'n cyrchu yn ei phen, a segurddod yn esgor ar ddrygioni yn ei hachos hi sydd yn creu tyndra, ac felly'r ydym yn disgwyl i rywbeth ddigwydd ac yna tyr y corn ar draws hynny.

Yn yr enghraifft nesaf o'r un chwedl, gwelwn y baban Dylan yn gadael Arianrhod ac yn mynd am y môr ar ei ben ei hun. Mae'n dianc felly:

Ac yn y lle, y gyt ac y doeth y'r mor, annyan y mor a gauas, a chystal y nouyei a'r pysc goreu yn y mor, ac o achaws hynny y gelwit Dylan Eil Ton. Ny thorres ton adanaw eiryot.³²⁵

Mae hyn efallai'n golygu ei fod yn ceisio mynd am ryddid. Mae'r cymeriad Dylan yn niwlog iawn gan nad yw'r awdur am ddatblygu ei stori ef, mae'n amlwg, ac felly mae'n annelwig iawn - pysgodyn, baban neu beth sydd yma?³²⁶ Gellir dadlau mai rhyw erthyl o beth ydoedd, fel yr oedd Llew hefyd cyn iddo gael ei roi yn y dehorydd gan Gwydion.

³²³ BM 4: 98-9.

³²⁴ Math 12: 396-401.

³²⁵ Math 8: 249-51.

³²⁶ Gw. Sarah Keefer, 'The Lost Tale of Dylan in the Four Branches of The Mabinogi' *Studia Celtica* 24/25 (1989-90), 26-37.

Pan gwrddwn â chymeriad Rhiannon am y tro cyntaf yn chwedl *Pwyll Pendeuic Dyuet* hefyd y mae hi ar ei phen ei hun ar gefn ceffyl:

Sewyll, ac arhos a oruc y uorwyn, a gwarret y ran a dyliei uot am y hwyneb o wisc y phen, ac atal y golwc arnaw, a dechreu ymdidan ac ef.³²⁷

Mae yma ryw fath o ddirgelwch yn ei chylch yn ogystal gan fod ganddi ryw benwisg yn cuddio peth o'i hwyneb sydd yn awgrymu fod rhywbeth preifat am hyn. Adlewyrcha hyn rai o ddefodau crefydd fodern megis Mwslemiaeth. Hefyd yn yr Oesoedd Canol wrth gwrs cuddio'r pen oedd arfer gwragedd priod fel y mae'n deddfu yn y Beibl. Trafoda Alaw Mai Jones hyn:

Yn y cyfnod cynnar, nid o ddewis y gwisgid penwisgoedd. Merched ifainc yn unig oedd â'r hawl i beidio â gwisgo gorchudd am y pen. Yr oedd gwallt rhydd yn cael ei gysylltu â hudwragedd a darlunnir menywod y Beibl oedd â natur ddrwg yn gwisgo eu gwallt yn rhydd megis Efa, Jesabel a Mair Magdalen. Yn ogystal â hyn, anogwyd menywod yr Oesoedd Canol gan ddiwinyddion i guddio eu clustiau. Credai rhai diwinyddion i Fair feichiogi trwy ei chlust, ac felly trwy guddio'r clustiau gallai merch gadw ei gwryfydod, ond parai hyn ddirgelwch rhyfeddol ac anghyffredin wrth gysylltu'r glust â gweithred rywiol.³²⁸

Cawn y fenyw a'r benwisg yma 'ac atal y golwc arnaw.' Gall hyn adlewyrchu hefyd i raddau efallai taw hi sydd â'r pŵer gan ei bod hi'n gallu ei weld ef ond ni all ef ei gweld hi'n llwyr, a hi sydd yn gyrru'r holl ddigwyddiadau yn union fel Olwen yn chwedl *Kulhwch ac Olwen*.

Gwelwn yn yr enghraifft nesaf fod y baban ar ei ben ei hun yn y gainc gyntaf:

Ac wrth y drws, llyma uab bychan yn y gorn, guedy troi llen o bali yn y gylch. Kymryt y mab a wnaeth attaw, a llyma y mab yn gryf yn yr oet a oed arnaw.³²⁹

Ceir atgof o Moses yn ei fasedg ond y frenhines sydd yn ei ddarganfod yn y Beibl a'r frenhines sydd yn ei golli yn yr enghraifft hon. Mae'n amlwg fod gan Pryderi gynneddf.

³²⁷ Pwyll 10-11: 273-6.

³²⁸ Jones, *Gwisgoedd ac Ategolion*, 236-237.

³²⁹ Pwyll 19: 531-3.

Ceir y syniad o'i ddarganfod ef ar bwys y drws fel petai wedi cael ei roi yno at bwrpas arbennig.

Yn chwedl *Pwyll Pendeuic Dyuet*, gwelwn fod Rhiannon yn cael ei neilltuo oddi wrth weddill y gymdeithas a'i bod ar ei phen ei hun fel rhan o'i phenyd:

ac yskynuaen a oed odieithyr y porth, eisted gyr llaw hwnnw beunyd, a dywedut y pawb a delei o'r a debyckeï nas gwyppei, y gyfranc honno oll; ac o'r a attei idi y dwyn, kynnic y westei a phellynic y dwyn ar y cheuyn y'r llys. A damwein y gadei yr un y dwyn. Ac yuelly treulaw talym o'r ulwydyn a wnaeth.³³⁰

Mae'r ffaith fod ei phenyd yn ymwneud â chael rhywun ar ei chefn hefyd yn adlewyrchu pwysau yn llythrennol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ei hosgo. Mae'n cario ar ei chefn yn gorfforol ac yn llythrennol wrth ddelio â chanlyniadau colli ei mab. Hefyd dyfernir iddi gosb sydd yn gyhoeddus iawn. Gwelwn newid mawr rhwng ei phersonoliaeth ar ddechrau'r gainc wrth i'w statws newid drwy fod yn briod. Erbyn hyn, wrth gwrs, y mae hi dan awdurdod ei gŵr ac o ganlyniad wedi colli ei hannibyniaeth. Gallwn ddadlau yn yr un modd hefyd am benyd Branwen yn ail gainc y *Mabinogi*.

Gwelwn Rhiannon ar ei phen ei hun unwaith eto yn yr enghraifft yma:

Pan doethant parth a'r llys, wynt a welynt Riannon yn eisted yn emmyl yr yskynuaen.³³¹

Fel rhan o'i phenyd caiff ei hesgymuno o'r llys a'r gymdeithas ac adlewyrchir hyn yn y ffaith ei bod hi ar ei phen ei hunan. Dyma enghraifft o sefyllfa lle mae Efnisien ar ei ben ei hun yn ogystal yn yr ail gainc:

Ac ymedyryaw ymhlith calaned y Gwydyl, a dyuot deu Wydel uonllwm idaw, a'y uwrw yn y peir yn rith Gwydel. Emystynnu idaw ynteu yn y peir, nny dyr y peir yn pedwar dryll, ac nny dyr y galon ynteu.³³²

³³⁰ Pwyll 18: 503-8.

³³¹ Pwyll 21: 591-2.

³³² Branwen 14: 382-5.

Gwelir yma ddwy ran o bersonoliaeth Efnisien fel y cymeriad sydd allan o reolaeth yn y chwedl ond yn y diwedd gwna bopeth yn iawn i achub dynion Ynys y Cedyrn. Dengys hyn gymhlethdod meddwl Efnisien. Cuddia yng nghanol cyrff y Gwyddelod a cheir yma ddisgrifiad eithaf afiach, ond nid yw ef yn meddwl am hyn gan nad yw'n effeithio arno, sydd eto'n adlewyrchu ei bersonoliaeth gymhleth. Gweithreda ar ei ben ei hun bob amser. Mae'r aberth a wna Efnisien yn enfawr sef ei fywyd; gwelwn felly iddo sylweddoli ei gamgymeriad a'i awydd i wneud iawn am ei gamweddau.

Digwydd yr un peth yn chwedl *Manawydan Uab Llyr* wrth i Pryderi anwybyddu cyngor Manawydan a mynd ar ei liwt ei hun:

Pa gyngor bynnac a gaffei ef y gan Uanawydan, y gaer a gyrchwys ef.³³³

Mae'n amlwg ei fod yn gymeriad sydd yn gweithredu'n wahanol iawn i'w dad a oedd bob amser yn cymryd cyngor ei filwyr.

Ar nifer o achlysuron, gwelwn fod cymeriadau yng nghwmni cymeriadau eraill megis marchogion yn wynebu ei gilydd i ymladd, er enghraifft arweinwyr gyda'u byddinoedd, cymeriadau gyda'u teuluoedd. Yn y darn canlynol gwelwn fod Peredur gyda'r marchog y mae ef newydd ymladd ag ef, sef y marchog trahaus yn *Historia Peredur vab Efracw*:

ac yna y doeth Owein racdaw parth a'r weirglawd, a phan daw yd oed Peredur yn lluscau y gwr yn y ol ar hyt y weirglawd.³³⁴

Wrth i Peredur lusgo corff y marchog y tu ôl iddo ar hyd y maes cyflëir pendantsrwydd a phŵer Peredur yn ogystal â'r ffaith amlwg ei fod yn israddio'r marchog.

³³³ Manawydan 5: 158-9.

³³⁴ Peredur 15: 5-7.

Ceir enghraifft ddiddorol iawn yn chwedl *Branwen Uerch Lyr*:

A fan welas Uranwen y mab yn boeth yn y tan, hi gysynwys uwrw neit yn y tan, o'r lle yd oed yn eistedd rhwng y deu uroder.³³⁵

Ymetyb Branwen yn syth i'w mab yn cael ei daflu i'r tân, a gwelwn ei bod yn gweithredu'n gyflym er mwyn ceisio achub ei mab. Gwelir yma gryfder cymeriad Branwen a'i bod yn fodlon ei haberthu ei hun dros ei mab. Dengys hyn wir gariad mam at ei mab yn wahanol i Rhiannon yn y gainc gyntaf: wrth golli ei mab yr oedd hi'n poeni mwy am sut yr adlewyrchai hyn arni hi. Ond gwahanol yw ymateb Rhiannon erbyn y drydedd gainc pan welwn wir gonsyrn mam am ei mab. Sonnir yn y dyfyniad yma hefyd am eistedd Branwen, rhwng dau ddyn a hithau fel math o ganolbwynt yn y fan hon. Fodd bynnag, rhaid cofio taw hi yw'r ddiodefwaig. Hefyd rhaid cydnabod ei bod yn eistedd gyda'i dau frawd ac fel arfer byddai'r wraig yn eistedd gyda'i gŵr. Mae hi'n eistedd rhwng ei dau frawd ac felly gellir dadlau fod hyn yn awgrymu ei bod wedi rhwygo rhyngddynt. Mae awgrym o or-reolaeth arni, bron fel petai'n garcharor yma, neu mewn siaced gaethiwo.

Yn dilyn ymlaen o'r enghraifft flaenorol, sonnir am sefyllfa arall lle gwelwn Branwen gyda'i brawd Bendigeidfran:

A chael o Uendigeiduran hi yn y neill law, a'y tarian yn y llaw arall.³³⁶

Y tro hwn ymetyb Brân i weithred ei chwaer a'i hamddiffyn hithau rhwng ei darian a'i gorff. Hi eto yw'r canolbwynt yn yr olygfa ddramatig hon, ac adlewyrcha hyn gryfder a maint Brân yn gorfforol a hefyd eu perthynas agos fel brawd a chwaer. Mae ymateb

³³⁵ Branwen 14: 366-7.

³³⁶ Branwen 14: 368-9.

Brân mor gyflym i weithred Branwen fel petai'n gwybod sut yr oedd hi'n mynd i ymateb, fel petai hyn yn anochel.

Yn chwedl *Kulhwch ac Olwen* ceir darlun arall o ddau gymeriad yn ymddangosiadol agos at ei gilydd. Y tro hwn gwelir Cacamwri ac Osla Gyllellfawr yn cynorthwyo ei gilydd wrth hela'r Twrch Trwyth:

Noc a gaffet o drwc yn keissaw y thluseu hynny y gantaw, gwaeth a gaffet yn keissaw diffryt y deu wr rac eu bodi. Kacamwri, ual y tynnit ef y uynyd, y tynnei deu uafen ureuan ynteu [843] y'r affwys. Osla Gyllelluawr, yn redec yn ol y twrch, y dygwydwys y gyllell o'e wein ac y kolles; a'e wein ynteu gwedy hynny yn llawn o'r dwfyr, ual y tynnit ef y uynyd y tynnei hitheu ef y'r affwys.³³⁷

Gwelwn yma fod ymdrechion y dynion yn galed iawn wrth geisio atal Cacamwri ac Osla rhag cael eu boddi. Fe dynnir un i fyny gan y dynion ac yna tynnir y llall i'r dyfroedd fel math o effaith si-so yn effeithio ar ei gilydd.

Mewn nifer o sefyllfaoedd gwelwn rai cymeriadau yn cerdded tuag at ei gilydd er mwyn cwrdd i drafod neu hyd yn oed i wynebu ei gilydd i ymladd. Yn yr enghraifft yma o *Ystorya Gereint Uab Erbin* gwelwn Geraint yn nesáu tuag at y marchog:

A nessau a oruc Gereint attaw, a chan dwrwf y march datlywygu a oruc y iarll.³³⁸

Wrth iddo wneud hynny dyma'r marchog yn dadlewygu a Geraint yn edrych i weld a oedd yn dal i fod yn fyw ar ôl yr ymladd. Nesâ'r gŵr penllwyd at Geraint yn gyflym wrth iddo weld Geraint yn cael ergyd galed gan y marchog:

A ffan welas y gwr gwynllwyd Gereint gwedy caffel dyrnawd mawrdost, nessau a oruc attaw yn gyflym...³³⁹

Wrth nesáu ato y mae yn rhoi ychydig o gyngor iddo am sut i ennill ei frwydr.

³³⁷ KO 41: 1190-6.

³³⁸ Gereint 38: 1049-50.

³³⁹ Gereint 11: 316-8.

Dyma was Arthur yn dod tuag ato wrth iddo fod yn gwledda yn *Ystoria Gereint Uab*

Erbin:

nachaf was gwineu hir yn dyuod y myvn, a pheis a swrcot o bali cayrawc ymdanaw, a chledyf eurdwrn am y uynwgyl, a dwy eskid isel o gordwal am y drayd. A dyuod a oruc hyd rac bron Arthur.³⁴⁰

Wrth i'r gwas nesáu at Arthur dyma ef yn datgelu newyddion o'r llys sydd ganddo.

Yn yr enghraifft yma o *Historia Peredur vab Efracw* gwelwn Gwalchmai yn nesáu at

Peredur mewn modd hamddenol:

Gwiscaw a wnaeth [143] Gwalchmei ymdanaw, a cherdet racdaw yn chweric ar gam y varch parth a'r lle yd oed Peredur.³⁴¹

Ceisio Gwalchmai berswadio Peredur i beidio ag ymladd ag ef ac i ddod i weld Arthur.

Yn y chwedl wrth i Gwalchmai nesáu at Peredur adroddir nad oes unrhyw ymddangosiad

bygythiol o gwbl yn y ffordd y mae'n cerdded tuag at Peredur.

Gwelwn Arthur yn nhestun *Owein* yn mynd i'r lle y mae Owain a Gwalchmai i ymuno â

nhw ac i'w cyfarch:

Ac ar hynny yd arganuu Arthur (249) hwynt, a dyfot a oruc attunt.³⁴²

Daw Arthur draw atynt i'w croesawu ar ôl darganfod mai Owain oedd y marchog a fu'n

ymladd gyda Gwalchmai. Yn y dyfyniad nesaf o'r un testun gwelwn fod y forwyn yn

hynod o ddig wrth Owain:

Ac val yd oed Owein diwarnawt yn bwyta ar y bwrt yn llys yr amherawdyr Arthur yg Kaer Lion ar Wysc, nachaf vorwyn yn dyfot ar varch gwineu myngrych a'e vwg a gaffei y llawr, a gwisc o bali melyn ymdeni, a'r ffrwyn ac a welit o'r kyfrwy, eur oll oed. A hyt rac bron Owein y doeth a chymryt y vodrwy a oed ar y law,³⁴³

³⁴⁰ Gereint 1-2: 28-31.

³⁴¹ Peredur 33: 9-11.

³⁴² Owein 19-20: 537-8.

³⁴³ Owein 20-21: 564-9.

Ni ddisgrifir yn y naratif ym mha fodd y nesâ at Owain ond dywedir ei bod yn nesáu ato ac yna'n dwyn y fodrwy oddi ar ei fys. Wrth iddi wneud hyn yna gallwn weld ei bod hi'n gynddeiriog. Mae'r weithred yma o ddwyn y fodrwy yn un eithaf dewr gan forwyn yn yr Oesoedd Canol ond hefyd gwelwn ei hymrwymiad cryf tuag at ei harglwyddes wrth iddi wneud hyn.

Yn yr enghraifft hon, yn chwedl *Owein*, â'r forwyn a'r Iarlles tuag at y ffigwr yma sydd wrth ymyl y llyn:

A diwarnawt mynnet a oruc yr iarllles a'e llawvorynyon y oymdeith gan ystlys llynn a oed yn y parc hyt ar gyfeir y chanawl. Ac hwynt a welynt (251) yn y parc eilun dyn a'y delw, ac val dala ofyn racadaw a orugant. Ac eissyoes nessau a orugant attaw, a'y deimlyaw, a'y edrych yn graff. Sef y gwelynt gwytheu yn llamu arnaw, ac ynteu yn kwynaw wrth yr heul. A dyfot a oruc y iarllles trachefyn y'r castell, a chymryt lloneit gorflwch o iryeit gwerthwawr, a'y rodi yn llaw y morwyn.³⁴⁴

Wrth iddynt nesáu at y person yma maent yn sylweddoli mai Owain sydd yno yn edrych yn anniben ac yn druenus.

Ceir yma ddarlun dwys iawn o'r un stori wrth i Owain a'r marchog du wynebu ei gilydd i ymladd:

Ac ar hynny nachaf varchawc ar varch purdu a gwisg purdu o bali ymdanaw, ac arwydd o vliant purdu ar y vayw. Ac ymgyrchu o orugam, a chyn bei drut hynny ny bu hir hyny'm byrywyt i y'r llawr.³⁴⁵

Mae'r ffordd y mae'r ddau'n wynebu ei gilydd yn dangos eu bod yn wynebu'r sialens.

Yn yr enghraifft nesaf gwelwn Cai a Bedwyr yn nesáu at Dillus Farfog yn chwedl

Kulhwch ac Olwen:

Bryssyaw a orugant parth a'r mwc, a dynesau parth ac yno dan ymardisgwyl o bell, yny uyd Dillus Uarruawc yn deiuaw baed coet. Llyna, hagen, y rysswr mwyaf a ochelawd Arthur eiryoet.³⁴⁶

³⁴⁴ Owein 21-22: 582-9.

³⁴⁵ Owein 9: 189-92.

³⁴⁶ KO 34: 958-61.

Wrth i'r ddau wneud hyn gwelwn eu bod yn asesu'r sefyllfa er mwyn cynllunio pryd i ymosod arno a phryd i gael ei farf i gyflawni un o'r anoethau.

Dyma olygfa o densiwn wrth i'r marchog roi'r cawell ar y llawr ac yna troi i wynebu Lludd yn *Cyfranc Lludd a Llefelys*:

Ac yn diannot ynteu a osodes y kawell ar y llawr ac a'e arhoes ef attaw.³⁴⁷

Wrth iddo wneud hyn ac aros i Lludd ei wynebu rydym yn gwybod eu bod yn barod i frwydro wrth weld ieithwedd eu cyrff.

Yn naratif *Breuddwyt Ronabwy* dysgwn fod y marchog yma'n dod tuag atynt yn gyflym, ac eto crea hyn sefyllfa o densiwn:

A phan edrychant y klywynt marchawc ar varch erchlas yn dyuot attunt.³⁴⁸

Mae'r ffaith eu bod nhw'n gwylio'r marchog yn dod tuag atynt yn gyflym hefyd yn ychwanegu at y tensiwn.

Yn dilyn ymlaen o'r dyfyniad cynt ailadroddir yr episod eto gyda'r marchog yn dod atynt yn ddig:

Dyuot a oruc y marchawc tu a'r lle yd oed Arthur ac Owein vch pen yr wyddbwyll. Ac adnabot a orugant y uot yn lludedic lityawcclin yn dyuot attunt.³⁴⁹

Mae'n ddiddorol yma wrth weld y cymeriadau eu hunain yn cael eu disgrifio yn asesu cymeriad arall wrth ei iaith gorfforol.

Daw marchog ar gefn ei geffyl tuag at Pwyll yn y gainc gyntaf:

³⁴⁷ LlaLL 5: 156-7.

³⁴⁸ BR 15: 11.

³⁴⁹ BR 16: 6-9.

Ac ual y byd yn llithiau y cwn, ef a welei uarchauc yn dyuot yn ol yr erchwys y ar uarch erchlas mawr; a chorn canu am y uynwgyl, a gwisce o urethyn llwyt tei amdanaw yn wisce hela. Ac ar hynny y marchawc a doeth attaw ef,³⁵⁰

Daw'r marchog yn gyflym tuag ato mewn ymateb i'r hyn y mae newydd ei wneud, sef dwyn y carw oddi ar gŵn y gŵr yma a'i roi i'w gŵn ei hun. Mae Pwyll wedi sarhau'r gŵr yma drwy wneud hyn ac mae'r ffaith fod y marchog yn dod ato'n gyflym yn adlewyrchu hyn.

Yn yr enghraifft hon, â Teyrnnon gyda'r baban i'r ystafell lle mae ei wraig:

Dodi cayat ar y drws a wnaeth, a chyrchu yr ystauell yd oed y wreic yndi.³⁵¹

A'r ddau nawr yn sffêr breifat y cartref, rhanna Teyrnnon y newyddion yn syth (sef ei fod wedi darganfod y baban) gyda'i wraig a theimlwn fod y gŵr a'r wraig yma fwy ar yr un lefel ac yn fwy cyfartal o ran statws na'r un cwpwl arall yn y *Mabinogion*. Dof i'r casgliad yma hefyd gan ei fod yn rhannu'r newyddion gyda'i wraig yn syth.

Wrth i Matholwch a'i wŷr ddod i'r lan yn yr ail gainc fe'u cyferchir hwy gan wŷr

Bendigeidfran:

Ef a doeth y'r tir, a llawen uuwynt wrthaw; a dygyuor mawr uu yn y llys y nos honno, y rwng e yniuer ef ac yniuer y llys.³⁵²

Gofynna Matholwch a'i wŷr am ganiatâd y brenin i ddod i'r wlad gan mai dyma sut y maent yn nesáu tuag atynt. Mae hyn hefyd yn rhan o ddefodau croeso a lletygarwch.

Ceir yma ddarlun gwrthgyferbyniol iawn wrth i Bendigeidfran gyrraedd y lan gyda'i osgordd yn wahanol iawn i Matholwch a'i wŷr yn cyrraedd Ynys y Cedryn:

³⁵⁰ Pwyll 1-2: 25-8.

³⁵¹ Pwyll 19: 534-5.

³⁵² Branwen 2: 41-3.

Bendigeiduran a doeth y'r tir, a llynges y gyt ac ef, parth a glan yr auon.³⁵³

Mae yma rywbeth llawer mwy penderfynol am ymweliad Brân oherwydd ei fod mor flin am driniaeth ei chwaer Branwen yn Iwerddon. Fe ddaw yn gadarn gyda'i osgordd i'r wlad ac ni ofynna am unrhyw ganiatâd i ddod i Iwerddon.

Gwelwn yn yr enghraifft hon fod Gwern yn mynd o un aelod o'r teulu at aelod arall:

Ac yna, guedy daruot y tangneued, galw o Uendigeiduran y mab attaw. Y gan Uendigeiduran y kyrchawd y mab at Uanawydan, a phawb o'r a'e guelei yn y garu. E gan Uanawydan y gelwis Nyssyen uab Eurosswyd y mab attaw. Y mab a aeth attaw yn diryon.³⁵⁴

Wrth i hyn ddigwydd gwelwn y cariad tuag at y mab a diniweidrwydd y plentyn yn mynd o amgylch y teulu. Hefyd maent yn ei demtio i ddod atynt bob un yn unigol fel petai'n rhyw fath o gêm.

Sonnir am Orsedd Arberth eto yn yr enghraifft nesaf a gwelwn fod ar Manawydan eisiau crogi'r llygoden yn y drydedd gainc. Wrth iddo ddechrau ar y paratodau dyma ysgolhaig yn dod tuag ato:

Ac yna y kyrchwys ef Orsedd Arberth, a'r llygoden gantaw, a sengi dwy forch yn y lle uchaf ar yr orsedd. Ac ual y byd yuelly, llyma y guelei yscolheic yn dyuot attaw, a hen dillat hydreul, tlawt amdanaw. Ac neut oed seith mlyned kyn no hynny, yr pan welsei ef na dyn, na mil, eithyr y pedwardyn y buassynt y gyt, yny golles y deu.³⁵⁵

Mae hyn yn rhoi amser i oedi yn y naratif wrth gael y disgrifiad ac yn darparu'r math o ôl-fflachiad.

Gwelwn yn yr enghraifft yma'r offeiriad yn dod tuag at Manawydan wrth iddo baratoi i grogi'r llygoden:

³⁵³ Branwen 11: 290-1.

³⁵⁴ Branwen 13-14: 354-8.

³⁵⁵ Manawydan 8-9: 278-82.

Val y byd ynteu yn dod i y dulath yn y fyrch, nachaf offeirad yn dyuot ataw, ar uarch yn gyweir.³⁵⁶

Mae hyn yn beth annisgwyl mewn ffordd gan nad ydym yn disgwyl i gymeriad Manawydan ymddwyn fel hyn, ond mae'r ffaith ei fod yn gwneud y broses o grogi'r llygoden mor araf yn rhoi'r awgrym ei fod yn disgwyl gweld yr offeirad a'i fod yn rhan o'i oedi.

Yna â'r naratif ymlaen i sôn am esgob yn dod tuag at Manawydan yn ei baratodau i grogi'r llygoden:

Sef a wnaeth ynteu, maglu y llinin am uynwgyl y llygoden. Ac ual yd oed yn y dyrchauael, llyma rwttwr escob a welei a'y swmereu a'y yniuer; a'r escop e hun yn kyrchu parth ac attaw. Sef a wnaeth ynteu, gohir ar y weith.³⁵⁷

Mae'r rhain oll yn peri oedi yn y broses sydd ar waith - yn torri ar draws, ac yn rhoi cyfle i adeiladu tyndra.

Ceir ambell enghraifft o gymeriadau'n cerdded y tu ôl i gymeriadau eraill mewn sefyllfaoedd, er enghraifft wrth eu dilyn i rywle arbennig ac ati. Yn yr enghraifft yma o *Ystorya Gereint Uab Erbin* gwelwn fod Geraint y tu ôl i'w wraig Enid a'i fod ef wedi gorchymyn iddi fynd o'i flaen i'r goedwig:

A cherdet recdi y'r coet a oruc y uorwyn, a chadw y ra[424]gor ual yd erchis Gereint iti. A thost oed ganthaw edrych ar drwthret kymeint a honno ar uorwyn gystal a hi gan y meirch bei ys gattei lit idaw.³⁵⁸

O ran y protocol, byddem ni'n disgwyl i Geraint fynd yn gyntaf fel y marchog i wynebu marchogion eraill ac unrhyw ymosodiadau, ond efallai ei fod yn gwarchod o'r cefn. Cawn y teimlad ei fod ef yn cuddio y tu ôl iddi a'i bod hithau yn annifyr iawn am fynd o'i flaen.

³⁵⁶ Manawydan 9: 301-2.

³⁵⁷ Manawydan 9: 314-8.

³⁵⁸ Gereint 31: 859-63.

Enid sydd ar y blaen yn y fan hon ac arhosa i Geraint ddod yn nes ati:

Ac aros Gereint a oruc y uorwyn yny uyd yn agos iti.³⁵⁹

Mae yna bellter corfforol yma wrth iddynt deithio, a hynny'n adlewyrchu'r pellter sydd rhwng y ddau yn eu priodas. Efallai gan fod Enid yn aros i Geraint ddod yn nes ati, fe adlewyrcha hyn i raddau ei hymdrech hi i fod yn agosach at ei gŵr yn eu perthynas.

Er hyn gwelwn fod ymdrechion Enid yn ofer wrth i Geraint orchymyn iddi fynd o'i flaen drachefn:

A cheredd a oruc Gereint raddaw ar y brifford yd oet arnei, a'r uorwyn a getwis y ragor³⁶⁰

Gwelwn hyn eto'n adlewyrchu'r pellter mawr sydd rhyngddynt o ran eu perthynas.

Yn ogystal â dilyn y tu ôl i rywun, ceir sawl enghraifft o gymeriadau'n cerdded o flaen cymeriadau eraill. Yn yr enghraifft yma dywed Geraint wrth y forwyn am fynd o'i flaen:

ac yna yd erchis [431] ef y'r uorwyn kymryt ragor o'r blaen³⁶¹

Mae Geraint yn cosbi Enid gan ei fod wedi treulio gormod o amser yn y llys gyda'i wraig a dim digon o amser yn ymladd. O ran eu safleoedd eto, mae hyn yn amwys: a yw Geraint yn ceisio gwarchod o'r cefn neu a ydyw'n awyddus i Enid gael ei gweld yn gyntaf efallai?

Digwydd yr un peth yn yr enghraifft yma hefyd: dywed Geraint wrth Enid am farchogaeth o'i flaen ef:

Ac erchi a oruc Gereint y Enyt kerdet o'r blaen a chadw y ragor ual y gvnathoed kyn no hynny. A hi [803] a gerdawd³⁶²

³⁵⁹ Gereint 28-29: 801-2.

³⁶⁰ Gereint 38: 1054-6.

³⁶¹ Gereint 37: 1012-3.

³⁶² Gereint 45: 1225-6.

Mae hyn yn digwydd ar sawl achlysur yn *Ystoria Gereint Uab Erbin* lle mae Enid o flaen Geraint ac y mae yma bellter mawr rhyngddynt. Ac eto adlewyrcha hyn y pellter yma sydd yn eu perthynas yn ogystal.

Yn yr enghraifft ganlynol o *Breudwyt Ronabwy* gwelwn fod y sŵn sydd y tu ôl i Rhonabwy yn ei arwain i droi ato i weld beth sydd y tu ôl iddo:

Ac val yd oed yn kerdet y clywei twryf, a chynheb[yg]rwyd y'r twrwyf hwnnw nys ryglywssei eiryoet. Ac edrych a oruc dra'e gefyn. Sef y gwelei gwraenc pengrych melyn a'e varyf yn newydd eillaw, y ar varch melyn. Ac o pen y dwygoes a thal y deulin y waeret yn las. A pheis o bali melyn am y marchawc, wedy ry wniaw ac adaued glas. A chledyf eurdwrn ar y glun, a gwein o gordwal newydd idaw, a charrei o ledyr ewic a gwaec erni o eur. Ac ar warthaf hynny llen o pali melyn wedy ry wniaw a sidan glas, a godreon y len [yn] las, ac a oed las o wisg y marchawc a'e uarch a oed kyn laset a deil y [558] ffenitwyd, ac a oed velyn ohonei a oed kyn uelynet a blodeu y banadyl.³⁶³

Mae'n rhoi amrywiaeth fod rhywun yn disgrifio cymeriad arall o'r tu blaen fel petai'n gweithredu fel math o ddyfais naratif, megis mewn ffilm.

Digwydd yr un peth yn yr enghraifft ganlynol eto: tynnir sylw Peredur gan y sŵn sydd yn digwydd y tu ôl iddo ac felly edrych y tu ôl iddo:

A cherdet racdaw a wnaeth [159] Peredur. Ac ef a glywei twrwf yn y ol, ac edrych a wnaeth ef yn y ol, ac ef a welei gwr ar gefyn march coch ac arueu cochyon ymdanaw.³⁶⁴

Yma gwelwn y ddyfais sydd yn gadael inni weld rhywun yn gweithredu o'r tu blaen.

Eto yn *Ystoria Gereint Uab Erbin*, gwelir bod y sŵn sydd y tu ôl iddynt yn tynnu eu sylw:

a llusc y gwyr a'r meirch ac eu sathyr a gynhalyssant. Ac ual y bydynt yn kerded y uelly [389] hwyn aglywynt twrwf mawr angherdawl. Ac ydrych a orugant draekeuyn, ac vynt a welynt uarchawc ar ebawluarch helyglei athrugar y ueint,³⁶⁵

³⁶³ BR 3-4: 29-13

³⁶⁴ Peredur 49: 19-22.

³⁶⁵ Gereint 3-4: 88-92.

Mae'r ffaith fod y marchog y tu ôl iddynt yn adeiladu at uchafbwynt, oherwydd ar hyn o bryd nid ydym ni'r gynulleidfa yn gwybod pwy ydyw ac a ydyw'n farchog da neu ddrwg ac felly ychwanega hyn gryn densiwn at y naratif.

Ceir nifer o enghreifftiau o bobl yng nghwmni pobl eraill, er enghraifft brenin gyda'i osgordd a breninesau gyda'u morynion. Yn yr enghraifft hon o'r bedwaredd gainc gwelwn fod Blodeuwedd yn ceisio dianc gyda'i morynion wrth iddi glywed fod Math a Gwydion yn chwilio amdani:

Sef a wnaeth Blodeuwed, clybot eu bot yn dyuot, kymryt y morynyon gyt a hi, a chyrchu y mynyd; a thrwy Auon Gynuael kyrchu llys a oed ar y mynyd.³⁶⁶

Wrth iddi gael cwmni ei morynion gyda hi gwna hyn iddi deimlo'n fwy diogel, ac fe atgoffa hyn ni o Brân yn cyrraedd Iwerddon a Matholwch sydd mewn panig llwyr wrth weld y cawr yn dod draw o Gymru i Iwerddon.³⁶⁷ Yn eironig iawn wrth ddal Blodeuwedd fe foddir ei morynion i gyd ac yna fe'i hamgylchynir gan ddynion Math a Gwydion.

Dyma Rhiannon gyda'i morynion yn chwedl *Pwyll Pendeuic Dyuet*:

Sef riuedi o wraged a ducpwynt y'r ystauell, chwech wraged. Gwylat a wnaethont wynteu dalym o'r nos, ac yn hynny eisswys, kyn hanner nos kyscu a wnaeth pawb ohonunt, a thu a'r pylgeint deffroi. A phan deffroyssant, edrych a orugant y lle y dodyssynt y mab, ac nyt oed dim ohonaw yno³⁶⁸

Gwelwn yn syth ei bod yn fenyw o statws gan ei bod yn cael ei hamgylchynu gan ei morynion a bod help wrth law. Gwelwn nad Rhiannon oedd yn gofalu am y baban ond yn hytrach y morynion, rhywbeth a fyddai'n naturiol ddigon i frenhines. Hefyd yn yr enghraifft yma gwelwn y syniad o swyddogaeth menyw yn gofalu am y plant fel rhan o swyddogaeth gwraig yn y cyfnod.

³⁶⁶ Math 16: 548-50.

³⁶⁷ Branwen 10-12: 258-326.

³⁶⁸ Pwyll 17: 464-8.

Cawn enghraifft arall o'r math yma o sefyllfa yn ogystal gydag Arianrhod a'i morynion:

A llyma hi yn dyuot, a dwy uorwyn gyt a hi, ac arueu deu wr gantunt.³⁶⁹

Mae'r ffaith nad yw Arianrhod ar ei phen ei hun ond gyda'i morynion yn dangos mai hi yw'r arglwyddes, a hi sydd mewn awdurdod, a gwelwn hyn yn aml yn ail hanner chwedl *Math Uab Mathonwy*.

Yn chwedl *Pwyll Pendeuic Dyuet* gwelwn wraig Arawn yn cerdded i mewn i'r neuadd gyda'i morynion:

Llyma y gwelei ef teulu ac yniuroed, a'r niuer hardaf a chyweiraf o'r a welsei neb yn dyuot y mywn, a'r urenhines y gyt ac wynt, yn decaf gwreic o'r a welsei neb, ac eurwisc amdanei o bali llathreit.³⁷⁰

Deallwn yn syth mai menyw o statws ydyw gan fod y morynion gyda hi. Ceir yma ddisgrifiad confensiynol a statig o frenhines yn y cyfnod.

Fe amgylchynir Geraint yn yr un modd yn ogystal yn *Ystorya Gereint Uab Erbin*:

A ffan edrychawd allan nachaf y gwelei petwar ugeint marchawc yg kylch y ty yn llawnaruawc³⁷¹

Digwydd yr un peth i Peredur hefyd *Historia Peredur vab Efracw*:

Ac ol yn ol ef a doeth petwar marchaw[c] ar hugeint, ac nyt attebei ef y'r vn mwy no[e] gylid, namyn yr vn gware a phob vn, y wan ar vn gossot tros [pedrein] y varch y'r llawr.³⁷²

Fe amgylchynir Geraint a Peredur gan y marchogion eraill ac wrth i hyn ddigwydd gwelwn eu bod ill dau mewn trwbl mawr. Gallwn weld statws Peredur drwy'r enghraifft ganlynol:

Ac yd ymchoelawd trachefyn ac yd edewis y march a'r arueu gan y gweisson mal kynt.³⁷³

³⁶⁹ Math 11: 360-1.

³⁷⁰ Pwyll 3-4: 81-4.

³⁷¹ Gereint 37: 1017-8.

³⁷² Peredur 31: 15-8.

³⁷³ Peredur 42: 4-6.

Wrth i Peredur adael ei farch a'i arfau gyda'r gweision mae hyn yn dangos eu bod nhw'n gwasanaethu arno. Yn yr enghraifft ganlynol gwelwn fod Pwyll yn codi a gadael y llys gyda'i ddynion, a dengys hyn taw ef yw pennaeth y llys:

A threigylgueith yd oed yn Arberth, prif lys idaw, a gwled darparedic idaw, ac yniueroed mawr o wyr y gyt ac ef. A guedy y bwyta kyntaf, kyuodi y orymdeith a oruc Pwyll, a chyrchu pen gorssed a oed uch llaw y llys, a elwit Gorssed Arberth.³⁷⁴

Mae'r ddelwedd hon o arweinydd gyda'i ddynion yn gadael y llys yn nodweddiadol mewn sefyllfa fel hyn.

Ceir enghreifftiau hefyd o gyfathrebu aneiriol rhwng cymeriadau sydd yn ysgogi un cymeriad i ddilyn y llall. Digwydd yr enghraifft fwyaf nodedig o hyn yn chwedl gyntaf y *Pedair Cainc* gyda Pwyll yn eistedd ar orsedd Arberth ac yna Rhiannon yn mynd heibio'n gyflym ar gefn ei cheffyl. Ysgoga hyn weision Pwyll i fynd ar ôl Rhiannon ar y ceffyl, cyn i Pwyll fynd ei hun. Digwydd yr enghraifft yma dair gwaith yn y gainc gyntaf gydag ychydig o amrywiadau bob tro er mwyn adeiladu tensiwn at yr uchafbwynt:

Un a gyuodes y uynyd, a phan doeth yn y herbyn y'r ford, neut athoed hi heibaw. Y hmlit a wnaeth ual y gallei gyntaf o pedestric. A fei mwyaf uei y urys ef pellaf uydei hitheu e wrthaw ef. A phan welas [14] na thygyei idaw y hmlit,³⁷⁵

Ymddengys Rhiannon yn gymeriad chwareus yn y fan hon fel petai'n chwarae mig gyda'r dynion, ac wrth iddi gael ei dilyn y mae'n cyflymu ac yn pellhau oddi wrthynt fel petai arni hi eisiau denu eu sylw. Wrth iddi ddychwelyd yr ail dro, mae'n amlwg i ni'r gynulleidfa nad yw wedi'i bodloni, hynny yw bod arni hi eisiau rhywbeth gan y dynion yma a'i bod heb ei gael eto:

Y march a gymerth, ac racdaw yd aeth; y maestir guastat a gauas, ac ef a dangoses yr ysparduneu y'r march. A ffei uwyaf y lladei ef y march, pellaf uydei hitheu e wrthaw ef. Yr vn gerdet a

³⁷⁴ Pwyll 7-8: 192-5.

³⁷⁵ Pwyll 8: 210-3.

dechreussei hitheu yd oed arnaw. Y uarch ef a ballwys; a phan wybu ef ar y uarch pallu y bedestric, ymchwelut yn yd oed Pwyll a wnaeth.³⁷⁶

Mae'r patrwm yn ailadrodd felly, ac wrth i un o ddynion Pwyll ei dilyn, pellhau a chyflymu a wna Rhiannon ar gefn ei cheffyl. Dengys hyn ei bod hi'n benderfynol (sydd yn nodweddiadol o gymeriad Rhiannon y tro cyntaf inni gwrdd â hi yn y gainc hon) ac nad yw'n stopio nes iddi gael beth sydd eisiau arni.

Ar hynny, y uarchoges a doeth gywerbyn ac wynt. Sef a oruc y makwyf yna, yskynny ar y march; a chyn daruot idaw ymgueiraw yn y gyfrwy, neu ry adoed hi heibaw, a chynnwll y rygthunt. Amgen urys gerdet nit oed genthi hi no'r dyd gynt. Ynteu a gymerth rygyng y gan y uarch, ac ef a dybygei, yr araued y kerdei y uarch, yr ymordiweidei a hi. A hynny ny thy[16]gywys idaw. Ellwng y uarch a oruc wrth auwyneu; nyt oed nes idi yna no chyt bei ar y gam; a pheu uwyaf y lladei ef y uarch, pellaf uydei hitheu e wrthaw ef. Y cherdet hitheu nit oed uwy no chynt. Cany welas ef tygyaw idaw e hmylit, ymchwelut a wnaeth, a dyuot yn yd oet Pwyll.³⁷⁷

Drwy iddi ddychwelyd am y trydydd tro mae yna rywbeth eithaf caethiwus amdani o safbwynt Pwyll: mae ef yn benderfynol y gall ef gael un o'i ddynion i'w dal. Hefyd mae'r ffordd y mae'n ailymddangos dro ar ôl tro yn atgyfnerthu'r syniad ei bod yn eu hudo a'u pryfocio. Mae hyn yn dwyn i gof un o syniadau cyffredin yr Oesoedd Canol fod menywod yn gynhenid ddrwg ac yn temtio dynion. Dengys y darn hwn ei phendantrwydd fel cymeriad unwaith yn rhagor. Mewn ffordd mae'r hyn a wna Rhiannon yn gwneud i'r dynion edrych yn dwp. Rhed y dynion i gyd ar ei hôl, a chawn ddarlun eithaf doniol fel math o gomedi o'r dynion yma'n baglu dros ei gilydd i fynd ar ôl y ferch a hithau'n marchogaeth yn osgeiddig heibio iddynt. Mae'r ffaith fod Rhiannon hefyd ar gefn ceffyl braidd yn annisgwyl. Yn ôl Miranda Green, 'The horse symbolism surrounding Rhiannon is intense and repeated: the initial encounter with Pwyll, when she appeared riding a great white horse that could not be outpaced, contains a supernatural dimension.'³⁷⁸ Mae'r math yma o ddarlun hefyd yn awgrymu pa mor ddymunol i'r

³⁷⁶ Pwyll 8-9: 217-22.

³⁷⁷ Pwyll 9-10: 238-48.

³⁷⁸ Green, *Celtic Goddesses*, 50.

llygad oedd menywod y cyfnod o ran eu golwg a'r dylanwad mawr y gallai ymddangosiad merch ac effaith hyn gael ar ddynion, sef anhrefn lwyr! Heb os nac oni bai, Rhiannon sydd â'r llaw uchaf yn yr episod yma.

Gwthia Rhiannon y dynion yma i'r eithaf nes bod Pwyll ei hun yn gorfod ei dilyn:

Yskynnu a oruc Pwyll ar y uarch; ac nyt kynt yd yskynn ef ar y uarch, noc yd a hitheu hebdaw ef. Troi yn y hol a oruc ef, a gadel y uarch drythyll, llamsachus y gerdet. Ac ef a debygei, ar yr eil neit neu ar y trydyd y gordiwedei. Nyt oed nes, hagen, idi no chynt. Y uarch a gymhellaud o'r kerdet mwyaf a oed ganthaw. A guelet a wnaeth na thygyei idaw y ymlit.³⁷⁹

Crea hyn ddarlun cyffrous iawn ond hefyd annibendod o ran osgo. Nid oes cyfle gan Pwyll i feddwl ac i fod yn osgeiddig o ran ei osgo ond mynd ar gefn y ceffyl ryw siâp i ddal Rhiannon, ac wrth ddarllen hyn felly gallwn ddod i'r casgliad fod y gafael yma sydd gan Rhiannon drosto yn fawr. Mae'n amlwg bod hyn yn ysgogi rhyw fath o chwilfrydedd am y ferch gudd yma sydd ar y ceffyl ac y mae ar Pwyll eisiau cwrdd â hi.

Ceir enghraifft hollol wahanol yn chwedl *Math Uab Mathonwy*, un sydd yn bersonol ac yn breifat gyda'r plentyn bach yn dilyn Gwydion ar hyd y lle:

A diwyrnawt ef a gerdawd yn ol Gwydion y orymdeith allan. Sef a wnaeth, kyrchu Caer Aranrot a'r mab y gyt ac ef.³⁸⁰

Dengys hyn natur plentyn bach yn dilyn pobl o gwmpas, a dyma enghraifft arall o iaith corff cymeriad yn gweddu'n berffaith i'r hyn yr ydym yn gwybod amdano. Gwelir cysonder yma unwaith eto rhwng y naratif a phroffil y cymeriad dan sylw. Hefyd wrth feddwl am yr episod yma cofiwn nad yw'r baban wedi cwrdd ag unrhyw gymeriad arall heblaw Gwydion gan fod ei fodolaeth yn gyfrinach rhag pawb arall yn y rhan hon o'r chwedl. Dengys hyn hefyd felly bŵer Gwydion drosto a hefyd gwelwn mai'r un yw'r

³⁷⁹ Pwyll 10: 264-70.

³⁸⁰ Math 8: 267-8.

patrwm wrth feddwl am Gwydion a'i berthynas gyda chymeriadau eraill: mae'r hyn a wna Gwydion yn cael effaith ar bawb bob tro.

Gwelir sut mae'r syniad o gyfathrebu aneiriol yma'n digwydd mewn ffordd hollol wahanol yn chwedl *Math Uab Mathonwy* eto gyda Gwydion yn ceisio cael Arianrhod i ddod atynt ar y cwch heb yngan yr un gair wrthi:

Ac yna y doeth hi hyt y llong. A phan doeth, yd oed ef yn llunyaw, a'r mab yn gwniaw.³⁸¹

Y maent yn denu Arianrhod at y cwch trwy wneud esgidiau iddi sydd lawer yn rhy fawr ac yna bâr arall sydd lawer yn rhy fach iddi. Yn y diwedd daw hi atynt ar y cwch, a dyma'n union oedd y nod fel bod y baban yn cael ei enw, sef Llew Llaw Gyffes.

Ceir enghraifft wych o'r cyfathrebu aneiriol 'dilynwch fi' yn *Historia Peredur Vab Efracw* hefyd:

Mal y gwyl y gwr gwynllwyd Peredur yn dyuot, ef a gyuodes ac a gyrchwys y llys, a chlof oed y gwr. Ynteu Peredur a doeth racdaw y'r llys a'r porth oed yn agoret ac y'r neuad y doeth. A phan daw yd oed y gwr gwynllwyd yn eisted ar obennyd o bali a ffyryftan mawr yn dechreu llosgi. A chyuodi a oruc teulu a niuer yn erbyn Peredur, a'e discynnu a'e diarchenu a wnaethant.³⁸²

Nid yw'r ewythr yn dweud dim wrtho am ei ddilyn i'r llys, ond wrth i Peredur weld y gŵr gwynllwyd yn codi a mynd am y llys, fe ddilyn ef yno. Digwydd yr un math o beth yn yr enghraifft yma eto yn *Historia Peredur Vab Efracw*:

Ac yna yd aeth y gwr llwyd a'r gweisson gyt ac ef y'r kastell, ac yd aeth Peredur gyt ac wy, a lle tec enrydedys a welei yno.³⁸³

Wrth i'w ewythr a'r gweision gerdded i'r kastell fe ddilyn Peredur nhw.

³⁸¹ Math 9: 307-8.

³⁸² Peredur 17: 3-11.

³⁸³ Peredur 37: 7-9.

Mae'n amlwg, felly, fod rôl allweddol i'r astudiaeth o safleoedd cymeriadau o fewn cydestun pwnc iaith y corff gan fod hyn yn dynodi llawer am sefyllfaoedd yn y *Mabinogion* yn enwedig wrth ddangos pa gymeriad neu gymeriadau sydd â phŵer a grym. Dengys unwaith eto, yn ogystal, swyddogaeth mor allweddol sydd gan iaith y corff fel rhan o arfogaeth y storiwr, a bod yr adnoddau'n cael eu trin â chynildeb a gofal anghyffredin.

Pennod 5: Cyfathrebu.

Mae nifer o enghreifftiau yn y chwedlau o bobl yn edrych mewn ffyrdd gwahanol ar rywbeth neu ar rywun, er enghraifft edrych yn graff, yn gariadus neu'n oeraidd ac enwi rhai enghreifftiau. Y mae arwyddocâd gwahanol iddynt i'r edrychiadau, fel y dywed Cairns, 'Greek authors regularly tell us the important of the eyes.'³⁸⁴ Yn yr adran yma felly rwyf am drafod yr edrychiadau gwahanol hyn ac iaith y llygaid gan olrhain eu harwyddocâd.

Yn yr enghraifft gyntaf mae Teyrnnon yn edrych yn graff ac yn sylweddoli mab pwy yw'r baban yn chwedl *Pwyll Pendeuic Dyuet*:

Sef a wnaeth Teirnon ynteu, medyl yaw am hynny, ac edrych ar y mab yn graf; a chael yn y uedwl yn herwyd gueledigaeth na ry welsei eiroet mab a that kyn debycket a'r mab y Pwyll Penn Annwn.³⁸⁵

Mae'r ffaith fod Teyrnnon yn 'edrych ar y mab yn graf' ac yn sylweddoli taw mab Pwyll ydyw yn adlewyrchu ei fod yn ddyn deallus iawn er nad yw o'r un statws â Pwyll. Mae'r ansoddair 'craf[f]' yn adlewyrchu hyn hefyd, fel petai ôl meddwl i'r sylweddoli.

Yn yr ail enghraifft, y tro hwn o'r bedwaredd gainc, Gwydion sydd yn gwneud y sylweddoli wrth edrych ar ei frawd:

Sef a wnaeth Guydyon y urawd, synnyeit dydgweith arnaw yn graf.³⁸⁶

Edrych Gwydion ar Gilfaethwy 'yn graf.' Dengys hyn ei fod yn adnabod ei frawd yn dda, ac â Gwydion ymlaen hyd yn oed i ddweud beth sydd ar feddwl Gilfaethwy cyn i hwnnw yngan yr un gair am y peth. Ond fel techneg naratif mae'n arwydd diamwys fod

³⁸⁴ Douglas Cairns, 'Bullish Looks and Sidelong Glances: Social Interaction and the Eyes in Ancient Greek Culture', yn Cairns, (gol.) *Body Language*, 127.

³⁸⁵ Pwyll 20-21: 569-72.

³⁸⁶ Math 1: 17-8.

angen i ninnau ‘edrych yn graff’ hefyd a sylweddoli fod rhywbeth arwyddocaol yn mynd ymlaen gyda Gilfaethwy.

Gwelwn enghraifft arall yn nhestun *Owein*:

A dyuot a wnaethant hyt yn ystauell y iarllles, a llawen uu y iarllles wrthunt. Ac edrych ar Owein yn graff a oruc y iarllles.³⁸⁷

Dengys hyn graffter yr Iarllles yn y ffordd y mae’n edrych ar Owain: mae’n gwybod fod rhywbeth o’i le yn y fan hon ond nid yw’n siŵr beth, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn iaith ei chorff. Unwaith eto felly, mae’n arwydd i ninnau feddwl yn ddwys am gyflwr ac ymddygiad Owain.

Eto yn *Ystoria Gereint Uab Erbin* fe gawn enghraifft o’r un edrychiad:

Ac yna y doeth Arthur attaw, a chyuarth gwell a oruc ef y Arthur. “Dyw a rodo da it,” heb yr Arthur, ac edrych hir hynt a oruc Arthur arnaw a bot yn aruthyr ganthaw y welet y uelly, ac ual tybyeid y adnabot.³⁸⁸

Mae’r ffordd y mae Arthur yn edrych yn ‘hir’ ar Edern fab Nudd yn dangos fod Arthur yn adnabod ei wyneb ond yn methu cofio pwy ydyw, fel petai’n meddwl ‘ble yr wyf i wedi cwrdd â’r marchog yma o’r blaen?’

Gwelwn Enid yn edrych yn graff ar y marchogion eraill yn *Ystoria Gereint Uab Erbin*:

Ac ym perued y gwastatir yd oet byrgoed pendew dyrys, ac y vrth hwnnw y gwelynt tri marchawc yn dyuot attunt yn gyweir o ueirch ac arueu hyt y llawr ymdanunt ac ymdan eu meirch. Sef a oruc y uorwyn, ydrych yn graf arnunt.³⁸⁹

³⁸⁷ *Owein* 16: 433-5.

³⁸⁸ *Gereint* 16: 468-71.

³⁸⁹ *Gereint* 28: 791-5.

Wrth ystyried fod Geraint wedi dweud wrthi am beidio â siarad ag ef, mae'r ffordd y mae Enid yn edrych yn adlewyrchu'r tyndra mawr yma sydd ar ei meddwl – y ddeilema un ai siarad â'i gŵr i'w achub ef, neu ynteu ufuddhau i'w orchmynion.

Yn yr enghraifft nesaf, Gwalchmai sydd yn gwneud y sylweddoli yn *Ystorya Gereint Uab*

Erbin:

“Ni chlywir arnaf uyth,” heb y Gwalchmei, “dy adu y vrthyf yny vypwyf pwy uych,” - a'y gyrchu a gwayw a gossot yn y daryan yny uyd y paladyr yn yssicuriw a'r meirch daldal. Ac yna edrych arnaw yn graf a oruc a'e adnabot.³⁹⁰

Y mae hyn yn nodweddiadol o gymeriad Gwalchmai gan mai ef sydd yn defnyddio geiriau a'i farn ei hun i wneud penderfyniad ac yna'n gwneud sylweddoliad. Gellir dadlau fod Gwalchmai yn fath o gymeriad sydd o flaen ei amser gan ei fod yn deall nad ymladd yw'r ffordd orau i ddatrys popeth, cred a oedd yn nodweddiadol iawn o'r cyfnod hwn ond un a gwestiynwyd o bryd i'w gilydd, yn enwedig yn chwedl *Manawydan Uab Llyr*.

Ceir enghraifft arall yn *Ystorya Gereint Uab Erbin* hefyd:

Sef a oruc y iarll, ydrych ar Ereint a medylaw, a thybygu panyw rac mynnet y'r gware yd oed yn peidaw a bwyta;³⁹¹

Mae'n amlwg bod rhywbeth o'i le yn y fan hon wrth i'r Iarll roi'r gorau i fwyta ac edrych ar Geraint. Wrth edrych ar Geraint mae'r Iarll yn gwneud y sylweddoliad yma.

Yn yr enghraifft ganlynol edrych y forwyn ar Peredur ac yna wylo yn *Historia Peredur vab Efracw*:

ac vn o'r morynyon a edrychawd ar Peredur yn graff, ac wylaw a wnaeth.³⁹²

³⁹⁰ Gereint 43: 1167-71.

³⁹¹ Gereint 51: 1381-3.

Wrth edrych ar y dyfyniad yma'n unig heb unrhyw wybodaeth bellach o'r testun mae'n anodd ei ddadansoddi, ond wrth edrych ar y cynnwys gwelwn fod y forwyn yn gwirioneddol boeni am iechyd Peredur gan fod ei thad yn lladd pob dyn sydd yn dod i'w lys heb ofyn ei ganiatâd ef. Gallwn weld yn ymateb y forwyn ar ôl iddi edrych ar Peredur ac yna'r ffaith ei bod yn wylo fod ei hymateb yn un didwyll iawn a hefyd yn rhybudd iddo.

Mae'r enghraifft nesaf yn gyferbyniol gan nad oes sylweddoliad yma ond math o bellter mawr yn yr edrychiad. Gwelwn hyn wrth i Branwen edrych draw dros Iwerddon ac Ynys y Cedyrn yn yr ail gainc:

Edrych oheni hitheu ar Iwerdon, ac ar Ynys y Kedyrn, a welei ohonunt. ³⁹³

Mae'r ffaith taw Branwen sydd yn edrych ar y ddwy wlad yma yn awgrymu pellter ac nad yw hi mewn gwirionedd gyda'r dynion gan fod ei meddwl yn bell. Atgyfnerthir hyn eto gan yr enghraifft nesaf lle mae Branwen bellach wedi marw ac y mae'r gweddill yn syllu ar y môr:

A fell dremynt oed udunt y guelet uch ben y weilgi allan. ³⁹⁴

Mae'n amlwg eu bod yn myfyrio dros y digwyddiadau erchyll a ddigwyddodd yn Iwerddon, a chawn y teimlad fod amser yn aros yn ei unfan yma.

Mae'r enghraifft yma hefyd yn rhannu'r un syniad o fyfyrio dros ddigwyddiadau o'r un chwedl:

Agori y drws a wnaeth, ac edrych ar Gernyw, ac ar Aber Henuelen. A phan edrychwys, yd oed yn gyn hyspysset ganthunt y gyniuer collet a gollyssynt eiryoet, a'r gyniuer car a chedymdeith a

³⁹² Peredur 42-43: 29-1.

³⁹³ Branwen 15: 405-6.

³⁹⁴ Branwen 16: 429-30.

gollyssynt, a'r gyniuer drwc a dothoed udunt, a chyt bei yno y kyuarffei ac wynt; ac yn benhaf oll am eu harglwydd. Ac o'r gyauwr honno, ny allyssant wy orfowys namyn ky(r)chu a'r pen parth a Llundain.³⁹⁵

Mae'r weithred yn y fan hon o agor y drws yn adlewyrchu eu bod wedi cyrraedd rhyw fath o groesffordd ac yn gweithredu fel math o ôl-fflach i'r holl golledion a'r erchylltra. Gallwn ddychmygu Heilyn yn agor y drws a syllu ar yr hyn sydd wedi digwydd iddynt fel rhyw fath o lif o ddigwyddiadau erchyll. Ceir awgrym fod y peth yn digwydd ar ruthr ond ar yr un pryd ei fod yn fath o symudiad araf yn ogystal sydd yn adlewyrchu i raddau stad meddwl y bobl yma ar ôl yr holl ymladd.

Ceir enghraifft yn chwedl *Manawydan Uab Llyr* ohono ef yn myfyrio dros y wlad:

Ac yna kyuodi a oruc ynteu ac edrych. A phan edrych, ef a welei yr holl wlat yn gyuanhed, ac yn gyweir o'y holl alauoed a'y hanedeu.³⁹⁶

Dyma fel y dechreuodd y gainc ('edrych a wnaeth Manawydan ar y dref yn Llundain, ac ar y gydymdeithon, a doddi ucheneit uawr, a chymryt diruawr alar a hiraeth yndaw'),³⁹⁷ a chan ei bod yn gorffen fel hyn mae'n gwneud cylch i'r chwedl. Yn y dyfyniad yma mae'r ffaith fod Manawydan yn edrych dros y wlad ac yn myfyrio yn rhan o'r dod i gasgliad yma gan ei fod ef yn gyfrifol am y bywyd newydd a'r ffrwythlondeb sydd yma.

Math arall o edrychiad sydd yn codi yn y *Mabinogion* yw edrych o amgylch y lle, a gwelwn yr enghraifft gyntaf o *Ystorya Gereint Uab Erbin*:

Seuyll ac edrych a oruc Gereint a uydei dim gohir arnaw yny castell;³⁹⁸

³⁹⁵ Branwen 17: 452-8.

³⁹⁶ Manawydan 11: 368-70.

³⁹⁷ Manawydan 1: 3-4.

³⁹⁸ Gereint 6-7: 180-1.

Gallwn weld fod Geraint yn aros i wneud yn siŵr bod y gŵr yma'n aros yn y castell cyn iddo fynd ati i benderfynu beth yw ei symudiad nesaf. Mae hyn hefyd yn cyfleu rhywfaint o ansicrwydd.

Ceir enghraifft o'r math yma o edrychiad yn digwydd yn chwedl *Manawydan Uab Llyr* hefyd:

Pan doeth y'r gaer, na dyn, na mil, [70] na'r baed, na'r cwn, na thŷ, nac aned, ny welei yn y gaer. Ef a welei, ual am gymherued llawr y gaer, fynnawn a gueith o uafen marmor yn y chylch. Ac ar lan y fannawn, cawg [eur en rwymedic urth bedeir cadwyn, a hynny] uchbenn llech o uafen marmor, a'r cadwyneu yn kyrchu yr awyr; a diben ny welei arnunt.³⁹⁹

Dyma wendid Pryderi yn y fan hon sef yr aur: gwelwn ei fod yn gymeriad chwilfrydig iawn sydd yn mynd i mewn i'r gaer ac yn rhyfeddu wrth weld yr holl bethau yma. Pwysleisir hyn gan y ffaith fod ei lygaid yn dilyn i fyny i ben y 'cadwyneu' a oedd 'yn kyrchu yr awyr' fel petai'n rhywbeth sydd yn meddiannu cymeriad Pryderi.

Gwelwn Gwalchmai yn edrych o amgylch y lle yn *Ystoria Gereint Uab Erbin*:

"Gereint, y rof a Duw!" heb ynteu; "a cherdet aghyghorus truan yw hwn," ac edrych yn y gylch a oruc ac arganuot Enyt, a'e chressawu a bot yn llawen vrthi.⁴⁰⁰

Wrth iddo wneud hyn gwêl Enid ac y mae'n amlwg ei fod yn falch o'i gweld gan fod Geraint mewn tipyn o stad ar ôl ymladd gyda'r marchog arall.

Mae yma enghraifft o edrychiad oeraidd yn ogystal yn nhrydedd gainc y *Mabinogi*:

A'e aros ynteu a wnaeth Manawydan hyt parth a diwed y dyd. A phrynhawn byr, guedy bot yn diheu gantaw ef na chaei chwedleu y wrth Pryderi nac y wrth y cwn, dyuot a oruc parth a'r llys. Pan daw y mwyn, sef a wnaeth Riannon, edrych arnaw.⁴⁰¹

³⁹⁹ Manawydan 5: 160-5.

⁴⁰⁰ Gereint 43: 1172-4.

⁴⁰¹ Manawydan 5-6: 171-4.

Mae'r ffaith bod Manawydan yn dychwelyd i'r llys ar ei ben ei hun yn dangos anobaith a'i fod wedi rhoi'r gorau iddi. Mae ymateb Rhiannon i hyn mor oeraidd: gwelir hyn yn ei hymddygiad tuag at Manawydan, yn y ffordd mae'n 'edrych arnaw' mor ddiemosiwn. wrth iddo dychwelyd ar ei ben ei hun. Gall personoliaeth gref Rhiannon synhwyro ar unwaith fod Pryderi mewn perygl. Mae'r ymateb gyda'r edrychiad oeraidd yma'n dangos gymaint y mae'n poeni am ei mab.

Ceir enghreifftiau o edrych yn gariadus, a gallwn weld bod serch a chariad ar ddechrau yma hefyd. Yn yr enghraifft hon mae'r Iarlles yn edrych ar Peredur yn *Historia Peredur vab Efracw*:

A hitheu a edrychawd ar Peredur.⁴⁰²

Nid oes disgrifiad o sut mae'n edrych ar Peredur ond wrth edrych ar y cynnwys a'r cyddestun, gwelwn fod y gŵr du newydd ben-glinio o flaen yr Iarlles a rhoi'r cwpan iddi gan ddweud wrthi am roi hwn i'r dyn y mae'n ei charu a dweud y bydd yn fodlon ymladd drosti. Digwydd hyn sawl tro gyda gwahanol ddyinion, a phob tro edrych hithau ar Peredur; gallwn gasglu wrth yr edrychiad yma felly ei bod hi am iddo ef ymladd drosti.

Dyma ddarlun meddal a phersonol yn *Ystoria Gereint Uab Erbin* rhyngddo ef a'i wraig:

A boregweith yr haf yd odynt yny gwely (ac ynteu vrth yr erchwyn, ac Enyt a oed heb gysgu) y mywn ystauell wydrin, a'r heul yn tywynnu ar y gwely, a'r dillad gwedy ry lithraw y ar y dwyuron ef a'e dwy ureich, ac ynteu yn kyscu. Sef a oruc hitheu, ydrych tecket ac aruthred yr olwc a welsei arnaw, a dywedut, "Gway ui," heb hi, os o'm achaws i y mae y breicheu hyn a'r dwyuron yn colli clot a milwryaeth kymeint ac a oed eidunt." A chan hynny ellwg y dagreu [417] yn hidleit yny dygwydassant ar y dwyuron ef.⁴⁰³

⁴⁰² Peredur 55: 16-7.

⁴⁰³ Gereint 25: 707-15.

Gallwn weld fod Enid yn ei helpen yn y fan hon gyda'i gŵr ac yn amlwg fod yna gariad rhyngddynt yn y ffordd y mae'n edrych⁴⁰⁴ ar ei gŵr ac yn gollwng dagrau hapusrwydd.

Arweinia'r enghraifft ddiwethaf at fath arall o gyfathrebu sef ymserchu. Yn y chwedlau ceir sawl enghraifft o 'ymserchu' a olyga nid o reidrwydd gwympo mewn cariad, na theimlo cyffro rhywiol sydd yn achosi cochi'r wyneb, sef 'gwriddo' ond sydd hefyd yn gallu cyfeirio at deimladau sydd yn agos at fod yn rhai tebyg i'r hyn a achosir gan salwch, e.e. twymyn, gwres, ac yn y blaen. Y ddelwedd fwyaf ystrydebol o hyn yn digwydd yw'r dyn yn gweld y ferch ac yn ymserchu ynddi, ac yna effeithia hyn arno'n gorfforol drwy ei wneud yn gorfforol sâl. Gall hyn fod yn ddarlun sensitif iawn sydd yn datgelu llawer drwy iaith y corff am gymeriad a sut mae'n teimlo tuag at gymeriadau arall.

Daw'r enghraifft gyntaf o chwedl *Manawydan Uab Llyr*:

Ac yna dechreu kydeisted ac ymdidan o Uanawydan a Riannon; ac o'r ymdidan tirioni a wnaeth y uryt a'y uedwl wrthi, a hoffi yn y uedwl na welsei eiryoed wreic digonach y theket a'y thelediwet no hi.⁴⁰⁵

Yn y dyfyniad mae'n amlwg fod Manawydan yn dechrau ymserchu yn Rhiannon - ond defnyddir y ferf *tirioni* yma yn hytrach na'r ferf *ymserchu*. Yn yr enghraifft hon, mae fel petai'n ceisio cuddio ei deimladau drwy reoli ieithwedd ei gorff. Datgela ei deimladau wrthi yn ei feddwl drwy ddweud yn y naratif 'a hoffi yn y uedwl na welsei eiryoed wreic digonach y theket a'y thelediwet no hi.' Dengys hyn yn fy marn i'r aeddfedrwydd sydd yn perthyn i gymeriad Manawydan a hefyd tanlinella'r gwahaniaeth oedran sydd

⁴⁰⁴ Sonnir Cairns am y ffordd y mae cariadon yn edrych ar ei gilydd a taw 'the eye is the focus of affection' gw. Cairns, (gol.) 'Bullish Looks and Sidelong Glances', 133.

⁴⁰⁵ Manawydan 1: 29-31.

rhyngddo a chymeriadau gwrywaidd eraill yn y *Mabinogion*. Dywed Ford amdano, ‘...his character is one of steadfastness, deliberateness, resolve. He is judicious in his actions, patient, determined.’⁴⁰⁶ Mae’r enghraifft yma yn un graff iawn o’i chymharu ag episodau eraill o gymeriadau’n ymserchu. Gwelir hyn yn yr enghreifftiau canlynol ac yn mynd yn erbyn y confensiwn o’r salwch corfforol wrth ymserchu a oedd yn rhan o’r serch cwrtais.

Enghraifft arall o’r ystum hwn yn digwydd yw Gilfaethwy’n ymserchu ym morwyn Math, sef Goewin yn y bedwaredd gainc. Mae’r enghraifft hon yn hollol gyferbyniol i’r un ddiwethaf gan y gwelwn fwy o bwyslais ar yr ochr gorfforol yma sydd efallai’n adlewyrchu anaeddfedrwydd cymeriad Gilfaethwy.

Ac nachaf y liw a’y wed a’y ansawd yn atueilaw o’y charyat, hyt nat oed hawd y adnabot.⁴⁰⁷

Y mae’r enghraifft yma’n hynod o ddiddorol gan yr awgryma wrth gael disgrifiad o’i ddiffyg ‘liw a’y wed a’y ansawd’ fod y cariad neu’r serch nwydwyllt a deimla Gilfaethwy tuag at Goewin yn ei wneud yn gorfforol sâl, ac y mae hyn yn ddisgrifiad mwy nodweddiadol o’r enghreifftiau a gawn yn llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod.⁴⁰⁸ Ond yn yr enghraifft hon hefyd, cyflëir y syniad fod Gilfaethwy yn troi yn rhywun arall, bron, dan ddylanwad ei obsesiwn â Goewin: pwysleisir nad oes modd ymresymu ag ef. Y mae hyn wrth gwrs yn wahanol iawn i’r ffordd y profodd Manawydan ymserchu yn Rhiannon.

Ceir darlun personol iawn o ymserchu yn chwedl *Breudwyt Maxen Wledic*:

⁴⁰⁶ P. K. Ford, (gol.) *Manawydan Uab Llyr* (Belemont, 2000), xvii.

⁴⁰⁷ Math 1: 15-16.

⁴⁰⁸ Trafoda Benson y tebygrwydd rhwng ystumiau ymserchu ac ystumiau galaru. Sonia am y symptomau o gollu lliw yn eu gwyneb a bod yn gorfforol sal, gw. R. G. Benson, *Medieval Body Language: A Study of the Use of Gesture in Chaucer's Poetry* (Copenhagen, 1980) 23-4.

A phan ytoed ef a'e dwy law am vunwgyl e vorwyn ac a'e grud ef urth y grud hitheu, rac angerd e kwn urth e kynllyvaneu a'e yscwyd urth e taryaneu en kyuarvot y gyt⁴⁰⁹

Ni cheir sôn am yr effaith gorfforol yn y fan hon ond yn hytrach y manylder o ran y bochau'n cyffwrdd â'i gilydd wrth i foch Macsen gyffwrdd yn erbyn boch y forwyn. Awgryma hyn efallai fod y broses o ymserchu ar ddechrau yma. Y mae hyn yn wahanol iawn ac yn unigryw ymhlith enghreifftiau eraill o ymserchu yr wyf wedi eu trafod eisoes gan fod yna elfen o gyffwrdd corfforol yma, ond pwysleisiaf nad oes cusan yn digwydd yn yr enghraifft hon. Gellid dadlau fod y disgrifiad o 'angerdd' y cŵn yn bwrw peth o'i gysgod ar y cyffwrdd corfforol rhwng y cymeriadau, fel y mae'r ferf a ddefnyddir wrth sôn am y tarianau, yn 'ymgyhwrdd y gyt.'

Parhawn gyda chwedl *Breudwyt Maxen Wledic* ac effaith y cyffwrdd bochau gyda'r forwyn ar Macsen:

A phan deffroes hoedel nac einnyoes na bywyd nyt oed idaw am e vorwyn a ry welsei trwy e hun. Kyhung vn asgurn endaw na menwes vn ewin yg kyuoethach lle a vei uwy no hwnnw nyt oed ar ny bei gyflawn o gareat e vorwyn.⁴¹⁰

Gwelwn yr effaith gorfforol yn y fan hon gyda'r ffaith nad yw Macsen eisiau bwyta na gwneud dim ond gweld y forwyn a welodd yn ei freuddwyd. Y mae hyn eto'n enghraifft ystrydebol o ymserchu yn llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod.

Ceir enghraifft dda o ymserchu yn chwedl *Kulhwch ac Olwen*, gyda Culhwch yn syrthio mewn cariad gydag Olwen ferch Ysbyddaden Bencawr:

Lliuaw a oruc y mab, a mynnet a oruc serch y uorwyn ym pob aelawt itaw kyn nys rywelhei eirot.⁴¹¹

⁴⁰⁹ BM 3: 79-82.

⁴¹⁰ BM 3: 85-89.

⁴¹¹ KO 2-3: 52-3.

Gellir gweld adwaith Culhwch i dynged ei lysfam yn adwaith ystrydebol a nodweddiadol o rywun yn eu harddegau, darlun y gallwn ymuniaethu ag ef heddiw, fel petai rhiant wedi darganfod a datgelu bod plentyn iddo mewn cariad gyda rhywun arall, a'r ymateb cyntaf yw cochi! Mae amwysedd celfydd yma hefyd wrth sôn am serch yn mynd 'ym mhob aelod' o'i gorff: ni ellir anwybyddu'r cyfeiriad yma at ochr fiolegol y cyffro rhywiol. Y mae ymateb Culhwch i hyn yn adlewyrchiad cywir o'i oedran a'i aeddfedrwydd yn fy marn innau, ac felly ceir cysonder yma rhwng y ffeithiau ac iaith ei gorff.

Ceir enghraifft debyg o ymserchu yn chwedl *Owein* hefyd:

A phan welas ef y wreic ennynu a wnaeth o'e charyat yny oed gyflawn pop lle yndaw.⁴¹²

Y mae'r effaith gorfforol yma ar Owain — y gwrido o achos y wraig — yn un ystrydebol ac yn rhan o symptomau'r clefyd serch: y serch cwrtais, gyda'r syniad bod cariad yn llenwi pob rhan o'i gorff. Mae hyn eto'n rhannu'r un syniad â'r effaith a gafodd ar Gilfaethwy, fod cariad neu ymserchu yn rhyw fath o dostrwydd hyd yn oed wrth i'r corff chwyddo, neu dwymo. Mae hyn hefyd yn ddisgrifiad eithafol iawn bod y cariad yn llanw pob rhan o'i gorff, ond dyma eto y math o ormodiaith sydd yn nodweddiadol o ddisgrifiadau llenyddol yr Oesoedd Canol.

Ceir enghraifft sydd yn werth ei nodi yn *Historia Peredur Vab Efracw* o effaith ymserchu ar y corff, ond nid yw Peredur yn ymserchu yn yr un ferch ond yn hytrach hiraethu a wna am lys Arthur a'r ferch a garai yno:

Ac uelly y bu ef yn hir yn yr agherdet hwnnw, heb dywedut vn geir wrth neb ryw Gristyawn ac hynny yttoed yn colli y liw a'e wed o tra hiraeth yn ôl llys Arthur a'r wreic uwyhaf [150] a garei, a'e getymdeithon.⁴¹³

⁴¹² Owein 14: 360-1.

⁴¹³ Peredur 40: 14-9.

Yr un yw'r effaith gorfforol wrth iddo 'colli y liw a'e wed' ond mae'r pwyslais yma ar yr hyn a gollir — ac ar y darlun ohono'n dihoeni am ei fod i ffwrdd oddi wrth y ferch. Ceir yma ddarlun mwy disgybledig ac aeddfed na'r rhai blaenorol.

Yn y dyfyniad isod gwelwn fod Blodeuwedd a Gronw Pebr yn ymserchu yn ei gilydd yn y bedwaredd gainc:

Ymdiarchenu, a mynnet y eisted a wnaethant. Sef a wnaeth Blodeued, edrych araw ef, ac yr awr yd edrych, nit oed gyueir arnei hi ny bei yn llawn o'e garyat ef. Ac ynteu a synywys arnei hitheu; a'r un medwl a doeth yndaw ef ac a doeth yndi hitheu. Ef ny allwys ymgelu o'e uot yn y charu, a'e uenegi idi a wnaeth. Hitheu a gymerth diruawr lywenyd yndi. Ac o achaws y serch, a'r caryat, a dodassei pob un o honunt ar y gilyd, y bu eu hymdidan y nos honno. Ac ny bu ohir e ymgael o honunt, amgen no'r nos honno. A'r nos honno kyscu y gyt a wnaethant.⁴¹⁴

Gellir dadlau mai dyma'r tro cyntaf i Blodeuwedd ymddangos yn ddynol gan y dywed 'ac yr awr yd edrych, nit oed gyueir arnei hi ny bei yn llawn o'e garyat ef.' Mae hyn yn bwysig iawn gan fod y disgrifiad yn adlewyrchu'r disgrifiadau a geir o ddynion yn ymserchu — rhywbeth nad oedd fel arfer yn cael ei ddarlunio yn y rhyddiaith Gymraeg. Rhaid cofio fod Blodeuwedd yn rhyw fath o goctel dynol wedi'i chreu allan o'r holl flodau yma, a hyd yma yn y chwedl mae wedi ymddangos yn gymeriad rhyfedd iawn heb wreiddiau ac yn ysbryd rhydd. Mae hyn yn enghraifft odidog o'r cyfathrebu aneiriol yma sydd yn y chwedlau: o'r dyfyniad uchod gallwn weld fod y ddau yn rhannu eu cariad tuag at ei gilydd heb hyd yn oed yngan yr un gair, ond wrth ddarllen ieithwedd cyrff ei gilydd y maent yn gwybod hyn. Ceir yma ddarlun sensitif a gonest iawn o'r ddau'n ymserchu yn ei gilydd sydd yn eironig i raddau gan mai nhw yw'r cymeriadau drwg yn y diwedd. Sylwer hefyd fod y disgrifiad yn hir iawn, ac yn fwy cignoeth na'r disgrifiadau caru arferol am mai godineb sydd gennym yn y fan hon ac anffyddlondeb. Casglaf fod hyn am

⁴¹⁴ Math 12: 414-22.

fod y peth yn waharddedig: rydym ni'r gynulleidfa felly yn cael cip, ac mae hyn mewn ffordd yn gogleisio'r 'gwylwyr'.

Gwelwn yn y bennod yma enghreifftiau o edrychiadau gwahanol ac effaith corfforol ymserchu fel rhan o gyfathrebu aneiriol sydd yn hollbwysig wrth astudio iaith y corff yn *y Mabinogion*.

Pennod 6: Ystumiau Geiriol.

Yn y chwedlau, yn ogystal ag ystumiau corfforol ceir cyfeiriadau hefyd at ystumiau geiriol. Mae'r rhain yn berthnasol i'r maes ymchwil hwn gan eu bod hefyd yn gallu datgelu llawer inni am y cymeriadau. Fel y dengys Aldrette wrth astudio gwaith areithyddion Rhufain gynt, mae pwysigrwydd mawr i ystumiau geiriol fel rhan o'u perfformiad: 'Gestures and voice tone were conventionally regarded as forming the main elements of delivery. A complex and versatile vocabulary of hand and body gestures developed, which prospective orators had to master in order to present their speeches most persuasively.'⁴¹⁵

Ceir sawl enghraifft o gymeriadau'n ochneidio yma sydd yn gallu cyfleu anobaith neu ymostyngiad. Mae'r ochneidio yn ein paratoi ni at ryw emosiwn sydd yn cael ei fynegi gan y cymeriad – gan amlaf mae'n adlewyrchu rhyw faich enfawr sydd ar gymeriad neu hyd yn oed yn arwyddo fod cymeriad yn dwyn i gof ddigwyddiadau trist neu erchyll. Yn yr enghraifft yma o'r ail gainc, Branwen sydd yn ochneidio:

A dodi ucheneit uawr, a thorri y chalon ar hynny.⁴¹⁶

Mae hyn yn ddarlun trist iawn sydd yn adlewyrchu'r holl faich a oedd ar ysgwyddau Branwen, a gellir dadlau fod hyn yn ddarlun ystrydebol o fenyw yn yr Oesoedd Canol gan ei bod yn cymryd y bai i gyd am yr hyn a ddigwyddodd, er nad ei bai hi ydoedd; adlewyrchir hyn yn yr ochenaid o anobaith, fel petai'n amhosibl mynd yn erbyn y drefn. Dywed Sioned Davies am hyn: 'Gwrywaidd iawn oedd natur y gymdeithas ganoloesol; cymdeithas ydoedd a reolid gan ddiwinyddiaeth hollol wrywaidd a chan foesoldeb a

⁴¹⁵ Gregory S. Aldrette, *Gestures and Acclamations in Ancient Rome* (Baltimore, 1999), xix.

⁴¹⁶ Branwen 15: 408.

grëwyd gan ddynion ar gyfer dynion.’⁴¹⁷ Gwelwn hyn yn cael ei adlewyrchu’n glir yma yn enghraifft Branwen.

Daw’r enghraifft nesaf o ddechrau’r drydedd gainc ac y mae cysonder yn y dyfyniad hwn rhwng diwedd yr ail gainc a dechrau’r drydedd gainc, awgrym efallai fod i’r *Pedair Cainc* uniad arbennig:⁴¹⁸

edrych a wnaeth Manauydan ar y dref yn Llundain, ac ar y gedymdeithon, a doddi ucheneit uawr, a chymryt diruawr alar a hiraeth yndaw.⁴¹⁹

Yn yr enghraifft hon gwelwn fod yna agwedd eithaf ymlaciol ac isel yma ar ôl yr holl frwydro yn Iwerddon a bod Manawydan yn myfyrio dros Lundain ac yn cofio’r colledion i gyd. Mae’r ochenaid yma gan Manawydan yn cyfleu’r cofio yma. Mae hyn hefyd yn adlais mewn ffordd o olygfa Branwen pan fydd hithau’n edrych dros y ddwy ynys wrth sefyll ar lan Afon Alaw/Aber Alaw (gorllewin Môn) ac yn rhoi ochenaid fawr cyn marw; gwelwn felly gysonder ac adleisiau yma unwaith eto.

Dyma enghraifft wahanol iawn o ochenaid yn cael ei defnyddio yn chwedl *Math Uab Mathonwy* gyda Gilfaethwy yn rhoi ochenaid wrth iddo sylweddoli bod Gwydion ei frawd yn gwybod ei feddwl:

Sef a wnaeth ynteu yna, pan wybu ef adnabot o’y urawt y uedwl, doddi ucheneit dromhaf yn y byt.⁴²⁰

⁴¹⁷ Davies, ‘Y ferch yng Nghymru’r Oesoedd Canol’, 3.

⁴¹⁸ Dywed Sioned Davies am hyn ‘O gofio’r dilyniant amlwg sydd rhwng yr ail a’r drydedd gainc tybed a ellir dadlau mai un oeddynt yn wreiddiol,’ Gw. Sioned Davies, *Pedair Keinc y Mabinogi* (Caernarfon, 1989), 20.

⁴¹⁹ Manawydan 1: 3-5.

⁴²⁰ Math 1: 25-7.

Mae'r ymateb o ochenaid gan Gilfaethwy yn dangos y straen a oedd arno i gadw'r gyfrinach rhag Math, a hefyd mae'r gwybod meddwl yn adlewyrchu'r straen oedd arno'n ogystal.

Nodir fod enghreifftiau eraill o wybod meddwl yn cael eu crybwyll heb ymhelaethu er enghraifft yn *Breudwyt Ronabwy*:

A gwybot a wnaeth Arthur pan yw hynny a uedylyei Owein⁴²¹

Mae'r ffaith fod Arthur yn gwybod meddwl Owain yn dangos fod hyn yn nodweddiadol o'i gymeriad fel arwr doeth a phennaeth ei filwyr, ac wrth gwrs Arthur ydyw – un o arwyr mwyaf llenyddiaeth.

Ceir enghraifft arall o wybod meddwl yn *Ystoria Gereint Uab Erbin*, ond yn yr enghraifft hon gwelwn fod yna gamddealltwriaeth mawr wrth i Geraint gamddeall dagrau hapusrwydd Enid a chredu ei bod yn anhapus ac arni eisiau bod gyda dyn arall:

Ac un o'r pethu a'e deffroes ef uu hynny, y gyt a'r ymadrawd a dywawt hi kyn no hynny. A medwl arall a'e kyffroes ynteu, nat yr ymgeled ymdanaw ef y dywedassei hi hynny, namyn yr ystyryaw caryat ar vr arall drostaw ef, a damunaw yscaualwch hepdaw ef. Ac ar hynny sef a oruc Gereint antagneuedu yn y uedwl, a galw ar yscuer idaw, a dyuot hwnnw attaw.⁴²²

Mae hyn yn ddarlun sensitif iawn o'r ddau gyda'i gilydd mewn sefyllfa breifat a hefyd wrth inni weld y gofal sydd gan Enid am ei gŵr; mae'n enghraifft arbennig o dda o'r cyfathrebu aneiriol a welir yn y *Mabinogion*, yn dangos hefyd yn yr achos hwn fod yna gamddealltwriaeth mawr rhwng y gŵr a'r wraig.

⁴²¹ BR 12: 16-7.

⁴²² Gereint 25: 715-22.

Mae yma sawl enghraifft o ‘ddiaspad’ (gwaedd neu sgrech) yn y chwedlau sydd yn dynodi sawl peth gwahanol. Yn yr enghreifftiau yma gwelwn sgrechiadau baban. Yn y dyfyniad yma rhydd y baban sgrech fel petai newydd gael ei eni yn chwedl *Math Uab Mathonwy*:

Sef a wnaeth y mab, doddi diaspat uchel.⁴²³

Ceir sgrech arall gan y baban yn nes ymlaen hefyd:

Val yd oed Wydyon diwarnawt yn y wely, ac yn deffroi, ef a glywei diaspat yn y gist is y draet. Kyny bei uchel hi, kyuuch oed ac y kigleu ef.⁴²⁴

Atgoffa hyn ni o faban yn sgrechian yn y nos wrth ddihuno: ceir darlun cynnil iawn o gymeriad tadol Gwydion yn tendio ar ei fab ac yn effro i sŵn y baban mewn ffordd y byddwn yn ei chysylltu â mam yn glustiau i gyd; gwelwn felly Gwydion yn cymryd rôl y ddau riant yn y fan hon.

Nodir enghreifftiau o bobl yn sgrechian hefyd mewn poen. Mae’r sgrechian yn cyfleu’r boen mae Llew ynnddi wrth iddo gael ei droi’n eryr gan Blodeuwedd a Gronw:

Ac yna bwrw ehetuan o honaw ynteu yn rith eryr, a doddi garymleis anhygar. Ac ny chahat y welet ef odynd y maes.⁴²⁵

Cawn y cyfeiriad yma at ‘dodi’ eto fel y ceir gyda’r ochneidio a’r sgrechian sydd yn adlewyrchu fod y sgrech yma’n digwydd yn awtomatig oherwydd y boen.

Yn y dyfyniad canlynol adlewyrchir y sgrech yn dda gyda’r boen y mae Cacamwri a Hygwydd ynnddi ar ôl ymladd â’r wrach yn chwedl *Kulhwch ac Olwen*:

ac ymchoelut a oruc hitheu ar Kacamwri, ac eu dygaboli yll deu ac eu diaruu, a’e gyrru allan dan eu hub ac eu hob.⁴²⁶

⁴²³ Math 7: 241.

⁴²⁴ Math 8: 254-6.

⁴²⁵ Math 14: 483-5.

⁴²⁶ KO 41-42: 1215-7.

Er y gallwn gasglu bod y ddau mewn poen enbyd ar ôl ymladd gyda'r wrach, ceir darlun doniol ohonynt oherwydd techneg naratif cyfystyron a chyflythrennu wrth iddynt gael eu 'gyrru allan dan eu hub ac eu hob' sydd yn golygu cael eu gyrru allan dan grio a than weiddi, disgrifiad sydd yn effeithiol iawn wrth adlewyrchu sain yr ystum geiriol.

Ceir enghraifft o sŵn rhuo (*discyr*) yn nhestun *Owein* hefyd, ac yn y dyfyniadau yma clyw Owain y sŵn yn y coed:

Ac val vd oed y velly yn kerdet, ef a glywei discyr vawr y mywn coet, a'r eil, a'r drydet.⁴²⁷
ac eto:

Ac val y bydei Owein y velly ef a glywei och wawr, a'r eil, a'r trydet, ac yn agos attaw.⁴²⁸
Atynna hyn ei sylw sydd yn ei ddenu at y coed, gan adeiladu tensiwn hefyd i'r stori yn enwedig gan mai rhuo llew sydd yma.

Mae sawl enghraifft o sgrechian yn digwydd mewn perthynas â thema'r forwyn mewn cyfyngder a'r marchogion yn dod i'w hachub sydd yn nodweddiadol o'r tair rhamant Gymraeg. Yn yr enghraifft ganlynol o *Historia Peredur vab Efrawc*, Peredur sydd yn cael ei ddenu i achub y forwyn yn y goedwig:

Odyna ef a doeth y goet, ac ympell yn y coet ef a glywei diaspat.⁴²⁹
Atynna'r sgrech yma sylw'r marchog ac fe'i dena ato.

Digwydd yr un peth eto yn *Historia Peredur Vab Efrawc*, ond y tro hwn nid sgrech morwyn sydd yma ond yn hytrach sgrech dyn:

⁴²⁷ Owein 24: 661-2.

⁴²⁸ Owein 25: 681-3.

⁴²⁹ Peredur 20: 24-5.

Ac y gyt a'r dyd Peredur a glywei diaspat, a chyfodi yn gyflym a oruc Peredur o'e grys a'e lawdwr, a'e gledyf am y vynwgyl, ac allan y doeth. A phan daw yd oed widon yn ymordiwes a'r gwylwr, ac ynteu yn diaspedein.⁴³⁰

Eto atynna'r sgrech Peredur at y gwylwr i'w helpu a chan fod hwnnw o dan ymosodiad gan wrach, atgyfnerthir y gred yn y byd goruwchnaturiol.

Yr un effaith a geir gan y sgrech yma eto sef tynnu sylw pobl, ond ceir gormodiaith yn y naratif wrth i'r awduron sôn am y 'diaspad grochaf o'r byt yn agos udunt' yn *Ystoria Gereint Uab Erbin*:

a'r brifford a dilynawd; ac ual y bydynt y uelly wynt a glywynt diaspad grochaf o'r byt yn agos udunt.⁴³¹

Mae'n ddiddorol sut y mae'r darlun mor aml yn un eithafol fel yn yr enghreifftiau blaenorol, a hyn yn gwneud y stori'n fwy dramatig.

Adlewyrcha sgrech Enid ymateb onest tu hwnt yn yr un chwedl:

A ffan welas ef Enyt y dygwydawd yn uarw y'r llawr y ar y uarch. Diaspat athrugar aruchel didaweldost a rodes Enyt,⁴³²

Gallwn weld ei bod yn meddwl o ddifrif fod ei gŵr wedi marw. Sgrechia Enid yn nes ymlaen yn y stori wrth iddi gael bonclust gan yr Iarll sydd yn ceisio cael Enid i fwyta:

Sef a oruc hitheu, doddi diaspat uawr arucheldost [805] a doluryaw yn uwy yna o lawer no chyn no hynny, a doddi y dan y medvl pei byw Gereint na bonclustit hi y uelly.⁴³³

Wrth iddi sgrechian gwelwn ei bod hi mewn poen gorfforol yn ogystal â phoen feddyliol am ei gŵr. Mae'r elfen swnllyd yn y darnau hyn yn rhoi amrywiaeth a drama i'r chwedlau, wrth gwrs, gan roi amrywiaeth i'r naratif.

⁴³⁰ Peredur 29: 25-30.

⁴³¹ Gereint 45: 1227-8.

⁴³² Gereint 46: 1258-9.

⁴³³ Gereint 48: 1298-1300.

Ceir ambell enghraifft o ddau ystum geiriol gyda'i gilydd megis sgrechian a llefain. Mae cynnwys y ddau yma gyda'i gilydd yn gwneud y peth hyd yn oed yn fwy dramatig.

Daw'r enghraifft ganlynol o *Historia Peredur Vab Efrac*:

Ac yna diaspedein a llefein a oruc pawb, hynny oed anawd y neb bot yn vn ty ac wynt. Yn y diwed peidaw a hynny a orugant, ac eisted tra uu amkan ganthunt ac yfet. Yn ôl hynny ystauell a gyweirwyt y Peredur ac y gyscu yd aethant.⁴³⁴

Eto ceir gormodiaith yma'n adlewyrchu gwir eithafiaeth ymateb pawb; mae hyn i bob pwrpas yn arwydd o wallgofrwydd. Ceir enghraifft arall o hyn yn digwydd yn nes ymlaen:

A phan welas pawb y gweisson yn dyuot yn y wed honno, llefein a drycyruerth a gymerth pawb yndunt, hyt nat oed hawd y neb y diodef.⁴³⁵

Gwelwn yr enghraifft yma o destun *Historia Peredur Vab Efrac* unwaith eto ac adlewyrcha y gwallgofrwydd a'r ofn am beth sydd yn digwydd yn yr olygfa.

Mae llefain yn enghraifft ddiddorol o ystum geiriol gan fod hyn hefyd yn rhywbeth nad yw'r corff yn gallu ei reoli'n hawdd. Yn yr enghraifft hon o'r drydedd gainc gwelwn fod ymateb Cigfa yn un eithaf didwyll. Ofna fod ar ei phen ei hun gyda Manawydan. Er nad yw Manawydan yn gymeriad cas o gwbl, mae Cigfa'n dal i fod yn ofnus am ei lles yn ei gwmni; adlewyrcha hyn sefyllfa merched yn yr Oesoedd Canol a'r ffaith y gallai dynion ddwyn gwragedd eraill trwy drais ac o'u hanfodd:

Pann welas Kicua, uerch Gwyn Gloew, gwreic Pryderi, nat oed yn y llys namyn hi a Manawydan, drygyruerth a wnaeth hyt nat oed well genti y byw no'y marw. Sef a wnaeth Manawydan, edrych ar hynny.⁴³⁶

Y mae ymateb Cigfa i'r sefyllfa yn eithaf dramatig a chawn y teimlad mai poeni am ei lles ei hunan yn absenoldeb ei gŵr y mae'n bennaf yn hytrach nag am les ei gŵr. Mae'r

⁴³⁴ Peredur 20: 16-21.

⁴³⁵ Peredur 20: 7-9.

⁴³⁶ Manawydan 6: 188-91.

llefain yn yr enghraifft hon yn arwydd o ofn ac mae ei hymateb ‘byw no’y marw’ hefyd yn adlewyrchu ei hymateb eithafol. Mae rhyw fath o gamddealltwriaeth letchwith yma — nid yw Cigfa am i Manawydan sylweddoli ei bod wedi amau ei gymhellion.

Mae’r enghraifft nesaf yn wahanol i’r enghreifftiau eraill o lefain yr wyf wedi eu trafod yn barod, ac yn awgrymu fod y broses o lefain yn fwy cynnil nag un o’r enghreifftiau eraill o *Historia Peredur vab Efracw*:

Ar hynny kyfodi a wnaeth y vorwyn y vynyd y dan ellwg y dagreu, a dyfot racdi y’r ystauell. A chan twrwf y dor yn agori, deffroi a oruc Peredur. Ac yd oed y uorwyn a’e dagreu ar hyt y grudyeu yn redec.⁴³⁷

Mae’n ddarlun personol iawn gyda’r manylder am y dagrau yn llifo ar ruddiau wyneb y forwyn yn dangos emosiwn didwyll. Gwelwn enghraifft o hyn yn digwydd yn *Canu Heledd* yn ogystal wrth i’r dagrau lifo ar fochau Heledd, gyda’r ‘Wylaf wers; tawaf wedy,⁴³⁸ ac yn nes ymlaen ‘Dygystud deurud dagreu.’⁴³⁹ Dyma’r math o ddarlun a geir yn yr Hengerdd o fenywod – sef menywod yn galaru ac yn crïo am eu gwŷr a’u meibion. Gwelwn enghraifft bellach yn *Armes Prydein Vawr*: ‘dec[h]ymyd anaeleu dagreu gwraged’.⁴⁴⁰ Fodd bynnag, yn yr enghraifft sydd dan sylw, y rheswm y mae’r forwyn yn llefain yw ei bod ar fin cael ei rhoi i ddyn i’w briodi, ond nid oes ar y forwyn eisiau ei briodi, ac nid yw ei thad am ei rhoi i rywun nad yw hi am ei briodi. Atgyfnertha hyn eto wir sefyllfa menywod yn yr Oesoedd Canol a’r bywyd caled a oedd ganddynt fel rhan o’r gêm wleidyddol, fel y dywed Sioned Davies, ‘...perthnasau gwrywaidd y ferch a oedd yn bwysig, ac mai rhywbeth i’w feddiannu oedd merch.’⁴⁴¹ Ochr fwy sinigaidd hyn yw bod

⁴³⁷ Peredur 24-25: 28-2

⁴³⁸ Canu Heledd, ‘Stafell Gynddylan’, yn Williams, (gol.) *Canu Llywarch Hen*, 35.

⁴³⁹ Canu Heledd, ‘Stafell Gynddylan’, yn Williams, (gol.) *Canu Llywarch Hen*, 36.

⁴⁴⁰ Ifor Williams, (gol.) *Armes Prydein* (Dublin, 1972), 4.

⁴⁴¹ Davies, ‘Y ferch yng Nghymru’r Oesoedd Canol’, 18.

modd i fenywod y cyfnod ddefnyddio eu cyrff (y llefain yma) i ddwyn perswâd ar ddynton - i'w cyffroi, a'u cael i wneud pethau drostynt, ac y mae hyn yn wir i raddau hyd heddiw.

Digwydd sawl enghraifft o chwerthin fel rhan o gyfathrebiad aneiriol, gan amlaf yn adlewyrchu hapusrwydd yn chwedl *Math Uab Mathonwy*. Yn yr enghraifft ganlynol mae Arianrhod gyda'i mab Llew a Gwydion ar y llong (er nad yw'n ymwybodol o pwy ydynt gan eu bod yn rhith crefftwyr):

Sef a wnaeth hitheu, chwerthin.⁴⁴²

Ceir darlun meddal iawn a didwyll hyd yn oed o Arianrhod o ystyried ei bod yn gymeriad annibynnol ac anemosiynol. Mae'r ffaith ei bod yn chwerthin gyda nhw hefyd yn dangos nad yw hi wedi gweld drwy'r rhith yma a'i bod yn eithaf anymwybodol o'r hyn sydd yn digwydd, ac yn arwain iddi roi enw i'w mab a dad-wneud y dynged a roddodd arno.

Yn yr enghreifftiau nesaf o chwerthin gwelwn ei fod yn rhan o ryw fath o fflyrtio. Yn y dyfyniad gyntaf o destun *Owein* gwelwn fod yr Iarlles yn dechrau meddalu tuag at Owain, ac fe geir darlun tyner iawn ohonynt:

A dyfot at y iarllles a oruc y vorwyn a dyuedut wrthi cwbyl o'y ymadrawd. Sef a oruc y iarllles yna chwerthin.⁴⁴³

Mae hyn eto'n digwydd mewn episod sydd llawn teimlad wrth i'r chwerthin ddatgelu teimladau'r Iarlles tuag at y marchog.

⁴⁴² Math 9: 314.

⁴⁴³ Owein 23: 630-32.

Y mae'r enghraifft nesaf yn fwy eithafol gyda'r forwyn yn chwerthin am bopeth a ddywed Peredur yn *Historia Peredur vab Efwrawc*:

A pheth bynhac a dywettei Peredur wrthi, wherthin a wnai hitheu yn vchel mal y clywei pawb o'r llys.⁴⁴⁴

Gwelwn bobl yn chwerthin heddiw fel rhan o fflyrtio, ac mae chwerthin ar gellweiriau pobl yn gallu tarddu o nerfusrwydd ac fe'i defnyddir weithiau i guddio diffyg hyder neu embaras.

Yn wahanol i'r chwerthin sydd yn arwydd o hapusrwydd ceir enghraifft o chwerthin mewn ffordd gas a chyfrwys yn *Ystoria Gereint Uab Erbin*. Yn y dyfyniad yma gwelwn ochr arall i gymeriad Geraint:

Glaschwerthin digius engiriawlchweru a oruc Gereint⁴⁴⁵

Mae grym y chwerthin yn llawn casineb. Cydymdeimlwn ag Enid sydd yn ceisio achub ei gŵr rhag unrhyw niwed o du'r marchogion eraill – nid yw'n gwerthfawrogi hyn o gwbl ond yn hytrach ei gonsŷrn ef yw'r ffaith fod ei wraig wedi mynd yn groes i'w orchymyn ef. Gellir dadlau mai byd y dyn oedd yr Oesoedd Canol.

Enghraifft arall o'r ystumiau geiriol yma a geir yn y *Mabinogion* yw ebychiad. Mae ebychiad fel ymateb yn un o'r ymatebion mwyaf gonest gan fod cymeriadau'n gwneud hyn heb feddwl. Mae'n gyffredin yn y farddoniaeth hefyd. Cawn enghraifft o ebychiad gan Dafydd Benfras yn ei gerdd 'Marwnad i Lywelyn ab Iorwerth.' Mae ailadrodd yr 'Och' yn cael yr un effaith, sef ychwanegu'r elfen ddramatig a'r sioc am farwolaeth Llywelyn.

⁴⁴⁴ Peredur 63: 9-11.

⁴⁴⁵ Gereint 30: 851.

Och am wyr, am wr diwaradwydd,
Och fawr a fwir o ddirfingrwydd,
Och faith heb ychwaith o'i obeithrwydd,
Och am Nhaf, am neb diwydrwydd,
Och am ner, muner mynogrwydd,
Och ddygn a ddognes goleurwydd,
Och dde am ddewrddrud ehangrwydd,
Och nos o aros yr arwydd,
Och ddydd a ddoddyw o'i dramgwydd,
Och Ddofydd ddifa dwreiddrwydd,
Och Dduw o ddyfod ein harglwydd.⁴⁴⁶

Yn yr enghraifft gyntaf o'r bedwaredd gainc, ymateb Arianrhod a gawn i'r newydd nad oes angen arfau ar Llew a Gwydion mwyach. Mae'r ddau yn rhith beirdd fel y gall Gwydion gael arfau i'r mab oherwydd y dynged a osodwyd arno gan ei fam, sef na all fyth gael unrhyw arfau sydd yn gwneud iddo fod yn gymwys i fod yn ddynged:

“Och,”⁴⁴⁷

Mae'n amlwg wrth weld ymateb Arianrhod fod hyn yn adlewyrchu syndod mawr.

Gwelwn ymateb Rhiannon wrth i Pwyll ddweud wrth Gwawl y gall roi unrhyw beth iddo yn y gainc gyntaf:

“Och!” heb y Riannon⁴⁴⁸

Dengys ymateb Rhiannon ei rhwystredigaeth tuag at ffolineb Pwyll, gan ei bod wedi gweithio mor galed i ddianc rhag gorfod priodi Gwawl a phriodi Pwyll yn ei le. Dywed

Miranda Green am berthynas Pwyll a Rhiannon:

She and Pwyll appear to have been in equal love, but Jean Markale makes the point that motherhood reduced her rights, power and rank. The equality of their marriage is interesting in that it may reflect early medieval Welsh law, which was liberal towards women in this respect. Celtic sexual equality may be evidenced, too, in the iconography of pagan Celtic Europe, where divine couples were depicted as of equal size, despite the natural size difference between men and women, which is deliberately not represented.⁴⁴⁹

⁴⁴⁶ Dafydd Benfras, 'Marwnad i Lywelyn fab Iorferth, Dafydd Benfras a'i cant,' yn N. G. Costigan (Bosco), R. Geraint Gruffydd, Nerys Ann Jones, Peredur I. Lynch, Catherine McKenna, Morfydd E. Owen a Gruffydd Aled Williams, (goln), *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg* (Caerdydd, 1995), 433.

⁴⁴⁷ Math 11: 370.

⁴⁴⁸ Pwyll 12: 318.

⁴⁴⁹ Green, *Celtic Goddesses*, 53.

Yn yr enghraifft hon mae Pwyll fwy neu lai wedi tanseilio popeth y mae hi wedi ei wneud hyd yn hyn a chaiff ei adlewyrchu'n effeithiol yn ei hymateb hi. Mae'r ddyfais hon hefyd yn arwyddo troad neu ddatblygiad dramatig yn y stori yn ogystal ac fe adlewyrchir hyn yn y naratif.

Dyma ymateb y gwraedd wrth ddarganfod nad yw mab Pwyll a Rhiannon yn yr ystafell:

“Och!” heb vn o'r gwraedd.⁴⁵⁰

Adlewyrcha'r ymateb eu sioc o ddiffyg presenoldeb y mab a hefyd eu hofn — beth oedd yn mynd i ddigwydd iddynt hwy gan mai eu bai nhw oedd colli'r baban? Fel o'r blaen, mae rhywbeth yn mynd i ddeillio o hyn — y cynnwrf yn y ddrama a symud y plot ymlaen, gyda'r 'och' yn arwyddo hynny'n gryf.

Dyma'r ymateb wrth i ddynion Matholwch gael gwybod bod Brân a'i ddynion ar y ffordd draw i ddial arnynt am y sarhad ar Branwen yn yr ail gainc:

“Och!” heb wy,⁴⁵¹

Yn yr ymateb hwn, canfyddir agwedd syfrdan gan ddynion a fu mor hunanhyderus gyda'u cyngor i Matholwch. Dyma nhw nawr yn stond, yn ddieiriau, ac mae'n amlwg nad oes gan neb ohonynt gynllun mewn ymateb i'r newyddion hyn am Brân a'i filwyr. Mae hyn hefyd yn gyferbyniad llwyr i'r darlun blaenorol yr ydym wedi ei gael ohonynt, gan fod digon ganddynt i'w ddweud fel arfer.

Dyma enghraifft wych arall o gyfathrebu aneiriol yn nhestun *Owein* gyda'r Iarlles a'i morwyn unwaith eto.

⁴⁵⁰ Pwyll 17: 468-9.

⁴⁵¹ Branwen 10: 275.

A chyfodi a oruc yr Iarllles hyt ar drws ys ystauell yn ol Lunet, a phesyachu yn uchel. Ac edrych a oruc Lunet tu drachefyn, ac emneidaw a oruc yr Iarllles ar Lunet. A dyuot drachefyn a oruc Lunet at yr Iarllles.⁴⁵²

Pwrpas y pesychu yw bod yr Iarllles yn gallu tynnu sylw ei morwyn, Luned. Yn ogystal gwelwn yn glir taw'r Iarllles wrth gwrs yw'r un sydd â'r pŵer, fodd bynnag mae'r forwyn yn herio hyn trwy droi ei chefn ati a mynd am y drws, ond wrth i'r Iarllles besychu, ildia ei morwyn iddi.

Ceir sawl enghraifft o gymeriad yn gwrthod siarad ac yn anwybyddu cymeriad arall yn fwriadol. Mae hyn yn enghraifft wahanol o gyfathrebu, hynny yw nad yw un cymeriad am gyfathrebu gyda chymeriad arall am ryw reswm penodol. Dyma enghraifft o hyn yn chwedl *Pwyll Pendeuic Dyuet*:

A medylaw a wnaeth yn hir. A guedy y medwl hwnnw, duhunaw a wnaeth ef, a farabyl a dywot ef wrthi hi, a'r eil, a'r trydyt. Ac attep ny chauas ef genthi hi yn hynny.⁴⁵³

Gellir gweld yn y ffaith nad yw'r frenhines yn ei ateb ei bod yn ddig. Mae'r frenhines yn mynd yn groes i'r confensiwn trwy beidio â'i ateb ef ond hefyd trwy ei herio trwy aros yn dawel, a oedd yn beth dewr. Mae'n amlwg bod gwraig Arawn yn teimlo ei fod wedi ei hisraddio gan fod Arawn (ond Pwyll ydoedd mewn gwirionedd, heb yn wybod iddi hi) wedi troi ei gefn ati yn y gwely dros y flwyddyn a aethai heibio.

Yn yr enghraifft nesaf nid yw Pwyll yn peidio ag ateb neb ond yn hytrach nid oes ganddo ateb; mae'n ddieiriau:⁴⁵⁴

Kynhewi a oruc Pwyll, cany bu attep a rodassei.⁴⁵⁵

⁴⁵² Owein 15: 405-8.

⁴⁵³ Pwyll 6: 151-4.

⁴⁵⁴ Cawn drafodaeth ar fod yn ddieiriau pan yw'r cogydd methu ateb yng ngwaith Chaucer, gw. Benson, *Medieval Body Language*, 69.

⁴⁵⁵ Pwyll 12: 323.

Adlewyrcha hyn ffolineb Pwyll fel cymeriad, a'r ffordd y mae'n gweithredu cyn meddwl. Mae hyn yn crynhoi ei gymeriad ef fel dyn sydd heb unrhyw gynllun, o'i wrthgyferbynnu â Rhiannon sydd bob amser yn ei gael allan o drwbl. Gwelir Pwyll yn gymeriad sydd yn cael ei bortreadu yn eithaf naïf a byrbwyll gan yr awdur, ac fel y dywed Byfield amdano: 'Pwyll's own words and actions demonstrate his propensity for *doing* first and thinking later.'⁴⁵⁶

Cawn rai o'r enghreifftiau gorau o gyfathrebu aneiriol rhwng dwy gymeriad yn nhestun *Owein* gyda'r Iarlles yn y dyfyniad yma yn gwrthod ateb Luned ei morwyn:

A phan deuth yno nyt oed yno namyn tristyt a goul, a'r iarllles e hun yn yr ystauell heb diodef gwelet dyn rac tristit. A dyuot a oruc Lunet attei a chyuarth gwell idi, ac nys atebawd yr iarllles.⁴⁵⁷

Dengys hyn y tensiwn sydd rhwng yr Iarlles a'i morwyn. Mae'r Iarlles yn amlwg yn siomedig yn Luned yn enwedig gan ei bod newydd golli ei gŵr, ond ceisio helpu'n unig y mae'r forwyn ac fe adlewyrchir hyn yn y ffaith nad yw'r Iarlles yn ateb ei morwyn.

Mae'r enghraifft nesaf yn drobwynt yn *Historia Peredur vab Efwrawc*: ni chwestiyna Peredur ddim am yr hyn a adweinir fel gorymdaith y greal yn y traddodiad Ffrangeg:

Ny thorres y gwr ar y ymdidan a Pheredur yr hynny. Ny dywawt y gwr y Peredur beth oed hynny, nys gofynnwys ynteu idaw.⁴⁵⁸

Yn yr episod yma cofia Peredur gyngor ei ewythr cyntaf, sef peidio â holi dim gan y byddai hynny'n golygu mynd yn erbyn cyngor ei hyfforddwr cyntaf. Ond petai Peredur wedi gofyn y cwestiwn hwn byddai hyn wedi datgelu'r dirgelwch mawr sydd yn bodoli

⁴⁵⁶ C. Byfield, 'Character and Conflict in the Four Branches of the Mabinogi', *Bwletin Bwrdd Gwybodau Celtaidd* 40 (1993), 52.

⁴⁵⁷ *Owein* 15: 384-7.

⁴⁵⁸ *Peredur* 20: 10-2.

ynghylch *Historia Peredur vab Efwrawc* a'i berthynas yn ymwneud â *Perceval* yn y Ffrangeg a hefyd gorymdaith y greal.

Ceir enghraifft dra gwahanol o anwybyddu cymeriad wrth i Peredur ballu ag ateb y gwas:

Yna y doeth y mackwy yn yd oed Peredur a gofyn idaw beth [141] a wnaei yno a phwy oed. A rac mheint medwl Peredur ar y wreic uwyhaf a garei, ny rodes ateb idaw.⁴⁵⁹

Y rheswm nad yw'n ateb y gwas yw oherwydd ei fod yn rhy brysur yn meddwl am ei ferch ddelfrydol a heb sylwi bod y gwas yn siarad ag ef! Mae fel petai ef yn synfyfyrion, ac mae hynny'n cael ei gyfleu mewn darlun doniol a real yn yr enghraifft yma. Ceir enghraifft arall gyda chymeriad Peredur:

“Pan doy ti, vnben?” heb y Kei, a dwyweith a their. Ac nyt attebei ef.⁴⁶⁰

Eto gwelwn fod ei ben yn y cymylau! Y tro hwn nid yn unig meddylia am y ferch a gar fwyaf, ond hefyd mae ei fryd ar lys Arthur.

Yn yr enghraifft ganlynol gwelwn ochr arall i gymeriad cymhleth Geraint yn *Ystoria Gereint Uab Erbin* — ni ddywed yr un gair wrth Enid er ei bod hi'n siarad ag ef:

Kynhewi a oruc ynteu o ulinder vrthi hi am nad archassei idi dywedud.⁴⁶¹

Gallwn weld taw ef sydd yn rheoli'r berthynas yma ac nad yw'n ei hateb am ei fod yn ddig wrthi am siarad yn y lle cyntaf. Lle merched oedd siarad pan oedd gofyn iddyn nhw wneud yn yr Oesoedd Canol. Dyma'r math o ferch a fynnai Hywel ab Owain Gwynedd! Gwelwn hyn yn ei awdl, ‘Hywel vab Ewein a’e cant’

Ban ddywaid o fraidd weddaidd wofeg;⁴⁶²

⁴⁵⁹ Peredur 31: 8-11.

⁴⁶⁰ Peredur 40: 25-6.

⁴⁶¹ Gereint 31: 877-8.

⁴⁶² Hywel ab Owain Gwynedd, ‘Hywel vab Ewein a’e cant’ yn K. A. Bramley et al. (goln), *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif* (Caerdydd, 1994), 122.

Gwelwn fod yna nifer o ystumiau geiriol diddorol i'w canfod yn y *Mabinogion* gydag enghreifftiau helaeth o lefain, chwerthin, pesychu, ebychiadau ac ochneidio sydd eto'n dangos teimpladau'r cymeriadau, ac sydd yn rhan bwysig o dechnegau'r storiwyr.

Diwedd glo.

Mae'n amlwg fod ystumiau ac iaith y corff yn gallu dweud llawer wrthym am gymeriadau'r *Mabinogion* fel yr wyf wedi ceisio ei ddangos yn y traethawd hwn sydd yn braenaru'r maes. Bu'n rhaid i mi edrych â meddwl agored mewn modd eang iawn ar iaith y corff wrth ganolbwyntio ar y corpws bach o chwedlau'r *Mabinogion*. Y mae hyn hefyd oherwydd fel y dywed Burrow, 'present knowledge about the forms and functions of non-verbal signs in the past is very patchy and imperfect.'⁴⁶³ Ond hefyd o ran testunau'r *Pedair Cainc* gwelwn yn glir eu bod yn wahanol iawn i'r chwedlau eraill. Dywed Sioned Davies yn y cyswllt hwn:

Ar yr olwg gyntaf mae *Pedair Keinc* y *Mabinogi* yn sefyll ar wahân i chwedlau eraill y *Mabinogion* o safbwynt disgrifio cymeriadau. Ni cheir defnydd helaeth o ansoddeiriau yn y *Pedair Keinc*, ac nid oes lle i ddisgrifiadau hir a manwl ynddynt - mae'r pwyslais ar y ferf ac nid ar yr ansoddair. Byr iawn yw'r disgrifiadau o ymddangosiad corfforol y cymeriadau.⁴⁶⁴

Mae hyn oherwydd bod y disgrifiadau yma'n torri ar draws y naratif ac yn arafu'r tempo fel sydd yn digwydd yn aml hefyd yn *Ystorya Gereint Uab Erbin* a *Breudwyd Ronabwy*. Hefyd ceir pwyslais ar y ferf yn ogystal â'r pwyslais ar y symud: nid oes lle wedyn i'r pethau cynnil yma sydd yn cynnwys iaith y corff a'r ystumiau gan fod hyn eto'n arafu tempo'r naratif. Mae tuedd yn y *Mabinogion* wedyn i'n gyrru ni'r darllenwyr i ragdybio pethau gan nad yw yr awdur neu'r awduron yn manylu.

Un peth pwysig sydd wedi fy nharo wrth wneud yr astudiaeth hon ar iaith y corff yw cymaint o bwyslais neilltuol a geir ar wallt. Manylir ar y rhan yma o'r corff yn fwy nag ar unrhyw ran arall, a chaiff cymeriadau eu hadnabod a hyd yn oed eu 'cymeriadu' ar sail eu gwallt. Fe ddefnyddir disgrifiadau stoc yn ogystal i ddisgrifio gwedd cymeriadau fel y

⁴⁶³ Burrow, *Gestures and Looks*, 180.

⁴⁶⁴ Sioned Davies, 'Pryd a Gwedd yn y Mabinogion', *Ysgrifau Beirniadol* 14 (1988), 115-116.

disgrifiad a geir o Culhwch⁴⁶⁵ a'r disgrifiad a gawn o Olwen⁴⁶⁶ yn ogystal. Peth pwysig arall yw nad oes codi llaw i ffarwelio neu wenu i gyfarch cymeriad yn digwydd mor aml ag yr oeddwn yn disgwyl, yn enwedig gan fod hyn yn rhywbeth mor bwysig yn ein diwylliant ni heddiw. Yn hytrach fe geir mwy o bwyslais ar godi i ddangos parch a chydabod statws ac awdurdod cymeriad arall. Ceir pwyslais mawr ar hyn wrth edrych ar safleoedd cymeriadau gwahanol fel yr wyf wedi dangos, er enghraifft ynghylch pwy sydd yn eistedd gyda phwy? Pwy sydd yn sefyll? Pwy sydd tu blaen a thu ôl? Mae hyn yn dangos wrth gwrs pa gymeriad sydd â'r pŵer, grym a'r statws a oedd yn amlwg yn rhan bwysig iawn o ddiwylliant y gymdeithas ganoloesol.

Mor bwysig yw absenoldeb y disgrifiadau manwl o serch a chariad yn y chwedlau yma. Dim ond un enghraifft o gusan a geir a'r enghraifft honno yw pan gusana Peredur forwyn y babell ac fe gyfaddefa nad yw'n siŵr yn union beth y mae'n ei wneud — mae hyn felly yn ymdrech braidd yn aflwyddiannus ar gusanu yn y testun.⁴⁶⁷ Mae'n ymddangos ar yr olwg gyntaf mai dylanwad cyfandirol ar y chwedlau Cymraeg hyn yw'r syniad o serch.⁴⁶⁸ Yn sicr, mae'r busnes o ramantu a serch yn fwy presennol a gweledol yn y gweithiau Ffrangeg a Saesneg o'r Oesoedd Canol, fel y dywed Noble am waith Chrétien de Troyes, 'Chrétien does, however, make a much more explicit contrast between different sorts of relationship,'⁴⁶⁹ ac mae'n amlwg roedd yr awdur neu'r awduron Cymraeg wrth gyfieithu ac addasu yn gadael allan y cyfeiriadau manwl yma o olygfeydd serch gan nad oedd hyn

⁴⁶⁵ KO 3-4: 60-81.

⁴⁶⁶ KO 18: 487-98.

⁴⁶⁷ Peredur 11: 4-6.

⁴⁶⁸ Mae hyn yn wir yng ngwaith Chrétien de Troyes, dywed 'Love and its problems are a constant theme in the works of Chrétien de Troyes' gw. Peter S. Noble, *Love and Marriage in Chrétien de Troyes* (Cardiff, 1982), 8.

⁴⁶⁹ Noble, *Love and Marriage*, 24.

yn bwysig i'r gynulleidfa Gymraeg. Cawn un enghraifft o olygfa o ymserchu mewn manylder llawn a'r elfen o gariad rhamantus rhwng Geraint ac Enid pan maent yn gorwedd ym mreichiau ei gilydd, a bod Enid yn llefain gan ei bod mor hapus. Fodd bynnag, fe gamddealla Geraint y sefyllfa gan feddwl bod arni eisiau bod gyda dyn arall ac yna fe gamdrinia ei wraig am weddill y chwedl.⁴⁷⁰ Yr olygfa sydd yn crisialu'r absenoldeb yma o gariad a'r serch cwrtais a oedd mor bwysig yn y llenyddiaeth gyfandirol yw'r olygfa o Pwyll yn troi ei gefn at wraig Arawn yn y gwely.⁴⁷¹ Yma, mae'r pwyslais pennaf ar ymatal rhywiol Pwyll yn hytrach nag ar serch cnawdol. Gwelwn felly fod y pwyslais ar beth sydd yn bwysig i awdur neu awduron y *Mabinogion* o ran iaith y corff yn wahanol iawn i'r awduron cyfandirol, ac yn ddiau bydd angen mwy o waith cymharol, a gwaith ar y farddoniaeth yn ogystal, i gyrraedd unrhyw gasgliad am y pwnc mawr hwn. Eisoes fe lwyddodd Manon Phillips i gymharu'r olygfa o Geraint ac Enid yn dychwelyd i lys Arthur yn y chwedlau Cymraeg â'r chwedlau Ffrangeg ac Almaeneg:

When Geraint and Enid return to Arthur's court, the latter presents Enid with the head of the stag, hunted by Arthur and his household troop. This scene has caused some discussion in the past since it differs from that of the corresponding French and German tales, where Enide/Enite only receives a kiss from Arthur on her arrival.⁴⁷²

Er bod iaith y corff yn bwnc poblogaidd iawn ar hyn o bryd gyda nifer helaeth o lyfrau wedi cael eu cyhoeddi amdano yn y byd busnes ar sut i gael y swydd neu werthu pethau drwy iaith eich corff a hefyd nifer helaeth o lyfrau ar sut i ddarllen iaith y corff yn eich perthynas, dim ond megis dechrau y mae'r gwaith ar iaith y corff ac ystumiau yn yr

⁴⁷⁰ Gereint 25: 707-20.

⁴⁷¹ Pwyll 4: 93-6.

⁴⁷² Manon Phillips, 'Defod a Moes y Llys', yn Charles-Edwards et al. *Welsh King and his Court*, 349.

Oesoedd Canol yn enwedig yn llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod. Mae galw mawr am waith ymchwil pellach yn y maes hwn.